Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai fod gan gyrff cyhoeddus aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas Cymru - pobl o bob cefndir - er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud gwell penderfyniadau. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio laith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol o gymhwysedd ar gyfer y rôl ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Os hoffech gael cyfweliad gwarantedig, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus drwy e-bostio penodiadau.cyhoeddus@llyw.cymru i roi gwybod iddynt.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio laith Arwyddion Prydain, a'ch bod yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

Cysylltiadau:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â'r:

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus

Uned Cyrff Cyhoeddus

E-bost: penodiadau.cyhoeddus@llyw.cymru.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Am fwy o wybodaeth am rôl Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a rôl y Cadeirydd, cysylltwch â:

Ysgrifennydd Dyddiadur y Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru

E-bost: DStoDGforHealthandSocialServicesChiefExecutiveNHSWales@gov.cymru

James Quance, Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

E-bost: james.quance2@wales.nhs.uk

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gatenbysanderson Ltd i gefnogi'r ymgyrch recriwtio hon. Os hoffech gael trafodaeth gyfrinachol i sicrhau eich bod yn gwneud y gorau o'ch cais, cysylltwch â Melanie Shearer -

melanie.shearer@gatenbysanderson.com (07785 616548) neu Carmel Bell yn carmel.bell@gatenbysanderson.com (07917 826639).

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â penodiadau.cyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus.

Penodi Cadeirydd i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Rôl a chyfrifoldebau

Bydd y Cadeirydd yn atebol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am berfformiad y Bwrdd a'i lywodraethiant effeithiol, am gynnal gwerthoedd y GIG, ac am ennyn hyder y cyhoedd a phartneriaid ledled ardal y Bwrdd Iechyd.

Bydd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys:-

- **Yn arwain y Bwrdd wrth iddo ddatblygu Gweledigaeth Strategol** ar gyfer gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn y dyfodol, gan wireddu ac adeiladu ar botensial a sgiliau cynhenid y sefydliad i ddatblygu gwasanaeth arloesol sy'n dangos esiampl, gyda'r nod o wella lles y boblogaeth a gwella'r canlyniadau iddynt.
- **Yn cynnig arweiniad effeithiol a gweladwy** ar draws cyfrifoldebau'r Bwrdd, yn fewnol drwy'r Bwrdd, ac yn allanol drwy ei gysylltiadau ag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid ar lefel y gymuned, yr awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd ac yn genedlaethol;
- **Yn sicrhau bod y Bwrdd yn darparu'n effeithiol** nodau strategol a gweithredol y Bwrdd Iechyd drwy gyflawni nodau strategol a pholisïau a sicrhau llywodraethiant da;
- **Yn gyfrifol am gynnal** yr ansawdd uchaf o ran safonau ac arferion iechyd y cyhoedd, gan wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd;
- **Yn atebol am berfformiad y Bwrdd** ar lefel y gymuned, yr awdurdod lleol, y Bwrdd ac yn genedlaethol, drwy gytuno ar Gynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd a chynllun cyflawni blynyddol, a'r gwerthusiad blynyddol o'r cyraeddiadau yn erbyn y cynllun yn gyhoeddus gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- **Yn sicrhau bod y Prif Weithredwr yn atebol am** bob un o'i gyfrifoldebau;
- **Yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid**, yn arbennig contractwyr gofal sylfaenol a chyrff eraill y GIG, prifysgolion, awdurdodau lleol, y Trydydd Sector a phartneriaid cymdeithasol, i sicrhau bod gwasanaethau diogel ac effeithiol yn cael eu cynllunio a'u darparu;
- **Yn rhoi sicrwydd a threfn lywodraethu ar gyfer gofalu'n briodol am arian cyhoeddus ac adnoddau eraill** y mae'r Bwrdd yn atebol amdanynt;

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

- **Yn rhoi sicrwydd bod y Bwrdd yn cael ei lywodraethu'n effeithiol** o fewn y fframwaith a'r safonau sydd ar waith ar gyfer y GIG yng Nghymru, gyda phwyslais arbennig ar sicrhau ei fod yn agored ac yn dryloyw;
- **Yn ymgymryd â rôl fel llysgennad allanol**, gan gynrychioli'r Bwrdd yn gyhoeddus ac ennyn hyder y cyhoedd
- **Yn gweithredu fel Ymddiriedolwr Corfforaethol** Elusen Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Manyleb y Person

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad.

Meini Prawf Hanfodol

Gwybodaeth a Phrofiad

- Y gallu i feithrin gweledigaeth ac i arwain y gwaith o ddatblygu strategaethau diffiniedig wrth geisio cyflawni nodau hirdymor a byrdymor;
- Y gallu i hwyluso dealltwriaeth o faterion cymhleth, gan ddangos parch at farn pobl eraill;
- Y gallu i sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd drwy gymryd rhan mewn proses gadarn a thryloyw o wneud penderfyniadau;
- Y gallu i ysgogi a datblygu'r Bwrdd i ddiffinio rolau a chyfrifoldebau er mwyn sicrhau perchnogaeth ac atebolrwydd;
- Ymrwymiad clir i ddeall a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;
- Y gallu i ddangos gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd a diwylliant, ac ymrwymiad i hyrwyddo a phrif-ffrydio'r Gymraeg.

Priodoleddau Personol

- Sgiliau rhyngpersonol a dylanwadu cryf a'r gallu i weithredu fel eiriolwr a llysgennad effeithiol;
- Barn gadarn, sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth wleidyddol;
- Y gallu i fod yn annibynnol ac yn wydn.

Dymunol

- Y gallu i siarad Cymraeg

Y Gymraeg

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, ond bydd disgwyl i bob ymgeisydd ddangos ymrwymiad i'r iaith a'r diwylliant, a dangos arweiniad i gryfhau a hyrwyddo'r

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

ddarpariaeth gwasanaethau dwyieithog o fewn y GIG yng Nghymru. Dyma lefel y sgil sy'n cael ei hystyried yn ddymunol:

Dymunol

Deall = 2 - Gall ddeall sgysiau sylfaenol am bynciau bob dydd
Darllen = 2 - Gall ddarllen a deall deunydd syml am bynciau pob dydd
Siarad = 3 - Gall gynnal sgwrs mewn rhai sefyllfaoedd gwaith
Ysgrifennu = 1 - Gall ysgrifennu negeseuon sylfaenol am bynciau pob dydd

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad: Tŷ Glasbury, Bronllys, Aberhonddu

Ymrwymiad amser: O leiaf 15 diwrnod y mis

Hyd y penodiad: Penodiad cychwynnol o hyd at 4 blynedd, i'w benderfynu gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Tâl: £44,820 y flwyddyn ynghyd â chostau teithio a chostau eraill, o fewn terfynau rhesymol.

Cymhwysra

Bydd unigolyn yn anghymwys i gael ei benodi os yw:

- wedi ei gael yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysydd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar (wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o 3 mis neu fwy;
- wedi ei wneud yn fethdalwr neu wedi gwneud cyfamod neu drefniant gyda'i gredydwr
- wedi ei ddiswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth iechyd;
- yn unigolyn y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd am nad yw ei benodiad er budd y gwasanaeth iechyd, am beidio â mynychu cyfarfodydd neu am beidio â datgelu buddiant ariannol
- yn weithiwr cyflogedig mewn Ymddiriedolaeth neu Fwrdd Iechyd.

Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru fod pob un a gyflogwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth y GIG yn cael seibiant heb ymwneud â'r GIG cyn cael ei ystyried ar gyfer penodiad cyhoeddus yn y GIG

Yn ogystal â'r uchod, ni fydd person fel arfer yn gwasanaethu ar yr un pryd fel aelod nad yw'n swyddog ar fwrdd mwy nag un corff GIG yng Nghymru.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi y bydd bod yn aelod o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwys) 2015

<http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2015/1536/contents/made>

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi'n Gadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, a fydd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad. Bydd eich penodiad yn amodol ar broses gwirio geirdaon, a gynhelir gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Mae'n orfodol i ymgeiswyr llwyddiannus fynychu Rhaglen Gynefino GIG Cymru ar gyfer Aelodau Annibynnol a bydd gofyn ichi fynychu'r cwrs nesaf sydd ar gael.

Gwrthdaro Buddiannau

Wrth wneud cais, bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel y Cadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddioli'n llwyddiannus i gyfweiliad. Bydd hynny'n cynnwys ymhlith efallai pethau eraill, chwiliadau yn y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweiliad am ffrwyth yr archwiliadau diwydrwydd dyladwy hyn.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi arfer safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies>

Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Cefndir

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Powys yw un o siroedd mwyaf gwledig y DU. Er bod y sir yn ffurfio rhyw 25% o ardal ddaearyddol Cymru, dim ond 5% yn unig o'r boblogaeth sydd ganddi. Mae'r boblogaeth ym Mhowys yn hŷn o'i chymharu â gweddill Cymru ac mae cyfran y bobl hŷn yn cynyddu. Mae'r boblogaeth oedolion o oedran gweithio yn llai o'i chymharu â Chymru a rhagwelir y bydd nifer y bobl ifanc ac oedolion o oedran gweithio yn gostwng, tra bydd nifer y bobl hŷn yn cynyddu. Rhagwelir y bydd gostyngiad o 8% ym mhoblogaeth Powys erbyn 2039.

Mae gan y sir rwydwaith cryf o drefi a phentrefi bach a lefel uchel o ymrwymiad cymunedol a sector gwirfoddol cryf. Mae diweithdra'n isel, ond mae gan Bowys economi incwm isel gydag enillion cyfartalog isel a phrisiau tai sy'n uchel o'u cymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Mae pum ardal (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is) ymhlith y 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, wedi'u clystyru o amgylch y prif drefi marchnad â phoblogaethau preswyl uwch.

Yn gyffredinol, ceir canlyniadau iechyd da yn y Sir ac mae pobl yn byw'n hirach ac yn treulio mwy o flynyddoedd mewn iechyd da na'r cyfartaledd cenedlaethol, yn bwyta deiet iachach ac yn fwy egniol yn gorfforol. Mae llai o bobl yn teimlo'n unig ac mae mwy o ymdeimlad o gymuned a boddhad â bywyd. Dywed 83% eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol, o'i gymharu â 75% yng Nghymru gyfan. Fodd bynnag, er bod iechyd cyffredinol yn dda, mae materion sydd wedi llywio'r strategaeth hirdymor. Mae 1 o bob 5 o bobl yn dal i smygu, mae 1 o bob 4 o blant yn rhy drwm neu'n ordew wrth ddechrau yn yr ysgol ac mae 6 o bob 10 o oedolion yn ordew. Mae anghydraddoldebau iechyd ymhlith pobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Powys yn sylweddol; mae plentyn a anwyd yn yr ardal fwyaf difreintiedig yn byw tua 10 mlynedd (bechgyn) i 14 oed (merched) yn llai na phlentyn a anwyd yn yr ardal leiaf difreintiedig.

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn comisiynu gofal iechyd a hefyd yn darparu gofal iechyd yn uniongyrchol, ac mae'n wahanol i fyrdau iechyd eraill Cymru o ran cyfran y gwasanaethau a ddarperir i'r boblogaeth gan ddarparwyr gofal iechyd eraill.

Mae cyllideb y bwrdd iechyd tua £300m. Mae 50% yn cael ei wario ar ofal eilaidd ac arbenigol, mae 20% yn cael ei wario ar ofal sylfaenol a 30% yn cael ei wario ar wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol. Darperir y gwasanaethau uniongyrchol drwy rwydwaith o wasanaethau cymunedol ac ysbytai cymunedol sy'n cynnwys iechyd meddwl, anabledau dysgu, gwasanaethau mamolaeth a gwasanaethau plant. Darperir gofal ym Mhowys hefyd drwy gontractwyr gofal sylfaenol megis Practisau Cyffredinol, Practisau Deintyddol, Fferyllwyr ac Optometryddion, yn ogystal â'r Trydydd Sector. Mae yna hefyd ystod gynyddol o sesiynau cleifion allanol dan arweiniad ymgynghorwyr, nyrsys a therapyddion, theatr ddydd a diagnosteg mewn cyfleusterau cymunedol, gan ddod â gofal yn nes at Bowys ei hun ac yn nes at gymunedau a chartrefi pobl eu hunain.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

O ran comisiynu, mae rhai nodweddion unigryw sy'n gosod cyd-destun Powys. Gan ei bod yn Sir gwbl wledig heb unrhyw gytrefi trefol mawr a dim ysbytai cyffredinol aciwt, mae'n rhaid i bobl Powys deithio y tu allan i'r sir ar gyfer llawer o wasanaethau, gan gynnwys gofal iechyd eilaidd ac arbenigol, addysg uwch, cyflogaeth a hamdden.

Mae'r bwrdd iechyd yn prynu gwasanaethau ar ran y boblogaeth gan 15 o brif sefydliadau darparwyr y GIG ledled Cymru a Lloegr. Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford yw'r gyfran fwyaf o'n gweithgarwch a gomisiynir ac Ymddiriedolaeth GIG Dyffryn Gwy yw'r ail fwyaf. Yng Nghymru, mae'r bwrdd iechyd yn prynu gwasanaethau gan Fyrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Aneurin Bevan, Bae Abertawe a Chwm Taf Morgannwg, a chan eraill i raddau llai. Mae hyn yn cwmpasu pob arbenigedd, ond nid yw Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn gomisiynydd mwyafrifol i unrhyw ddarparwr aciwt.

Y Bwrdd

Diben Byrddau'r GIG yw llywodraethu'n effeithiol a thrwy wneud hynny feithrin hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid bod eu hiechyd a'u gofal iechyd mewn dwylo diogel. Mae'r atebolrwydd sylfaenol hwn i'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn cael ei gyflawni drwy feithrin hyder:

- Yn ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd.
- Bod adnoddau'n cael eu buddsoddi mewn ffordd sy'n sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl.
- Bod y gwasanaethau iechyd yn hygyrch ac yn ymatebol.
- Y gall y cyhoedd lunio gwasanaethau iechyd yn briodol i ddiwallu eu hanghenion.
- Y caiff yr arian cyhoeddus hwnnw ei wario mewn ffordd sy'n effeithlon ac sy'n rhoi gwerth am arian.

Y tair rôl allweddol y mae'r Bwrdd yn dangos arweinyddiaeth trwyddynt yn ei sefydliad yw:

- **Llunio strategaeth**
- **Sicrhau atebolrwydd** trwy ddwyn y sefydliad i gyfrif am gyflawni'r strategaeth a thrwy geisio sicrwydd bod systemau rheoli yn gadarn ac yn ddibynadwy.
- **Siapio diwylliant cadarnhaol** ar gyfer y Bwrdd a'r sefydliad

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiadau personol yr ymgeiswyr i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Gofalwch felly eich bod yn darparu tystiolaeth sy'n dangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru, a bydd yn cynnwys Mick Giannasi, Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru, Becky Gorman, Llywodraeth Cymru ac Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel (i'w gadarnhau).

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Mewn sefyllfa o'r fath. Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan.

Rydym yn bwriadu cynnal y cyfweliadau drwy Microsoft Teams.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf ym manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn **bodloni'r meini prawf hanfodol** ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i'w aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu oherwydd nad yw aelodau'r panel dethol ar gael.

Fe gewch e-bost gan system benodi Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os bydd yn dewis gwneud hynny, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses honno.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Os byddwch yn llwyddiannus, fe gewch lythyr yn eich penodi'n Gadeirydd Bwrdd Iechyd Addysg Powys, a fydd hefyd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweiliad, byddwch yn cael gwybod drwy ganolfan benodi Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod yn rhaid wrth gryn ymdrech ac amser i ymgeisio am swyddi a bod cael adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Gwrandawriad cyn penodi

Os byddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, byddwch yn cael ei gwahodd fynychu gwrandawriad gan un o Bwyllgorau Senedd Cymru.

Mae craffu cyn penodi gan bwyllgorau dethol yn rhan bwysig o'r broses ar gyfer rhai o'r penodiadau cyhoeddus mwyaf arwyddocaol a wneir gan Weinidogion. Cynlluniwyd y broses i ddarparu lefel ychwanegol o graffu ar y broses gyffredinol ac i gadarnhau bod y recriwtio yn bodloni'r egwyddorion a nodir yn y Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus*. Gallai'r gwaith craffu hwn olygu bod y pwyllgor dethol perthnasol yn gofyn am wybodaeth gan yr Adran a'r ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog, ac yn adolygu'r wybodaeth honno. Gallai'r pwyllgor dethol hefyd ddewis cynnal gwrandawriad cyn penodi.

Cynhelir gwrandawriadau cyn penodi yn gyhoeddus a bydd y pwyllgor dethol yn gwrandawrio ar dystiolaeth gan yr ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog. Cynhelir y gwrandawriadau cyhoeddus hyn cyn i benodiad gael ei gadarnhau, ond ar ôl i'r broses ddethol gael ei chynnal.

Pan fo penodiad cyhoeddus yn destun craffu cyn penodi, mater i'r pwyllgor dethol perthnasol yw penderfynu a ddylid ymgymryd â gwaith craffu o'r fath, gan gynnwys a ddylid cynnal gwrandawriad cyn penodi. Yn dilyn adolygiad o'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Adran am y broses recriwtio, gall y pwyllgor dethol benderfynu nad oes angen gwrandawriad craffu cyn penodi cyn iddo gyhoeddi ei adroddiad, os yw'n cytuno â dewis y Gweinidog o ymgeisydd.

Ymholiadau

Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â penodiadau.cyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadau.cyhoeddus@llyw.cymru.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Petitions Committee

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

4 Gorffennaf 2022

Annwyl Ddirprwy Weinidog

Deiseb P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data fel mater o drefn o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

Diolch am ymddangos gerbron y Pwyllgor Deisebau ar 13 Mehefin 2022. Bydd eich tystiolaeth yn cael ei thrafod ynghyd â'r ystod o dystiolaeth arall a glywyd gennym fel rhan o'r gwaith hwn.

Fel rhan o'n gwaith craffu ar y mater hwn, rydym wedi nodi'r ystod o ymrwymïadau perthnasol yn y rhaglen lywodraethu, gan gynnwys yr ymrwymïadau i:

- atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal;
- darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyfron y system ofal;
- archwilio diwygiadau radical i'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal; a
- chryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'.

Rydym hefyd yn nodi'r adolygiadau diweddar o wasanaethau ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal yn Lloegr a'r Alban ac rydym wedi dilyn eu canfyddiadau a'u camau nesaf â diddordeb.

I sicrhau bod gennym ddealltwriaeth lawnach o'r diwygiadau radical sy'n cael eu gwneud mewn perthynas â gofal cymdeithasol i blant, gwnaethoch gytuno y byddai eich swyddogion yn anfon rhagor o fanylion atom am y camau ymarferol sy'n gysylltiedig â dwyn pob un o'r ymrwymïadau hyn yn ei flaen, yn ogystal â'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd fel rhan o'r broses ddiwygio. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn y 'diwygio radical' y soniwyd amdano, a byddem yn croesawu'n benodol unrhyw fanylion am y camau nesaf a'r amserlen mewn perthynas â'r mater hwn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb drwy e-bostio'r tîm clericio yn deisebau@senedd.cymru erbyn 18 Gorffennaf 2022 i'n galluogi i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Jack Sargeant." The signature is written in a cursive style and is underlined with a horizontal line that ends in an arrowhead pointing to the right.

Jack Sargeant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Cadeirydd, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a
Seilwaith
Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion
Gwledig
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder
Cymdeithasol
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r
Cyfansoddiad
Cadeirydd, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

6 Gorffennaf 2022

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

Ymgysylltiad y Gyllideb

Ar 11 Ebrill, ysgrifennais i roi gwybod ichi am raglen ymgysylltu'r Pwyllgor Cyllid ar gyfer ei waith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 sydd ar ddod. Mae'r Pwyllgor bellach wedi cwblhau ei dri maes ymgysylltu:

- digwyddiad i randdeiliaid yn Sefydliad y Glowyr Llanhilledd;
- gweithdy gydag aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru; a
- grwpiau ffocws gyda'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae adroddiad ymgysylltu wedi'i gyhoeddi sy'n crynhoi'r ymatebion a gawsom yn ystod ein gwaith ymgysylltu.



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddCyllid@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddFinance@senedd.wales

 0300 200 6565

Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru

Ar 13 Gorffennaf, bydd y Pwyllgor yn cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru a bydd yr adroddiad ymgysylltu y cyfeirir ato uchod yn cael ei gynnwys fel dogfen ategol ar gyfer y ddadl.

Credwn fod y ddadl hon yn rhoi'r cyfle gorau i'r Aelodau ddylanwadu ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru cyn llunio'r gyllideb ddrafft yn yr hydref a byddwn yn annog y Pwyllgorau i gyfrannu at y ddadl bwysig hon a phwyso am weithredu yn eu meysydd diddordeb.

Yr amserlen a'r dull o graffu ar y gyllideb

Yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU y llynedd am setliad aml-flwyddyn, roedd y Pwyllgor wedi gobeithio y byddem yn dychwelyd i broses 'cyllideb arferol' eleni, ar ôl sawl blwyddyn o graffu cyfyngedig. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu i egluro na fydd y diffyg sicrwydd ynghylch y pwysau sylweddol sy'n wynebu cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru yn cael ei ddatrys hyd nes bod Llywodraeth Cymru yn gwybod a fydd ei setliad yn newid mewn unrhyw ddigwyddiad Cyllidol yr Hydref yn y DU.

Gofynnodd y Gweinidog am farn y Pwyllgor ar yr amserlen a ffefrir ar gyfer cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, gyda'r opsiwn a ffefrir gennym sef ei fod yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref i alluogi wyth wythnos ar gyfer gwaith craffu, gyda'r gyllideb derfynol yn cael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr.

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd bellach wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i'w hysbysu bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r cyllidebau drafft amlinellol a manwl gyda'i gilydd erbyn 13 Rhagfyr fan bellaf neu o fewn pedair wythnos i gyllideb yr hydref Llywodraeth y DU. Cadarnhaodd y Trefnydd hefyd y bydd yn diweddarau amserlen y gyllideb yn nhymor yr hydref, cyn gynted ag y bydd manylion digwyddiad cyllidol y DU yn hysbys.

O ystyried y bydd cyhoeddi'r gyllideb ddrafft yn cael ei ohirio eto eleni, bydd galwad y Pwyllgor am dystiolaeth yn digwydd ym mis Medi. Byddaf yn ysgrifennu atoch eto gyda rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad, ac unrhyw ddiwygiadau i amserlen y gyllideb, maes o law.

Protocol Proses y Gyllideb

Mae Protocol Proses y Gyllideb rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru wedi bod ar waith ers 2017. Mae'r protocol yn nodi'r ddealltwriaeth rhwng y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru ar y trefniadau gweinyddol ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft flynyddol a materion eraill sy'n gysylltiedig â'r gyllideb.



Dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol lle nad yw proses dau gam y gyllideb wedi'i defnyddio ac mae gwaith craffu wedi'i gwtogi oherwydd amgylchiadau eithriadol. Er ein bod yn cydnabod bod oedi wedi digwydd oherwydd ansicrwydd cyllid gan Lywodraeth y DU, mae prosesau cyllidebol byrrach yn dod yn gyffredin ac, fel Cadeirydd, nid wyf yn dymuno cael trafodaethau tebyg ynghylch materion amserlennu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Am y rheswm hwn, rwyf wedi gofyn i'r Gweinidog ymrwymo i adolygiad o brotocol proses y gyllideb cyn rownd y gyllideb ar gyfer 2024-25 i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben.

Os oes gennych unrhyw sylwadau am brofiad eich Pwyllgor o graffu ar y gyllideb, byddwn yn ddiolchgar o glywed gennych.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso ichi gysylltu â mi neu Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6388 neu yn seneddcyllid@senedd.cymru.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

07 Gorffennaf 2022

Annwyl Russell,

Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2022-23 – Pwysau yn y GIG

Ar 30 Mehefin, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2022-23.

Yn ystod y sesiwn hon, trafododd y Pwyllgor faterion yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn enwedig y pwysau presennol y mae'r GIG yn eu hwynebu a'r cyllid ychwanegol sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i helpu â'r adferiad ar ôl y pandemig. Hoffwn dynnu eich sylw at yr argymhellion a ganlyn a nodwyd yn ein hadroddiad:

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dull hirdymor strategol o gynllunio a hyfforddi'r gweithlu ar draws y sector cyhoeddus i liniaru pwysau staffio yn y dyfodol gyda'r nod hirdymor o wneud gwasanaethau cyhoeddus yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am sut y bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer adferiad y GIG yn cael ei ddefnyddio a'r canlyniadau disgwylidig ar gyfer y cyllid ychwanegol y mae wedi ymrwmo i'w ddarparu dros dymor y Senedd hon.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth i egluro pam nad oedd byrddau iechyd lleol yn gallu defnyddio'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn 2021-22 yn llawn i gefnogi adferiad y GIG a lleihau'r ôl-groniad o ran amseroedd aros, yn ogystal â nodi pa gamau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau y gellir targedu dyraniadau'r flwyddyn gyfredol ac yn y dyfodol yn briodol i gyflawni ei huchelgeisiau a darparu gwerth am arian.

O ystyried bod gan eich Pwyllgor ddiddordeb yn y meysydd hyn, efallai yr hoffech drafod y materion hyn yn fanylach gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, neu Weiniadogion priodol eraill, wrth graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 yn ddiweddarach eleni.



Bydd ein hadroddiad ar Gyllideb Atodol 2022-23 yn cael ei gyhoeddi ar 11 Gorffennaf a bydd yn llywio'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn a drefnwyd ar gyfer 12 Gorffennaf.

Byddwn yn rhannu ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion â chi ar ôl iddo ddod i law.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



—
**Health and Social Care
Committee**

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

14 Mehefin 2022

Annwyl Eluned

Fframweithiau cyffredin dros dro

Diolch am eich llythyr ar 9 Mai 2022 ynghylch y fframweithiau cyffredin dros dro ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd; Diogelwch ac Ansawdd Gwaed; ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau). Ysgrifennaf i ofyn am ragor o sylw i ddarparu ymateb o sylwedd gan Lywodraeth Cymru i'r argymhellion a nodwyd yn fy llythyr ar 21 Mawrth 2022 nad ydynt yn ymwneud â materion sy'n destun negodiadau rhynglywodraethol parhaus a gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill yn y DU (gweler yr atodiad).

Mae eich llythyr ar 9 Mai 2022 yn nodi ei fod yn ateb dros dro, ar y sail "hyd nes bod pob deddfwrfwa yn y DU wedi cael cyfle i gwblhau proses graffu, ni fydd modd [i Lywodraeth Cymru] fynd i'r afael â'r argymhellion hyn yn ffurfiol".


Trafodwyd eich llythyr yn ein cyfarfod ar 19 Mai 2022. Rydym yn derbyn bod rhai o'n hargymhellion yn ymwneud â materion sy'n destun negodiadau rhynglywodraethol parhaus a gwaith craffu arnynt gan ddeddfwrfeydd eraill y DU. Rydym yn cytuno ei bod yn rhesymol i Lywodraeth Cymru anfon ateb dros dro mewn perthynas â'r argymhellion hyn.

Fodd bynnag, mae nifer o'n hargymhellion yn ymwneud â materion sy'n benodol i Gymru ac i Lywodraeth Cymru. Nid ydym wedi'n hargyhoeddi y dylai fod yn angenrheidiol i ni aros am ymateb o sylwedd i'r argymhellion hyn, yn enwedig gan fod ansicrwydd parhaus ynghylch pryd y bydd Cynulliad Gogledd Iwerddon mewn sefyllfa i gwblhau ei waith craffu ar y fframweithiau hyn.

Yn yr atodiad i'r llythyr hwn, rydym wedi nodi pa argymhellion sy'n perthyn i ba gategori yn ein barn ni.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb erbyn **29 Gorffennaf 2022**.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

copi at: Tracey Cooper, Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Senedd Cymru

Y Farwnes Andrews, Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi

Lesley Hogg, Clerc a Phrif Weithredwr, Cynulliad Gogledd Iwerddon

Gillian Martin ASA, Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Senedd yr Alban

William Wragg AS, Cadeirydd, Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad: Y fframweithiau cyffredin dros dro ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd; Diogelwch ac Ansawdd Gwaed; ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau)

Cais am ymatebion o sylwedd

1. Gofynnwn am ymateb o sylwedd i'r argymhellion a ganlyn. Ar gyfer pob un, rydym wedi amlinellu pam nad yw ymateb, yn ein barn ni, yn dibynnu ar gwblhau negodiadau rhynglywodraethol na gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill y DU.

Argymhelliad	Nodiadau
<p>Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn nodi ac yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed, ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau). Dylai Llywodraeth Cymru wneud hyn yn barhaus, gan gynnwys sut y caiff gwybodaeth am risgiau o'r fath ei rhannu â phwyllgorau'r Senedd.</p>	<p>Nid yw dull Llywodraeth Cymru o nodi a rheoli risgiau a rhannu gwybodaeth â phwyllgorau'r Senedd yn destun gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill y DU.</p>
<p>Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd yn hysbysu pwyllgorau'r Senedd cyn adolygu'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau). Dylai Llywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod pwyllgorau'n cael cyfle i graffu ar unrhyw newidiadau arfaethedig. Dylai'r hysbysiadau gynnwys gwybodaeth am y dull arfaethedig o ymgynghori â rhanddeiliaid.</p>	<p>Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud ag ymrwymiad unochrog gan Lywodraeth Cymru i hysbysu pwyllgorau'r Senedd – nid yw hyn yn destun negodiadau rhynglywodraethol na gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill.</p>
<p>Argymhelliad 8: Er mwyn sicrhau cymesuredd, pan fydd anghydfodau'n codi o dan y fframweithiau cyffredin, dim ond os cânt eu trosglwyddo i lefel Weinidogol y mae angen i Lywodraeth Cymru hysbysu pwyllgorau'r Senedd amdanynt.</p>	<p>Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud ag ymrwymiad unochrog gan Lywodraeth Cymru i hysbysu pwyllgorau'r Senedd – nid yw hyn yn destun negodiadau rhynglywodraethol na gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill.</p>

Argymhelliad	Nodiadau
<p>Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ynghylch a ddylid pennu unrhyw derfynau amser ar gyfer y broses datrys anghydfodau.</p>	<p>Rydym yn nodi bod y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant eisoes wedi nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar yr egwyddor hon yn ei <u>llythyr atom ar 21 Ebrill 2022</u> mewn perthynas â'r fframwaith cyffredin dros dro ar Safonau Cyfansoddiadol Bwyd a Labelu.</p>
<p>Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru gadarnhau a oes ganddynt unrhyw bryderon ynghylch y goblygiadau posibl o ran adnoddau neu gapasiti sy'n gysylltiedig â rhaglenni gwaith Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU neu'r Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd. Dylai hyn gynnwys nodi canlyniad yr asesiad o adnoddau y cyfeiriodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ato yn ei llythyr ar 17 Ionawr 2022, ac, os yw'r adnoddau ar gyfer y rhaglen waith yn cael eu talu o gyllidebau presennol, fanylion sy'n dangos o ble y trosglwyddwyd yr adnoddau ariannu a'r adnoddau staff a ddyrannwyd i'r rhaglen waith.</p>	<p>Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â phryderon sydd gan Lywodraeth Cymru neu Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â goblygiadau o ran adnoddau neu gapasiti – nid yw hyn yn destun negodiadau rhynglywodraethol na gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill.</p>
<p>Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru egluro pam na fydd cyd-ysgrifenyddiaeth yn cael ei sefydlu ar gyfer Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU na Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd y Pedair Gwlad. Dylent hefyd nodi a ydynt yn bwriadu dynodi unrhyw ysgrifenyddiaeth ategol ar gyfer y naill grŵp neu'r llall.</p>	<p>Mae'r argymhelliad hwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru esbonio'r sail resymegol dros benderfyniad sydd eisoes wedi'i wneud, a sut y maent yn bwriadu defnyddio'r strwythurau yn y fframwaith cyffredin – nid yw hyn yn destun negodiadau rhynglywodraethol na gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill.</p>
<p>Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth am weithgarwch rhyngwladol sy'n rhan o gwmpas y fframwaith cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd yn cael ei chynnwys yn ei hadroddiadau rheolaidd i'r Senedd ar weithrediad y fframweithiau cyffredin. Dylai hyn gynnwys: Gweithgarwch diweddar gan Lywodraeth Cymru neu Iechyd Cyhoeddus Cymru. Manylion am y safbwyntiau cyffredin y cytunwyd arnynt â phartion eraill sy'n rhan o'r fframwaith at ddibenion ymgysylltu rhyngwladol. Gwybodaeth am ddatblygiadau neu</p>	<p>Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â gwybodaeth sydd i'w chynnwys gan Lywodraeth Cymru yn ei hadroddiadau y bydd yn eu rhoi i'r Senedd yn unochrog – nid yw hyn yn destun negodiadau rhynglywodraethol na gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill.</p>

Argymhelliad	Nodiadau
<p>rwymedigaethau rhyngwladol arfaethedig a fyddai o fewn cwmpas y fframwaith.</p>	
<p>Argymhelliad 16: Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru egluro sut y gwnaethant gymryd rhan yn y broses o ddatblygu a chytuno ar y Memorandwm Cydddealltwriaeth gyda'r Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Rheoli Clefydau, a sut y bydd Cymru yn ymgysylltu â'r Ganolfan drwy'r fframwaith cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd.</p>	<p>Mae'r argymhelliad hwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru esbonio eu rôl mewn proses sydd eisoes wedi digwydd, a sut y bydd Cymru yn benodol yn ymgysylltu â'r Ganolfan yn drwy'r fframwaith – nid yw hyn yn destun negodiadau rhynglywodraethol na gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill.</p>
<p>Argymhelliad 17: Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a sicrhawyd mynediad y DU at System Rhybuddio ac Ymateb Brys yr UE. Os na sicrhawyd mynediad, dylai gadarnhau a ofynnir am fynediad drwy'r fframwaith cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd.</p>	<p>Mae'r argymhelliad hwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru gadarnhau mater ffeithiol.</p>
<p>Argymhelliad 19: Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i hysbysu'r Senedd, gan gynnwys y pwyllgorau perthnasol, am unrhyw gynigion i ddiwygio neu ddi-ddymu cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n rhan o gwmpas y fframweithiau ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed neu Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) a fyddai'n effeithio ar Gymru neu gleifion yng Nghymru.</p>	<p>Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud ag ymrwymiad unochrog gan Lywodraeth Cymru i hysbysu pwyllgorau'r Senedd – nid yw hyn yn destun negodiadau rhynglywodraethol na gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill.</p>
<p>Argymhelliad 20: Dylai Llywodraeth Cymru esbonio effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ar symud gwaed, organau, meinweoedd a chelloedd, gan gynnwys unrhyw risgiau i effaith ymarferol deddfwriaeth a pholisïau Cymru, ac a yw'n ystyried gofyn am unrhyw eithriadau i'r Ddeddf.</p>	<p>Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â dehongliad Llywodraeth Cymru o effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, ac a yw'n ystyried gofyn am eithriadau – nid yw hyn yn destun negodiadau rhynglywodraethol na gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill.</p>
<p>Argymhelliad 23: Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn asesu'r risgiau a'r manteision i Gymru o gyd-fynd â'r newidiadau a wneir yng Ngogledd Iwerddon a'r UE, yn hytrach na chynnal y sefyllfa bresennol ym Mhrydain Fawr, a beth fydd ei safbwynt mewn trafodaethau rhynglywodraethol ar y materion hyn.</p>	<p>Nid yw dull Llywodraeth Cymru o nodi a rheoli risgiau i Gymru yn destun gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill y DU.</p>

Ymateb dros dro

2. Rydym yn cytuno ei bod yn rhesymol i'r argymhellion a ganlyn fod yn destun ymateb dros dro ar hyn o bryd, ar y sail eu bod yn ymwneud â materion sy'n destun negodiadau rhynglywodraethol parhaus a gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill yn y DU.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau y bydd y fframweithiau ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) yn cynnal, o leiaf, yr hyblygrwydd cyfatebol ar gyfer addasu polisïau yn ôl anghenion penodol pob tiriogaeth â rheolau presennol yr UE.

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol na fydd y fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed, ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) yn arwain at wanhau'r trefniadau o ran ymgynghori â'r cyhoedd a gwaith craffu seneddol wrth lunio polisïau neu'r broses ddeddfwriaethol.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn sicrhau na fydd y fframweithiau cyffredin hyn yn cyfyngu ar rôl Llywodraeth Cymru, y Senedd, na rhanddeiliaid yng Nghymru wrth lunio deddfau a pholisïau i Gymru. Dylai hyn gynnwys sut y bydd Llywodraeth Cymru yn hwyluso gwaith pwyllgorau neu Aelodau o'r Senedd wrth iddynt ymgysylltu â'r fframweithiau cyffredin os bydd angen, er mwyn sicrhau nad yw'r fframweithiau yn rhwystr i weithredu gweithdrefnau deddfwriaethol y Senedd.

Argymhelliad 5: Yn unol â'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddarau'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) i gynnwys ymrwymiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddeddfwrfeydd am weithrediad parhaus y fframweithiau ar ôl i bob adolygiad ddod i ben.

Os na chaiff yr ymrwymiad hwn ei gynnwys yn y fframweithiau, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd adroddiadau ar y cyd ar y fframweithiau yn cael eu cyhoeddi serch hynny yn unol â'r disgwyliadau a nodwyd.

Os na ellir sicrhau cytundeb rhynglywodraethol ar y pwynt hwn, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r rhesymau pam na fydd adroddiadau rhynglywodraethol yn cael eu cyhoeddi, a chadarnhau y bydd, serch hynny, yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol unochrog yn unol â'i hymrwymiad blaenorol.

Argymhelliad 6: Yn unol â'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddarau'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) i gynnwys:

- Darpariaeth y dylai'r adolygiad cyntaf o bob fframwaith gynnwys proses ymgynghori agored â rhanddeiliaid.
- Ymrwymiad i ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid.

Os na sicrheir y naill ganlyniad na'r llall, dylai Llywodraeth Cymru esbonio'r rhesymau pam, ac amlinellu'r hyn a wneir yn lle hynny i sicrhau yr eir ati i ymgysylltu mewn modd parhaus, agored ac ystyrlon â rhanddeiliaid ar draws y DU.

Argymhelliad 10: Cyn i'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu lechyd y Cyhoedd a Diogelwch lechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) gael eu cwblhau, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y byddant yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r broses newydd o ddatrys anghydfodau rhyngweinidogol a nodir yn yr adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022.

Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol y dylai Pwyllgor Diogelu lechyd y DU gyhoeddi ei raglen waith a rennir a rhoi diweddiadau rheolaidd arni. Dylai hyn gynnwys cyhoeddi adroddiadau ar ei gyfarfodydd.

Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru ac lechyd Cyhoeddus Cymru sicrhau bod y rhaglenni gwaith a gyhoeddir gan Bwyllgor Diogelu lechyd y DU a'r Grŵp Goruchwylio Diogelu lechyd yn cynnwys manylion pa gyrff a fydd yn gyfrifol am gyflawni pa weithgareddau, ac o ble y daw'r adnoddau ar gyfer gweithgareddau o'r fath.

Argymhelliad 18: Pan fydd unrhyw gynnig i ddiwygio neu ddiddymu cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n rhan o gwmpas y fframweithiau cyffredin ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed neu Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y caiff ei gyflawni drwy'r fframweithiau cyffredin, nid drwy broses ar wahân.

Argymhelliad 21: Yn unol â'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddarau'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) i gyfeirio at y rhyngberthynas â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, a chydnabod y broses ar gyfer cytuno ar eithriadau i'r Ddeddf honno.

Argymhelliad 22: Yn unol â'r argymhelliad a wnaed gan Bwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddarau'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) i gynnwys manylion ychwanegol ynghylch pryd y bydd newidiadau a gyflwynir yng Ngogledd Iwerddon drwy'r Protocol ar Iwerddon a Gogledd Iwerddon yn cael eu hystyried yn y fframweithiau hyn.

Argymhelliad 24: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddarau'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) i gynnwys manylion am sut y bydd llywodraethau yn y DU yn gweithio gyda'i gilydd ar rwymedigaethau rhyngwladol a rhwymedigaethau'r DU a'r UE sy'n ymwneud â gwaed, organau, meinweoedd a chelloedd. Dylai hyn gynnwys sut y caiff Cymru ei chynrychioli mewn trafodaethau perthnasol yn Sefydliad lechyd y Byd ac yn fforymau'r DU a'r UE.





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

11 Gorffennaf 2022

Annwyl Russell,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 14 Mehefin ynglŷn â'r fframweithiau cyffredin dros dro ar gyfer Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd; Diogelwch ac Ansawdd Gwaed; ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau).

Nodaf gais y Pwyllgor bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i ddarparu ymateb o sylwedd mewn perthynas â nifer o argymhellion sy'n ymwneud â Chymru, ac nad ydynt yn argymhellion sy'n destun trafodaethau rhynglywodraethol parhaus na phrosesau craffu gan ddeddfwrfeydd eraill. Rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am y gwaith amlwg sydd wedi'i gwblhau o ran gwahanu'r materion hyn.

Serch hynny, er fy mod yn gwerthfawrogi rhesymeg y Pwyllgor dros ofyn am ymatebion i rai argymhellion ar hyn o bryd, oherwydd bod y materion hyn wedi codi yn rhan o'r broses graffu ar y fframweithiau cyffredin, mae'n ddrwg gen i na allaf ymateb yn ffurfiol i unrhyw argymhellion a wneir **yn rhan o'r broses hon** nes bod pob deddfwrfa yn y DU wedi cael cyfle i gwblhau proses graffu.

Fel y gwyddoch, mae Senedd y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon hefyd yn craffu ar y fframweithiau. Bydd angen inni aros i'w pwyllgorau gwblhau prosesau craffu cyn y gallwn ymateb i'ch argymhellion. Cytunwyd ar y dull hwn o ran ymateb i argymhellion pwyllgorau ar sail pedair gwlad ac mae hyn yn cyd-fynd ag ysbryd gweithio a chonsensws pedair gwlad sy'n ymgorffori'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin. Yr unig eithriad i hyn yw pan fo argymhelliad yn ymwneud â chamgymeriad ffeithiol sy'n peri risg i enw da un neu fwy o'r Llywodraethau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf felly yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd holl ddeddfwrfeydd y DU wedi rhannu eu hargymhellion ac unwaith y bydd y pedair llywodraeth wedi dod i gytundeb ar y newidiadau sydd angen eu gwneud i'r fframweithiau mewn ymateb i'r argymhellion hynny.

Rwy'n ymrwymo i roi ymateb llawn cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ond gofynnaf ichi dderbyn y llythyr hwn dros dro.

Yn y cyfamser, os oes materion brys sy'n ymwneud â pholisi yr hoffech chi wybodaeth neu eglurhad yn eu cylch, ysgrifennwch ataf a byddaf yn hapus i ymateb i'r rhain y tu allan i'r broses graffu ar y fframweithiau.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Llywodraeth Cymru

14 Mehefin 2022

Annwyl Lynne

Fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Ebrill 2022 ynghylch y fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu.

Nodir ein barn ar y fframwaith cyffredin dros dro yn yr atodiad.

Nodaf fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi rhoi ymateb dros dro yn ddiweddar mewn perthynas ag argymhellion y Pwyllgor ynglŷn â'r fframweithiau cyffredin dros dro ar gyfer Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd; Diogelwch ac Ansawdd Gwaed; ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), gan ddweud "hyd nes bod pob deddfwrfa yn y DU wedi cael cyfle i gwblhau proses graffu, ni fydd modd inni [Llywodraeth Cymru] fynd i'r afael â'r argymhellion hyn yn ffurfiol".

Yn fy ymateb i'r Gweinidog ar 14 Mehefin 2022, nodaf mai barn y Pwyllgor yw, er ei bod yn rhesymol i Lywodraeth Cymru anfon ymateb dros dro mewn perthynas ag argymhellion sy'n ymwneud â materion sy'n destun trafodaethau rhynglywodraethol parhaus a chraffu gan ddeddfwrfeydd eraill y DU, lle mae materion yn ymwneud yn benodol â Chymru a Llywodraeth Cymru, rydym yn disgwyl cael ymatebion sylweddol heb oedi diangen.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb erbyn 29 Gorffennaf 2022

Yn gywir,



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Anfonwyd copi at: Emily Miles, Prif Weithredwr, yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Senedd Cymru

Y Farwnes Andrews, Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi

Geraint Davies AS, Cadeirydd Dros Dro, Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin

Lesley Hogg, Prif Weithredwr a Chlerc, Cynulliad Gogledd Iwerddon

Gillian Martin ASA, Cynullydd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Senedd yr Alban,

William Wragg AS, Cadeirydd, Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English



Atodiad: Fframwaith cyffredin ar gyfer safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu

Risgiau a manteision y dull fframwaith cyffredin

- 1.** Diben fframweithiau cyffredin yw sefydlu dulliau gweithredu cyffredin mewn rhai meysydd a oedd yn arfer bod yn destun cyfraith yr UE, ond sydd o fewn meysydd cymhwysedd y llywodraethau neu'r deddfwrfeydd datganoledig.¹ Maent yn arf allweddol ar gyfer gwaith rhynglywodraethol a thrafod dulliau o ymdrin â'r gyfraith a pholisi ers i'r DU ymadael â'r UE.
- 2.** Mae'r fframwaith cyffredin ar gyfer safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu (FCSL) yn nodi sut y bydd y llywodraethau'n cydweithio ac yn gwneud penderfyniadau o ran cysoni trefniadau rheoleiddiol a dilyn trefniadau gwahanol yn y cyd-destun ar ôl Brexit.
- 3.** Gallai'r strwythurau a ddarperir gan y fframweithiau cyffredin wella cydweithio a hybu dull cyffredin o fynd i'r afael â heriau cyffredin. Gallent gynnig cyfleoedd i Lywodraeth Cymru lywio'r penderfyniadau a wneir gan lywodraethau eraill a dylanwadu arnynt, yn ogystal â chynnig llwybrau diffiniedig ar gyfer ymgysylltu ar lefel ryngwladol.
- 4.** Fodd bynnag, mae risgiau posibl ynghlwm wrth fframweithiau cyffredin hefyd. Er enghraifft, drwy arfer dull cyffredin, rhaid ildio rhyddid rheoleiddiol, ac mae hynny'n ei gwneud yn anos i randdeiliaid o Gymru ddylanwadu ar benderfyniadau ac mae risg iddo beri dryswch o ran atebolrwydd i Seneddau unigol.
- 5.** Nid yw'r fath fanteision a risgiau yn unigryw i'r fframweithiau cyffredin yr ydym wedi'u hystyried; maent yn berthnasol i'r rhaglen fframweithiau cyffredin yn ei chyfanrwydd. Ym mis Chwefror 2022, daeth Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban i'r casgliad a ganlyn:

"260. [...] Common Frameworks [...] have the potential to resolve the tensions within the devolved settlement through managing regulatory divergence on a consensual basis while facilitating open trade within the UK internal market.

261. But the Committee believes there is a risk that the emphasis on managing regulatory divergence at an inter-governmental level may lead to less transparency

¹Hysbysiad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE), 16 Hydref 2017

and Ministerial accountability and tension in the balance of regulations between the Executive and the Legislature".²

6. Nid yw'r ohebiaeth a gawsom gan Lywodraeth Cymru ynghylch fframweithiau cyffredin bob amser wedi nodi'n glir y risgiau a'r manteision o ddefnyddio'r fframweithiau dan sylw, na sut y gellid eu rheoli.

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn nodi ac yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r fframwaith cyffredin FCSL ar gyfer safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu yn barhaus, gan gynnwys sut y caiff gwybodaeth am risgiau o'r fath ei rhannu â phwyllgorau'r Senedd.

Goblygiadau ar gyfer llunio deddfau a pholisïau i Gymru

7. Mae'r fframwaith cyffredin ar gyfer safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu (FCSL) yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau drafod a chytuno ar ddulliau o ran llunio deddfau a pholisïau, a nodi prosesau ar gyfer datrys unrhyw anghydfodau neu anghytundebau sy'n codi. O'r herwydd, gallai'r fframwaith, yn ymarferol, gyfyngu ar arfer cymhwysedd datganoledig.

8. Bydd hyn nid yn unig yn effeithio ar Lywodraeth Cymru wrth iddi lunio polisïau neu ddeddfwriaeth, ond bydd hefyd yn effeithio ar ddatblygiad Biliau'r Senedd. Er enghraifft, efallai y bydd angen i Aelod sydd am gyflwyno gwelliannau i Filiau sy'n mynd drwy'r Senedd, neu bwyllgor sy'n bwriadu cyflwyno Bil Pwyllgor, ystyried goblygiadau fframweithiau cyffredin perthnasol, ac o bosibl sut i fodloni'r trefniadau rhynglywodraethol hyn.

9. Gallai hefyd ei gwneud yn anos i randdeiliaid yng Nghymru ddylanwadu ar ddatblygiad cyfraith a pholisïau Cymru.

10. Pan gytunodd y llywodraethau ar egwyddorion ar gyfer fframweithiau cyffredin, roeddent yn cytuno y dylent gynnal, ar y lleiaf, yr hyblygrwydd cyfatebol ar gyfer teilwra polisïau i anghenion penodol pob tiriogaeth fel ag a roddwyd gan reolau presennol yr UE.³ Rydym yn credu bod hyn yn egwyddor bwysig.

11. Yn ei adroddiad ym mis Chwefror, argymhellodd Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban y canlynol:

² Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban, *Ymchwiliad i farchnad fewnol y DU*, 22 Chwefror 2022, tudalen 42

³Hysbysiad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE), 16 Hydref 2017

*"...there should be a similar agreement between the Scottish Government and Scottish Parliament that, as a minimum, there should be no dilution of public consultation or of parliamentary scrutiny."*⁴

12. Dylid ystyried a fyddai cytundeb o'r fath rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau na fydd y fframwaith FCSL yn arwain at wanhau'r trefniadau o ran ymgynghori â'r cyhoedd a chraffu seneddol wrth lunio polisiau neu'r broses deddfwriaethol.

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn sicrhau na fydd y fframwaith FCSL yn cyfyngu ar rôl Llywodraeth Cymru, y Senedd, na rhanddeiliaid yng Nghymru wrth lunio deddfau a pholisiau i Gymru. Dylai hyn gynnwys sut y bydd Llywodraeth Cymru yn hwyluso gwaith pwyllgorau neu Aelodau o'r Senedd wrth iddynt ymgysylltu â'r fframwaith cyffredin os bydd angen, er mwyn sicrhau nad yw'r fframwaith yn rhwystr i weithredu gweithdrefnau deddfwriaethol y Senedd.

Tryloywder

13. Rydym yn cydnabod bod y broses o sicrhau cytundeb pedair Llywodraeth ar fframweithiau cyffredin o reidrwydd yn ailadroddus ac yn gymhleth o bosibl. Roedd yn ddefnyddiol bod fersiwn ddrafft gychwynol o'r fframwaith cyffredin FCSL dros dro wedi'i chyhoeddi ym mis Mawrth 2021. Fodd bynnag, mae ymhell o fod yn ddelfrydol na chyhoeddwyd y fframwaith dros dro terfynol i gyflawni'r gwaith craffu arno tan fis Chwefror 2022, yn enwedig gan ei fod eisoes wedi bod ar waith ers diwedd y cyfnod pontio ar 31 Rhagfyr 2020.

14. Fel sy'n briodol, bydd y fframwaith yn parhau i gael ei adolygu. Fodd bynnag, mae'n cynnwys gwybodaeth gyfyngedig am gyflwyno adroddiadau parhaus i Seneddau a rhanddeiliaid, ymgysylltu â rhanddeiliaid, neu graffu ar newidiadau a gynigiwyd yn ystod y broses adolygu a'r broses diwygio. Rydym yn ystyried pob un o'r materion hyn isod.

Adrodd ar sut y mae fframweithiau'n gweithio

15. Fel y nodwyd gennym yn ein llythyr dyddiedig 21 Mawrth 2022 at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y Gweinidog HSS) mewn perthynas â'r fframweithiau cyffredin dros dro ar gyfer Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd; Diogelwch ac Ansawdd Gwaed; ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau),⁵ ar ddiwedd 2021, nododd Pwyllgor

⁴ Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban, *Ymchwiliad i farchnad fewnol y DU*, 22 Chwefror 2022, tudalen 36

⁵ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022

Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi ei siom nad oedd y fframweithiau hynny'n cynnwys ymrwymadau i ymgysylltu'n barhaus â'r Senedd.⁶

16. Mewn llythyr at Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Bumed Senedd ym mis Ionawr 2020, ymrwymodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit ar y pryd i "osod adroddiad gerbron y Senedd o leiaf unwaith y flwyddyn, yn asesu'r ffordd y mae pob Fframwaith Cyffredin yn gweithio."⁷ Rydym yn croesawu'r ymrwymiad hwn gan Lywodraeth Cymru.

17. Ym mis Tachwedd 2021, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrth Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd fod y pedair llywodraeth wedi ymrwymo "i adrodd ar y fframweithiau yn y dyfodol fel rhan o'r broses o oruchwylio'r fframweithiau o fewn yr Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol", ac y byddai hyn yn cynorthwyo pwyllgorau'r Senedd i fonitro fframweithiau yn y tymor hwy.⁸

18. Ym mis Ionawr 2022, wrth ymateb i gwestiynau am sut y byddai'r Senedd a rhanddeiliaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am sut roedd y fframweithiau'n parhau i weithio, gan gynnwys unrhyw newidiadau, dywedodd y Gweinidog HSS wrthym:

"Y disgwyl yw y bydd adroddiadau ar fframweithiau yn ddogfennau cyhoeddus unwaith y byddant wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion portffolio a byddant ar gael i'r pwyllgorau perthnasol yn y pedair gwlad yn ogystal â rhanddeiliaid perthnasol."⁹ [Ychwanegwyd y pwyslais]

19. Cyfeiriodd y Cwnsler Cyffredinol at y 'disgwyliad' hwn eto mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 31 Ionawr 2022.¹⁰ Mewn llythyr at y Pwyllgor hwnnw ym mis Mawrth 2022, dywedodd fod swyddogion wrthi'n gweithio ar union fformat y mecanwaith adrodd blynyddol.¹¹

20. Rydym yn sylweddoli mai trefniadau rhynglywodraethol yw'r fframweithiau cyffredin a'r adroddiadau cysylltiedig, ac efallai na fydd Llywodraeth Cymru yn gallu gwarantu y bydd y cyd-

⁶ Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi at y Gweinidog Gwladol dros Iechyd, 23 Tachwedd 2021; Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi at y Gweinidog Gwladol dros Iechyd, 14 Rhagfyr 2021

⁷ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 23 Ionawr 2020

⁸ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 19 Tachwedd 2021

⁹ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (fframweithiau cyffredin ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), 17 Ionawr 2022

¹⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [paragraff 54], 31 Ionawr 2022

¹¹ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 2 Mawrth 2022



adroddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi. Serch hynny, rydym yn pryderu na chafwyd cytundeb llawn eto ar y pwynt pwysig hwn o ran tryloywder, ac nad yw'r fframwaith FCSL yn cynnwys ymrwymiad i gyhoeddi adroddiadau.

Argymhelliad 4: Yn unol â'r argymhelliad a wnaethom mewn perthynas â'r fframweithiau ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddarau'r fframwaith FCSL i gynnwys ymrwymiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddeddfwrfeydd am weithrediad parhaus y fframwaith ar ôl i bob adolygiad ddod i ben.

Os na chaiff yr ymrwymiad hwn ei gynnwys yn y fframwaith, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd adroddiadau ar y cyd ar y fframwaith yn cael eu cyhoeddi serch hynny yn unol â'r disgwyliadau a nodwyd.

Os na ellir sicrhau cytundeb rhynglywodraethol ar y pwynt hwn, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r rhesymau pam na fydd adroddiadau rhynglywodraethol yn cael eu cyhoeddi, a chadarnhau y bydd, serch hynny, yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol unochrog yn unol â'i hymrwymiad blaenorol.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

21. modd â'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), mae'r fframwaith FCSL yn cynnig ymrwymadau cyfyngedig mewn perthynas ag ymgysylltu ystyrlon parhaus â rhanddeiliaid. Yn ein llythyr at y Gweinidog HSS ar 21 Mawrth 2022 ynghylch y fframweithiau cyffredin dros dro ar gyfer Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd; Diogelwch ac Ansawdd Gwaed; ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau)¹² gwnaethom nodi fod gan Bwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi bryderon tebyg am y mater hwn.¹³

22. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru "os cynigir newidiadau i gwmpas neu weithrediad y Fframwaith FCSL, ymgynghorir â rhanddeiliaid cyn ceisio cytundeb gan y Gweinidog."¹⁴

¹² Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022

¹³ Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi at y Gweinidog Gwladol dros Iechyd, 23 Tachwedd 2021; Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi at y Gweinidog Gwladol dros Iechyd, 14 Rhagfyr 2021

¹⁴ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (fframweithiau cyffredin ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), 17 Ionawr 2022; Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd), 17 Ionawr 2022

23. Fodd bynnag, rydym yn parhau i gytuno â'n cydweithwyr yn Nhŷ'r Arglwyddi fod yn rhaid ymgysylltu mewn modd parhaus, agored ac ystyrlon â rhanddeiliaid ar weithrediad fframweithiau cyffredin. Credwn y dylid darparu ar gyfer hynny yn y fframweithiau eu hunain.

Argymhelliad 5: Yn unol â'r argymhelliad a wnaethom mewn perthynas â'r fframweithiau ar Ddiogelu lechyd y Cyhoedd a Diogelwch lechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddarau'r fframwaith cyffredin FCSL i gynnwys:

- Darpariaeth y dylai'r adolygiad cyntaf o bob fframwaith gynnwys proses ymgynghori agored â rhanddeiliaid.
- Ymrwymiad i ymgysylltu seneddol parhaus ac â rhanddeiliaid.

Os na sicheir y naill ganlyniad neu'r llall, dylai Llywodraeth Cymru esbonio'r rhesymau pam, ac amlinellu'r hyn a wneir yn lle hynny i sicrhau yr eir ati i ymgysylltu mewn modd parhaus, agored ac ystyrlon â rhanddeiliaid ledled y DU.

Craffu ar newidiadau yn ystod y broses adolygu a'r broses ddiwygio

24. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad yn llythyr y Dirprwy Weinidog lechyd Meddwl a Llesiant atom ar 21 Ebrill 2022 y bydd "y Senedd yn cael gwybod am gyfnodau adolygu sydd ar y gweill er mwyn cyfrannu at y broses".¹⁵

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru egluro pryd y rhagwelir y bydd yr adolygiad cyntaf o'r fframwaith FCSL yn cael ei gynnal, a pha mor bell ymlaen llaw y bydd y Senedd yn cael gwybod am gyfnodau adolygu sydd ar y gweill.

25. Rydym hefyd yn ailadrodd yr argymhelliad a wnaethom mewn perthynas â'r fframweithiau ar Ddiogelu lechyd y Cyhoedd a Diogelwch lechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), sef er mwyn osgoi dyblygu gwaith, byddai yn ddefnyddiol pe bai hysbysiad o'r fath yn cynnwys gwybodaeth am sut a phryd y bydd rhanddeiliaid yn cymryd rhan mewn unrhyw adolygiadau penodol, a sut a phryd y bydd unrhyw ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi.

Argymhelliad 7. Wrth hysbysu'r Senedd am adolygiadau o fframweithiau cyffredin sydd ar y gweill, dylai Llywodraeth Cymru hefyd ddarparu gwybodaeth am sut y mae'n bwriadu ymgynghori â

¹⁵ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog lechyd Meddwl a Llesiant, 21 Ebrill 2022

rhanddeiliaid, gan gynnwys sut a phryd y bydd unrhyw ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi.

Datrys anghydfodau

26. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hysbysu pwyllgor(au) perthnasol y Senedd am unrhyw anghydfodau sy'n codi o dan fframweithiau cyffredin. Fel y nodwyd gennym yn ein llythyr at y Gweinidog HSS mewn perthynas â'r fframweithiau ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), ein barn ni yw, er mwyn sicrhau cymesuredd, dim ond anghydfodau sy'n cael eu trosglwyddo i lefel Weinidogol y mae angen i Lywodraeth Cymru hysbysu pwyllgorau'r Senedd amdanynt.¹⁶

27. Cyhoeddwyd y fframwaith cyffredin FCSL cyn cwblhau'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, ond nodwyd y byddai'n cael ei ddiweddarau i adlewyrchu canlyniadau'r Adolygiad. Cwblhawyd yr Adolygiad ym mis Ionawr 2022, gan gynnwys proses ddiwygiedig ar gyfer datrys anghydfodau rhwng Gweinidogion lle gellir trosglwyddo anghydfodau ynghylch fframweithiau cyffredin i lefel uwch.¹⁷ Fodd bynnag, nid yw'r fframwaith cyffredin FCSL dros dro terfynol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2022 yn adlewyrchu'r broses ddiwygiedig ar gyfer datrys anghydfodau rhwng Gweinidogion.

Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau, cyn iddo gael ei gwblhau, y bydd y fframwaith FCSL yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r broses newydd ar gyfer datrys anghydfodau rhwng Gweinidogion a nodir yn yr adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022.

28. Nodwn nad yw'r fframwaith yn pennu unrhyw amserlenni na therfynau amser ar gyfer datrys anghydfodau. Gwnaethom holi'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant am hyn ym mis Mawrth 2022. Wrth ymateb ym mis Ebrill 2022, dywedodd:

"Cydnabyddir y gall anghydfodau amrywio o ran natur, cymhlethdod a chyd-destun gweithredol, felly ni fyddai terfyn amser penodol yn ffafriol i sicrhau'r canlyniadau gorau i bob llywodraeth".¹⁸

29. Er ein bod yn cydnabod y bydd anghydfodau'n amrywio fel y mae'r Dirprwy Weinidog yn ei awgrymu, gallai diffyg terfynau amser arwain at oedi i ddeddfwriaeth neu benderfyniadau polisi

¹⁶ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022

¹⁷ Llywodraeth y DU, *Adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol*, 13 Ionawr 2022

¹⁸ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 21 Ebrill 2022

Llywodraeth Cymru nes y bydd yr anghydfod wedi'i ddatrys, gan arwain at oblygiadau o ran yr amser sydd ar gael ar gyfer craffu, gweithredu neu wario.

30. Yn ogystal, mewn ymateb i'n cwestiynau am y broses datrys anghydfodau, dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant:

"Fodd bynnag, bydd yn hanfodol ymgynghori â defnyddwyr, cyrff diwydiant a busnesau mewn modd amserol i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau ar unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisi labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â bwyd, oherwydd yr effaith sylweddol y gallai newidiadau ei chael ar fusnes".¹⁹

31. Rydym yn cytuno. Fodd bynnag, nid oes darpariaeth ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatrys anghydfodau yn y fframwaith cyffredin FCSL.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddarau'r broses datrys anghydfodau yn y fframwaith FCSL er mwyn darparu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a chael mewnbwn ganddynt, gan gynnwys defnyddwyr, cyrff diwydiant a busnesau.

Cwmpas y fframwaith cyffredin FCSL

32. Mae'r fframwaith FCSL yn nodi y bydd newidiadau o fewn cwmpas os bydd Llywodraeth yn cynnig newid i gyfraith neu bolisi:

- Mewn maes â phwerau sy'n dychwelyd;
- Mewn maes lle mae cyfraith yr UE yn caniatáu i ddeddfwriaeth ddomestig wahanol gyflawni canlyniadau cyffredin (fel rheolau cenedlaethol ar gyfer ceuled a briwffrwyth yn y Rheoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg); neu
- Ar gyfer gofynion ar gyfer sefydliadau sydd wedi'u lleoli, neu gynhyrchion a ddosberthir, mewn un rhan o'r DU yn unig.

33. Mae hyn yn golygu bod y fframwaith FCSL yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniadau gael eu gwneud ar y cyd mewn rhai meysydd lle'r oedd gan y pedair llywodraeth ymreolaeth o'r blaen i reoleiddio'n wahanol pan oedd y DU yn yr UE.

34. Mae'r fframwaith FCSL yn ehangach o ran cwmpas na fframweithiau cysylltiedig eraill. Er enghraifft, mae'r fframwaith Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (FFSH) yn darparu y bydd newidiadau o fewn cwmpas mewn meysydd â phwerau sy'n dychwelyd, ond dim ond mewn rhai

¹⁹ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 21 Ebrill 2022

amgylchiadau. Nid yw'n glir i ni pam y defnyddiwyd gwahanol ddulliau ar gyfer y gwahanol fframweithiau.

35. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wrthym ym mis Ebrill 2022 y bydd newidiadau i'r gyfraith mewn meysydd lle'r oedd yr UE yn caniatáu mesurau cenedlaethol i gyflawni canlyniadau cyffredin (er enghraifft y rheolau ar gyfer ceuled a briwffrwyth yn y Rheoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg) o fewn cwmpas y fframwaith mewn perthynas â chydweithio, ond ni fyddant yn rhwym i'r broses datrys anghydfodau.²⁰ Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y sefyllfa hon yn cael ei hadlewyrchu yn y fframwaith FCSL ei hun. Mae newidiadau o'r fath y tu allan i gwmpas y fframwaith FFSH.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau y bydd y fframwaith FCSL yn cynnal, o leiaf, hyblygrwydd cyfatebol ar gyfer teilwra polisïau i anghenion penodol pob tiriogaeth ag a gynigiwyd gan reolau presennol sy'n deillio o'r UE.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio'r fframwaith FCSL i ddarparu nad yw newidiadau i'r gyfraith mewn meysydd lle'r oedd yr UE yn caniatáu mesurau cenedlaethol i gyflawni canlyniadau cyffredin yn ddarostyngedig i ofynion ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd nac yn rhwym i'r broses datrys anghydfodau.

36. Mewn ymateb i'n cwestiwn ynghylch pam mai newidiadau i'r gyfraith sydd ond yn gymwys i fusnesau a sefydlir neu gynhyrchion a ddosberthir yng Nghymru fyddai o fewn cwmpas y fframwaith, ymatebodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant gan ddweud y byddai cynnwys newidiadau o'r fath o fewn cwmpas y fframwaith yn sicrhau bod Gweinidogion "yn cael gwybod am y dulliau a argymhellir mewn gwledydd eraill, ac y dylid ceisio consensws ar y dulliau i'w cymryd, boed yn gyson ar draws gwledydd neu'n wahanol".²¹ Rydym yn nodi, fodd bynnag, o dan y fframwaith cyffredin ar ddiogelwch bwyd, fod newidiadau o'r fath yn ddarostyngedig i hysbysiad yn unig, ac nad ydynt o fewn cwmpas y trefniadau cydweithio neu wneud penderfyniadau.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio'r fframwaith FCSL i ddarparu nad yw newidiadau i'r gyfraith sydd ond yn gymwys i fusnesau a sefydlir neu gynhyrchion a ddosberthir yng Nghymru yn ddarostyngedig i ofynion ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd nac yn rhwym i'r broses datrys anghydfodau.

37. Mae'r fframwaith FCSL yn darparu y bydd newidiadau i gyfraith nad yw'n deillio o'r UE ar gyfansoddiad bwyd (fel rheolau ar gynhyrchion sy'n cynnwys cig) yn cael eu trafod drwy'r fframwaith, ond ni fyddant yn rhwym i'r broses datrys anghydfodau. Mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor

²⁰ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 21 Ebrill 2022

²¹ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 21 Ebrill 2022

lechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Senedd yr Alban, galwodd Quality Meat Scotland am fwy o eglurder ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd os bydd anghytundeb.²² Rydym yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol i randdeiliaid gael eglurder ynghylch sut y byddai materion o'r fath, sydd y tu allan i'r prosesau datrys anghydfodau, yn cael eu datrys.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio'r broses a fyddai'n cael ei dilyn pe bai anghytundeb ynghylch newid i'r gyfraith sy'n destun cydweithio drwy'r fframwaith FCSL ond nad yw'n rhwym i'r mecanwaith datrys anghydfodau.

Rôl yr Asiantaeth Safonau Bwyd

38. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wrthym fod capasiti staffio ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru wedi cynyddu, sy'n "caniatáu i'r ASB yng Nghymru gyfrannu at ddatblygu polisi mewn perthynas â labelu a chyfansoddiad sy'n gysylltiedig â bwyd ar gyfer Cymru". Mae'n ychwanegu y bydd y capasiti staffio yn cael ei adolygu'n barhaus, ond mae'n nodi nad yw'r adolygiad o'r ASB yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021 wedi symud ymlaen oherwydd na fu'n bosibl caffael contractwr addas i wneud y gwaith. Bydd ymarfer caffael pellach yn cael ei gynnal ddiweddarach yn 2022.²³

39. Rydym yn croesawu'r sicrwydd bod capasiti ac arbenigedd priodol yn yr ASB yng Nghymru i gyflawni polisi sy'n gweithio'n effeithiol i Gymru, ond rydym yn siomedig i nodi nad yw'r adolygiad arfaethedig o'r ASB yng Nghymru wedi digwydd eto.

Argymhelliad 14. Dylai'r ASB yng Nghymru barhau, drwy ei hadroddiad blynyddol ac unrhyw ddulliau eraill a allai fod yn briodol, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am ei gapasiti o ran staffio a datblygu polisi, gan gynnwys ei hasesiad o ba un a oes ganddi ddigon o gapasiti i gyflawni polisi sy'n gweithio i Gymru drwy'r fframwaith FCSL.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf cyn diwedd 2022 am y cynnydd a wnaed ar yr adolygiad arfaethedig o'r ASB yng Nghymru, gan gynnwys y camau a gymerwyd i gaffael contractwr addas i wneud y gwaith.

Adolygiad o gyfraith yr UE a ddargedwir

40. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei bwriad i ddeddfu er mwyn ei gwneud yn haws diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir.²⁴

²² Quality Meats Scotland, *Cyflwyniad ysgrifenedig i Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Senedd yr Alban*, Ebrill 2022

²³ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 21 Ebrill 2022

²⁴ Llywodraeth y DU, *The benefits of Brexit: how the UK is taking advantage of leaving the EU*, Ionawr 2022



41. Yn ei llythyr dyddiedig 17 Ionawr 2022, dywedodd y Gweinidog HSS y byddai unrhyw gynnis i ddiwygio neu ddi-ddymu cyfraith yr UE a ddargedwir yn cael ei wneud drwy "broses ar wahân" i'r fframweithiau.²⁵

42. Fodd bynnag, ers hynny mae Llywodraeth y DU wedi dweud:

*"The Government is committed to the proper use of Common Frameworks and will not seek to make changes to retained EU law within Common Frameworks without following the ministerially-agreed processes in each framework."*²⁶

43. Rheoli achosion o ymwahanu mewn gwahanol rannau o'r DU mewn meysydd a gwmpesir gan gyfraith yr UE a ddargedwir yw un o ddibenion craidd y rhaglen fframweithiau cyffredin. Pan fydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn cael ei diwygio neu ei ddi-ddymu mewn meysydd fframwaith cyffredin, mae'n bwysig felly dilyn prosesau'r fframweithiau cyffredin perthnasol, nid "proses ar wahân".

Argymhelliad 16: Pan fydd unrhyw gynnis i ddiwygio neu ddi-ddymu cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n rhan o gwmpas y fframwaith FCSL, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y caiff ei gyflawni drwy'r fframwaith cyffredin ac nid drwy broses ar wahân.

Argymhelliad 17: Dylai Llywodraeth Cymru ymrwmo i hysbysu'r Senedd, gan gynnwys y pwyllgor(au) perthnasol, am unrhyw gynigion i ddiwygio neu ddi-ddymu cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n rhan o gwmpas y fframwaith FCSL sy'n gymwys i Gymru neu'n effeithio ar Gymru. Dylai hysbysiadau o'r fath gynnwys esboniad o safbwynt Llywodraeth Cymru ar y cynnis.

Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

44. Rhan o ddiben y fframwaith FCSL yw sicrhau bod marchnad fewnol y DU yn gweithredu'n ddidrafferth.

45. Mae Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 (Deddf 2020) yn cyflwyno egwyddorion newydd o ran mynediad i'r farchnad, sydd bellach yn gyfraith. I bob pwrpas, nod yr egwyddorion yw caniatáu i nwyddau a fewnforir i un rhan o'r DU, neu nwyddau a ganiateir yno, gael eu gwerthu neu eu cyflenwi mewn unrhyw ran arall o'r DU, gyda rhai eithriadau. Mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig wedi cytuno ar broses ar gyfer ystyried eithriadau i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU mewn meysydd fframwaith cyffredin.²⁷

²⁵ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (fframweithiau cyffredin ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), 17 Ionawr 2022

²⁶ Llywodraeth y DU, *The benefits of Brexit: how the UK is taking advantage of leaving the EU*, Ionawr 2022

²⁷ Llywodraeth y DU, *Guidance: process for considering UK Internal Market Act exclusions in common framework areas*, 10 Rhagfyr 2021

- 46.** Barn Llywodraeth Cymru yw bod Deddf 2020 yn lleihau pwerau'r Senedd a Llywodraeth Cymru yn anuniongyrchol.²⁸
- 47.** Yn ei llythyr dyddiedig 21 Ebrill 2022, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant y bydd fframwaith cyffredin FCSL yn "gweithredu yng nghyd-destun Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 (UKIMA), lle bydd yr effaith yn cael ei phennu fesul achos". Ychwanegodd nad oedd "unrhyw fwriad i ofyn am eithriad".²⁹
- 48.** Fodd bynnag, nid yw'r fframwaith yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at Ddeddf 2020 na'r broses ar gyfer eithriadau.
- 49.** Fel y nodwyd gennym yn ein llythyr at y Gweinidog HSS ar 21 Mawrth 2022 ynghylch y fframweithiau cyffredin dros dro ar gyfer Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd; Diogelwch ac Ansawdd Gwaed; ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau)³⁰ rydym yn cytuno â'n cydweithwyr ym Mhwylgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi y dylid diweddarau fframweithiau i adlewyrchu eu rhyngweithio â Deddf 2020 ac i gydnabod y broses ar gyfer cytuno ar waharddiadau o'r Ddeddf honno.³¹

Argymhelliad 18: Yn unol â'r argymhelliad a wnaethom mewn perthynas â'r fframweithiau ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddarau'r fframwaith FCSL i gyfeirio at eu rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, a chydabod y broses ar gyfer cytuno ar eithriadau a geir yn y Ddeddf honno.

Rhwymedigaethau rhyngwladol

- 50.** Rhan o ddiben fframweithiau cyffredin yw sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol.
- 51.** Fodd bynnag, mae dull anghyson o ymdrin â rhwymedigaethau rhyngwladol ar draws y fframwaith FCSL a'r fframweithiau sy'n berthnasol i ddiogelwch bwyd a maeth. Er enghraifft, nid yw fframwaith FCSL yn cyfeirio at:

²⁸ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Her gyfreithiol i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020, 18 Ionawr 2021

²⁹ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 21 Ebrill 2022

³⁰ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022

³¹ Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi at y Gweinidog Gwladol dros Iechyd, 14 Rhagfyr 2021



- Sut y bydd y llywodraethau'n gweithio gyda'i gilydd i roi'r cyfreithiau neu'r safonau rhyngwladol perthnasol ar waith, fel y nodir yn y fframwaith maeth.
- A fydd y llywodraethau'n ceisio cytuno ar safbwyntiau cyn cynadleddau rhyngwladol arwyddocaol ar safonau (fel y mae Aelod-wladwriaethau'r UE yn ei wneud), fel y nodir yn y fframwaith maeth.

52. Mae anghysondebau hefyd o ran cynrychiolaeth y DU ar gyrff rhyngwladol. Er enghraifft, mae'r fframwaith maeth yn darparu ar gyfer cynrychiolaeth ddatganoledig yng nghyfarfodydd Comisiwn Codex Alimentarius, tra bod y fframwaith FFSH yn darparu ar gyfer presenoldeb Defra/ASB yn unig yn y cyfarfodydd hyn.

Argymhelliad 19: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddarau'r fframwaith FCSL i gysoni'r anghysondebau yn y dull o ymdrin â rhwymedigaethau rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â chynrychiolaeth a chyfranogiad y DU mewn gyrff rhyngwladol, a chynnwys llai o gyfeiriadau yn y fframwaith FCSL at rwymedigaethau rhyngwladol o'u cymharu â fframweithiau sy'n ymwneud â diogelwch bwyd a maeth (sy'n berthnasol i'r un rhwymedigaethau rhyngwladol trawsbynciol).

53. Wrth ymateb i'n cwestiwn ynghylch sut y byddai llywodraethau'n cydweithio i gytuno ar safbwyntiau mewn perthynas â safonau bwyd rhyngwladol, dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wrthym y bydd "y partion yn mynd ati yn awtomatig i ddefnyddio unrhyw Goncordat Cysylltiadau Rhyngwladol wedi'i ddiweddarau a chanlyniadau ehangach yr Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol ar y Cyd, fel sail ar gyfer ystyriaethau rhyngwladol o'r fath".³² Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y fframwaith. Fodd bynnag, er bod yr Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol ar y Cyd wedi'i gwblhau ym mis Ionawr 2022, nid yw'r Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol wedi'i ddiweddarau eto.

Argymhelliad 20: Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau, yn absenoldeb Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol wedi'i ddiweddarau, a yw'n fodlon â'i rôl yn y gwaith o ddatblygu polisi rhyngwladol o fewn cwrdd y fframwaith FCSL.

³² Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 21 Ebrill 2022

Rhwymedigaethau'r DU a'r UE

54. Mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod bod y fframwaith FCSL yn croestorri â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.³³ Dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wrthym ym mis Ebrill 2022:

"Ni fwriadwyd i'r Fframwaith FCSL ddarparu mwy o ymgysylltiad ar faterion yn ymwneud â Chytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE. Mae'r Fframwaith FCSL yn fecanwaith ar gyfer cydweithredu ledled y DU mewn perthynas â materion datganoledig polisi labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â bwyd".³⁴

55. Fodd bynnag, mae fframweithiau cyffredin eraill yn darparu ar gyfer ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â phwyllgorau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu — mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ei groesawu, gan ei fod yn cefnogi nod y rhaglen fframweithiau cyffredin i sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol. Nid yw'r fframwaith FCSL, i'r gwrthwyneb, yn cyfeirio o gwbl at y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ar y telerau y mae'r DU a'r UE yn masnachu ar hyn o bryd, gan gynnwys mewn cynhyrchion bwyd. O ganlyniad, nid yw fframwaith FCSL yn darparu ar gyfer y posibilrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â phwyllgorau perthnasol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Argymhelliad 21: Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol i sicrhau bod y fframwaith FCSL yn cynnwys gwybodaeth i esbonio ei ryngweithio â'r Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, hyd yn oed pan fo gwybodaeth o'r fath yn cadarnhau yn unig nad oes unrhyw effaith ddisgwyliedig. Byddai hyn yn hwyluso'r ddealltwriaeth o'r Senedd a rhanddeiliaid.

Argymhelliad 22: Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol i sicrhau bod y fframwaith FCSL yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymgysylltu datganoledig yn fforymau rhwng y DU a'r UE.

Protocol Gogledd Iwerddon

56. otocol Gogledd Iwerddon, rhaid i unrhyw newidiadau i gyfraith yr UE ar safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu gael eu cymhwyso yng Ngogledd Iwerddon.

³³ Llythyr gan Ysgrifennydd Seneddol Swyddfa'r Cabinet at Bwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Ty'r Arglwyddi, 24 Mai 2021

³⁴ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 21 Ebrill 2022

57. Mae'r fframweithiau'n rhoi gwybodaeth am sut y bydd y llywodraethau'n ystyried goblygiadau i ymwahanu os bydd newidiadau i gyfraith a pholisi yng Ngogledd Iwerddon a Phrydain Fawr, ond prin yw'r manylion am sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol.

58. Fel y nodwyd gennym yn ein llythyr at y Gweinidog HSS ar 21 Mawrth 2022 ynghylch y fframweithiau cyffredin dros dro ar gyfer Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd; Diogelwch ac Ansawdd Gwaed; ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau)³⁵, rydym yn cytuno â'n cydweithwyr ym Mhwylgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi y dylid diweddarau fframweithiau cyffredin i gynnwys manylion ychwanegol ynghylch pryd y bydd newidiadau a gyflwynir yng Ngogledd Iwerddon drwy'r Protocol yn cael eu hystyried yn y fframweithiau perthnasol.³⁶

Argymhelliad 23: Yn unol â'r argymhelliad a wnaethom mewn perthynas â'r fframweithiau ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddarau'r fframwaith FCSL i gynnwys manylion ychwanegol ynghylch pryd y bydd newidiadau a gyflwynir yng Ngogledd Iwerddon drwy Brotocol Gogledd Iwerddon yn cael eu hystyried yn y fframwaith hwn.

59. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wrthym ym mis Ebrill 2022:

"Mae prosesau sganio'r gorwel ar waith i fonitro newidiadau arfaethedig yr UE y bydd angen eu gweithredu yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Fframwaith FCSL yn sicrhau bod unrhyw gynigion ar gyfer ymwahanu ymhlith gwledydd Prydain yn cael eu hystyried gan y pedair gwlad a bod Gweinidogion ym mhob un o'r pedair gwlad yn cael cyfle i godi anghydfod gyda'u cymheiriaid".³⁷

60. Aeth ymlaen i ddweud y byddai newidiadau deddfwriaethol posibl a sbardunir gan yr UE yn cael eu hystyried gan grŵp Swyddogion FCSL y pedair gwlad, a nododd y "bydd ymwahanu'n dod i'r amlwg dros amser".³⁸ Mae hyn er gwaethaf datganiadau blaenorol gan Lywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu cynnal a gwella ar safonau'r UE. Er enghraifft, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ym mis Ionawr 2022:

³⁵ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 21 Mawrth 2022

³⁶ Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi at y Gweinidog Gwladol dros Iechyd, 14 Rhagfyr 2021

³⁷ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 21 Ebrill 2022

³⁸ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 21 Ebrill 2022

"One of the principles and positions the Welsh Government has taken throughout this process is that there should be no derogation from the standards that we actually hold to at the moment, and that the EU standards should be the very minimum that we should have. Of course, it has always been the case with EU law that they've always been minimum standards; they've never been something that have prevented any member of the European Union from wanting to go beyond. So, as far as, I think, Welsh Government is concerned, we want to maintain those standards. Where we can improve upon those standards, we want to improve upon those standards".³⁹

Argymhelliad 24: Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa rôl y bydd gan yr ASB yng Nghymru o ran sganio'r gorwel, a sut y bydd y risgiau a'r manteision i Gymru o gyd-fynd â newidiadau yng Ngogledd Iwerddon a'r UE mewn perthynas â safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu yn cael eu hasesu.

Argymhelliad 25: Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei safbwynt ynghylch a yw'n bwriadu cyd-fynd â newidiadau safonau'r UE mewn meysydd sydd o fewn cwmpas y fframwaith FCSL.

Argymhelliad 26: Lle mae newidiadau'n cael eu gwneud i safonau'r UE ar faterion sy'n dod o fewn cwmpas y fframwaith FCSL, dylai Llywodraeth Cymru asesu'r effaith ar fasnach yng Nghymru. Dylid rhannu asesiadau effaith o'r fath â'r Senedd.

Masnach ryngwladol

61. Nod fframweithiau cyffredin yw hwyluso'r broses o negodi a gweithredu cytundebau masnach rhyngwladol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wrthym y byddai'r fframwaith FCSL yn darparu cyfleoedd ar gyfer trafodaethau ar safbwyntiau'r DU ar faterion polisi FCSL, gan gynnwys lle y gallai materion o'r fath fod yn berthnasol i drafod neu weithredu cytundeb masnach.⁴⁰

Argymhelliad 27: Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd strwythurau llywodraethu'r fframwaith FCSL yn rhyngweithio â'r grŵp rhyng-weinidogol ar fasnach, a sut y bydd y grwpiau hyn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol.

Argymhelliad 28: Dylai Llywodraeth Cymru egluro a ellid mynd i'r afael ag anghytundebau ynghylch trafodaethau cytundebau masnach mewn perthynas â safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu drwy'r fframwaith FCSL.



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Seneddlechyd@senedd.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

28 Gorffennaf 2022

Annwyl Russell,

Ymateb: Argymhellion ar gyfer y fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer Safonau Cyfansoddiadol Bwyd a Labelu

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 14 Mehefin yn manylu ar farn ac argymhellion y Pwyllgor ar y fframwaith cyffredin dros dro.

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae Senedd y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon hefyd yn craffu ar y fframwaith a bydd angen inni aros i'w Pwyllgorau gwblhau'r gwaith craffu cyn y gallwn ddarparu ymateb i'ch argymhellion.

Mae'r dull hwn o ymateb i argymhellion Pwyllgor wedi'i gytuno ar sail y pedair gwlad ac mae'n cyd-fynd ag ysbryd gweithio pedair gwlad a chonsensws sy'n ymgorffori rhaglen y Fframwaith Cyffredin. Yr unig eithriad i hyn yw pan fo argymhelliad yn ymwneud â gwall ffeithiol sy'n peri risg i enw da un neu fwy o'r Llywodraethau.

Felly, byddaf yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd yr argymhellion wedi dod i law oddi wrth holl ddeddfwrfeydd y DU a phan fydd y pedair llywodraeth wedi dod i gytundeb ar y newidiadau sydd i'w gwneud i'r fframweithiau mewn ymateb i'r rhain.

Rwy'n ymrwmo i ddarparu ymateb llawn cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ond a fydddech cystal â derbyn y llythyr hwn dros dro. Yn y cyfamser, os oes materion brys yn ymwneud â pholisi yr hoffech gael gwybodaeth neu eglurhad yn eu cylch, ysgrifennwch ataf a byddaf yn hapus i fynd i'r afael â'r rhain y tu allan i'r broses graffu.

Yn gywir

Lynne Neagle AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 97

—
**Health and Social Care
Committee**

Eluned Morgan
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru


11 Gorffennaf 2022

Annwyl Eluned

Bil Optometreg

Ymhellach i'r dystiolaeth a roesoch i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 10 Chwefror 2022, eich llythyr dilynol ar 28 Chwefror 2022, a datganiad deddfwriaethol y Prif Weinidog i'r Cyfarfod Llawn ar 5 Gorffennaf 2022, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi diweddariad i ni am yr amserlen ar gyfer eich Bil Optometreg arfaethedig.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Seneddlechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

—
Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Seneddlechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Welsh Government

24 Awst 2022

Annwyl Russell,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Gorffennaf ar ran y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch cynnydd yn erbyn argymhellion y Pwyllgor yn 2019 ar gyfer gwasanaethau endosgopi yng Nghymru.

Rydych wedi gofyn am ddiweddariadau ar sawl pwynt penodol. Rwyf wedi nodi fy ymateb yn ôl rhifau eich cwestiynau chi ond rwyf wedi newid trefn yr is-bwyntiau er mwyn hwyluso'r esboniad.

1. A allwch chi roi diweddariad ar gynnydd o ran rhoi'r cynllun gweithredu endosgopi cenedlaethol ar waith, gan gynnwys:

- a. **Y sefyllfa bresennol ar gyfer optimeiddio'r rhaglen sgrinio canser y coluddyn (h.y. ar gyfer cynyddu sensitifrwydd FIT a phroffion oedran) a sut mae hyn yn cymharu â rhannau eraill o'r DU.**
- b. **A yw newidiadau yn y rhaglen hyd yma wedi cynyddu atgyfeiriadau ar gyfer triniaethau endosgopig.**
- d. **Ymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, yn enwedig cynyddu nifer y dynion mewn ardaloedd difreintiedig sy'n manteisio ar wasanaethau.**

Rwy'n gobeithio nad oes gwahaniaeth gan y Pwyllgor fy mod yn cyfeirio at ein hymatebion blaenorol a'r Cynllun Gweithredu Endosgopi Cenedlaethol, sy'n esbonio nad yw optimeiddio'r Rhaglen Sgrinio Coluddion yn rhan o'r Cynllun Gweithredu na gwaith Bwrdd y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O dan y Rhaglen Sgrinio Coluddion, anfonir pecyn Prawf Imiwnocemegol ar Ysgarthion ("FIT") i gyfeiriad cartref person heb unrhyw symptomau hysbys o ganser y coluddyn. Mae'r person yn cymryd sampl ei hun ac yn ei ddychwelyd.

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn anfon y pecynnau profi hyn i'r boblogaeth gymwys ac yna'n mesur faint o waed sydd i'w ganfod yn y sampl a ddychwelir. Dyma'r prawf sgrinio cyntaf. Mae'r bobl hynny sy'n cael canlyniad positif yn cael eu hatgyfeirio wedyn at fyrddau iechyd i gael colonosgopi. Y cyfan y mae optimeiddio'r rhaglen sgrinio coluddion yn cyfeirio ato yw cyflwyno FIT fel y prawf sgrinio cychwynnol i ddisodli'r prawf Gwaed Cudd yn yr Ysgarthion ("FOB"); newidiadau i ystod oedran y rhai a wahoddir i gymryd rhan yn y rhaglen; a newidiadau i sensitifrwydd y prawf FIT sy'n cael ei anfon at bobl yn yr ystodau oedran hynny.

Goruchwylir optimeiddio'r rhaglen sgrinio coluddion gan Fwrdd Cyngori Optimeiddio Sgrinio Coluddion. Fe gyflwynodd lechyd Cyhoeddus Cymru y prawf FIT mwy cywir a haws ei ddefnyddio ym mis Medi 2019. Yna bu'n rhaid diwygio'r amserlenni ar gyfer y cynllun optimeiddio wrth i'r pandemig arwain atatal sgrinio dros dro ac ôl-groniad o weithgarwch sgrinio i'w gyflawni. O ganlyniad, ni ddechreuodd cam optimeiddio yn ôl oedran y rhaglen tan Hydref 2021, pan ostyngwyd yr oedran cychwyn o 60 i 58. Mae disgwyl i'r optimeiddio yn ôl oedran barhau'n raddol: gostwng i 55 oed o Hydref 2022; 52 oed o Hydref 2023; ac yna 50 oed o Hydref 2024. Ochr yn ochr â hyn, bydd sensitifrwydd y prawf yn cael ei gynyddu'n raddol: o 150µg/g i 120µg/g ym mis Hydref 2023 ac yna i 80µg/g ym mis Hydref 2024. Bydd hyn yn cwblhau'r optimeiddio ac yn sicrhau bod y rhaglen sgrinio yn cyd-fynd ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU. Nid fy lle i yw sôn am sefyllfa a chynnydd gwledydd eraill ledled y DU o ran cydymffurfio ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU. Ni allaf ond amlinellu'r hyn y mae'r GIG yng Nghymru wedi bwriadu ei gyflawni, gan ystyried ein hamgylchiadau ein hunain.

Mae'r cynnydd presennol gydag optimeiddio wedi cyfrannu at gynnydd mewn cyfranogiad yn y rhaglen. Mae'r gyfradd cyfranogiad wedi cynyddu o tua 56% cyn dechrau optimeiddio, i tua 66% dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhaglen felly bellach yn cwrdd â'r safon cyfranogiad o 60%. Yn ogystal â mwy o bobl yn cymryd rhan, mae'r prawf newydd yn canfod rhagor o achosion positif ar gyfer colonosgopi. Ar y cyd, mae hyn wedi cynyddu nifer y colonosgopïau mynegai, ailadrodd a gwyliadwriaeth sydd eu hangen. Disgwylir i'r nifer gynyddu o gyfanswm o 3,462 o golonosgopïau rhwng Hydref 2020 a Medi 2021 (y flwyddyn gyfan ddiwethaf cyn dechrau'r broses optimeiddio yn ôl oedran), i tua 4,600 rhwng Hydref 2021 a Medi 2022 (cam cyntaf yr optimeiddio yn ôl oedran) ac yna hyd at tua 6,900 rhwng Hydref 2022 a Medi 2023 (ail gam yr optimeiddio yn ôl oedran).

O ran cynyddu'r gyfradd sy'n manteisio ar y prawf sgrinio ymysg dynion mewn ardaloedd difreintiedig, ar draws y rhaglenni sgrinio cenedlaethol yng Nghymru, y nod yw bod gan bawb sy'n gymwys i gael eu sgrinio fynediad a chyfle teg i fanteisio ar eu cynnig sgrinio, gan ddefnyddio gwybodaeth ddibynadwy i wneud dewis gwybodus personol. Er bod y nifer sy'n cymryd rhan mewn sgrinio'r coluddyn yn fwy nag y bu erioed, dangoswyd bod graddiant cymdeithasol yn y nifer sy'n manteisio ar sgrinio ac mae pobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn llai tebygol o fanteisio ar eu cynnig sgrinio. Hefyd, er bod y bwch yn fach, mae dynion yn llai tebygol o gymryd rhan na menywod. Mae pwysigrwydd sicrhau bod pobl yn manteisio ar eu cynnig cyntaf o sgrinio wedi cael ei ddangos, gan fod y nifer sy'n cymryd rhan ymysg pobl sydd heb ymateb o'r blaen yn isel iawn. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu Strategaeth Tegwch, gyda chymru ar draws 5 maes allweddol: Cyfathrebu, Cymuned ac Ymgysylltu, Cydweithredu, Darparu Gwasanaethau a Data a Monitro. Mae camau gweithredu penodol yn cynnwys adolygu eu gwybodaeth gyhoeddus er mwyn sicrhau ei bod yn hygyrch i bobl sydd ag anghenion cyfathrebu gwahanol a lefelau llythrennedd iechyd gwahanol, adeiladu rhwydweithiau a phartneriaethau cymunedol cynaliadwy, ac archwilio sut y gallant ddefnyddio eu data yn well i gefnogi camau gweithredu a mesur effaith.

Yn ddiweddar, mae'r rhaglen sgrinio coluddion wedi gwneud gwaith gydag Anabledd Dysgu Cymru, ac mae ar fin cychwyn ar waith gyda chlystyrau meddyg teulu penodol yn edrych ar ffyrdd arloesol o gysylltu â'r rhai sy'n cael gwahoddiad sgrinio am y tro cyntaf a phobl nad ydynt wedi ymateb i'r gwahoddiad mewn cymunedau penodol.

1. A allwch chi roi diweddariad ar gynnydd o ran rhoi'r cynllun gweithredu endosgopi cenedlaethol ar waith, gan gynnwys:

c. Diweddariad ar y cynlluniau ar gyfer cyflwyno FIT mewn gofal sylfaenol.

Nid yw cyflwyno FIT mewn gofal sylfaenol yn ymwneud â'r rhaglen sgrinio coluddion. Mater i'r Cynllun Gweithredu Endosgopi Cenedlaethol a'i Fwrdd Rhaglen yw hyn. Mae'n ymwneud â phrofi pobl sy'n mynd at eu meddyg teulu gyda symptomau sy'n awgrymu clefyd y colon a'r rhefr. O fewn y defnydd hwn, mae dwy ffordd wahanol o ddefnyddio FIT. Y cyntaf yw gweithredu canllaw DG30 gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Mae DG30 yn ymwneud ag atgyfeirio achosion lle'r amheuir cancer y colon a'r rhefr mewn pobl heb waedu rhesymol, sydd â symptomau anesboniadwy, ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer atgyfeiriad fel rhan o'r llwybr lle'r amheuir cancer. Mae'n offeryn ychwanegol i helpu meddygon teulu i ddelio â chleifion nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio lle'r amheuir cancer. Bellach, mae mynediad gofal sylfaenol i FIT er mwyn gweithredu DG30 wedi ei gyflawni mewn chwech o'r saith bwrdd iechyd. Mae disgwyl i'r seithfed bwrdd iechyd roi hyn ar waith erbyn Ebrill 2023.

Yr ail ddefnydd o FIT mewn gofal symptomatig yw ei botensial i frysbennu atgyfeiriadau ar gyfer achosion lle'r amheuir cancer y colon a'r rhefr. Mae canllaw NG12 NICE yn disgrifio'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio gyfer cleifion lle'r amheuir cancer y colon a'r rhefr. Bydd yr atgyfeiriad yn cael ei frysbennu gan wasanaethau gastroberfeddol ac yn y rhan fwyaf o achosion bydd y claf yn cael colonosgopi. Mae tua 2,600 o bobl y mis yn cael eu hatgyfeirio ar y llwybr hwn o ofal sylfaenol ond dim ond tua 5% fydd yn cael eu trin am ganser y colon a'r rhefr. Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu y gall cynnal prawf FIT helpu i haenu'r atgyfeiriadau hyn yn ôl risg; gan helpu gwasanaethau i flaenoriaethu'r rhai sy'n cael prawf FIT positif ac o bosibl osgoi colonosgopi ymhlith y rhai sydd â risg isel. Bellach, gall pob bwrdd iechyd yng Nghymru ddarparu FIT fel dull brysbennu yn y llwybr cancer ar gyfer cancer y colon a'r rhefr.

1. A allwch chi roi diweddariad ar gynnydd o ran rhoi'r cynllun gweithredu endosgopi cenedlaethol ar waith, gan gynnwys:

e. I ba raddau y mae gwaith yn digwydd i fynd i'r afael â materion gweithlu:

- i. gan gynnwys manylion y byrddau iechyd sydd ag achrediad JAG, a**
- ii. y rhesymau pam nad yw rhai unedau endosgopi yng Nghymru wedi cael yr achrediad o hyd.**

O ran y gweithlu sy'n gallu cynnal gastrosgopi, colonosgopi, a cholonosgopi sgrinio, mae hyn yn parhau i fod yn her sylweddol ac mae'r pandemig wedi amharu ar gynlluniau. Lluniwyd cynllun ar gyfer datblygu rhaglen hyfforddi endosgopi genedlaethol, sy'n cynnwys cydnabyddiaeth o ddeg maes hyfforddi (i bob grŵp staffio) o fewn endosgopi ac mae gwaith ar y gweill i ddechrau datblygu'r rhaglen ym 2024. Mae Grŵp Rheoli Addysg a Hyfforddiant (ETMG) bellach wedi'i sefydlu i gefnogi'r datblygiadau hyn. Bydd yr

ETMG yn canolbwyntio ar hyfforddi a datblygu'r gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol. Mae Tîm Gweithlu yr NEP yn gweithio gyda byrddau iechyd i gwblhau eu cynlluniau gweithlu lleol ar gyfer endosgopi er mwyn llywio cynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae ymgyrch farchnata yn cael ei datblygu gyda byrddau iechyd i godi proffil endosgopi a chynorthwyo gyda recriwtio. Mae proffiliau rôl cenedlaethol ar gyfer endosgopyddion clinigol wedi'u paratoi er mwyn safoni telerau, amodau a thâl. Mae dadansoddiad o gyfraddau cadw yn y gweithlu endosgopi ar y gweill, mae saith endosgopydd clinigol wedi cwblhau hyfforddiant, ac mae tair swydd hyfforddi arall wedi'u llenwi i ddechrau ym mis Medi eleni.

Mae achredu unedau endosgopi gan y Grŵp Cyngori ar y Cyd ar Endosgopi gastroberfeddol yn cynnwys asesiad cyfannol o ansawdd, perfformiad, ac amgylchedd uned. Nid yw'n ymwneud yn benodol â gweithlu uned, er bod ganddo gydrannau'n ymwneud â'r gweithlu. Mae'n berthnasol i unedau endosgopi unigol o fewn ysbytai yn hytrach na'r bwrdd iechyd. Ar hyn o bryd, mae pum uned wedi'u hachredu ac mae 16 uned (dwy ohonynt yn unedau pediatrig ar wahân yn yr un ysbytai â gwasanaethau oedolion) sydd ddim wedi'u hachredu. Cyhoeddir y wybodaeth hon yn: [JAG \(thejag.org.uk\)](http://thejag.org.uk)

Mae achrediad JAG yn hynod heriol i'w gyflawni a'i gynnal. Mae gan fyrddau iechyd heriau sylweddol i'w goresgyn, gan gynnwys adfer perfformiad o ran amseroedd aros, cyfyngiadau ystadau a safonau diheintio. Agwedd hanfodol ar achrediad yw casglu'r dystiolaeth berthnasol, sy'n sylweddol ac yn gofyn am gryn dipyn o amser prin staff i'w choladu. Mae'r Cynllun Gweithredu Endosgopi Cenedlaethol wedi gwneud hyn yn ganolbwynt allweddol i'w waith, gan gynnwys ffrwd waith ac is-grŵp penodol. Bwriad y Cynllun oedd sicrhau achrediad ar gyfer hanner yr holl unedau erbyn hanner ffordd drwy'r cynllun (31 Mawrth 2021). Mae'r rhaglen genedlaethol wedi darparu cefnogaeth sylweddol i fyrddau iechyd, gan gynnwys comisiynu ymweliadau cyn achredu gan JAG; darparu gweithdai achredu, cyngor arbenigol a thempledi tystiolaeth; cymorth wedi'i dargedu i'r rhai sydd agosaf at gyflawni achrediad.

Mae wyth uned ychwanegol wedi cael eu hasesu fel rhai sy'n ddigon agos i wneud cais i gael eu hachredu. Mae pedair o'r rhain yn gofyn am ymdrech ddygn gan dimau lleol i ymgymryd â'r broses achredu. Mae'r pedair arall hefyd angen buddsoddiad cyfalaf i newid isadeiledd. Yn anffodus, mae'r pandemig wedi gwaethygu'n sylweddol yr her o ran y galw sy'n wynebu unedau endosgopi. Bu cynnydd sylweddol iawn yn nifer y cleifion sy'n aros am driniaethau ac y mae perygl y bydd eu clefyd yn gwaethygu. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio trwy gydol y pandemig gyda byrddau iechyd i ganolbwyntio ar leihau'r risg i gleifion drwy leihau'r rhestrau aros hyn a gwella prydlondeb triniaethau. O ganlyniad, mae'r gwelliannau mewn seilwaith a darparu tystiolaeth sy'n ofynnol i sicrhau achrediad ymhlith yr wyth uned hyn wedi bod yn llai o flaenoriaeth. Bydd hyn yn arwain at oedi a'r posibilrwydd y bydd llai na'r disgwyl o unedau yn cyflawni achrediad yn ystod cyfnod sefydlogi'r cynllun gweithredu. Bydd gennym well darlun o gynnydd o ran achredu erbyn dechrau 2023, yn dilyn y rownd gyntaf o ymweliadau achredu sydd wedi'u trefnu.

1. A allwch chi roi diweddariad ar gynnydd o ran rhoi'r cynllun gweithredu endosgopi cenedlaethol ar waith, gan gynnwys:

f. Diweddariad ar seilwaith a chyfleusterau gwasanaethau endosgopi.

Mae angen buddsoddiad sylweddol o ran seilwaith ar unedau endosgopi ledled Cymru er mwyn bodloni'r galw a chydymffurfio â safonau achredu; maes sydd angen ffocws arbennig yw dihalogi. Mae'r Rhaglen Genedlaethol yn gweithio'n agos gyda chydwasanaethau i sicrhau bod archwiliadau blynyddol o wasanaethau dihalogi yn digwydd a bod unrhyw bryderon yn cael eu huwchgyfeirio ar fyrder. Fodd bynnag, mae'r gwaith o wneud gwelliannau i gyfleusterau yn cael eu targedu'n ddiwydier argaeledd cyllid cyfalaf, cynllun yr ysbytai presennol a'r trefniadau cytundebol sydd ar waith ar gyfer ysbytai penodol fel y

Tywysog Philip a Nevill Hall. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo dau achos busnes y GIG am fuddsoddiad cyfalaf sydd wedi eu cyflwyno yn ystod oes y cynllun gweithredu. Bydd yr achosion busnes cyfalaf hyn yn adnewyddu a chynyddu capasiti theatr o bedair i chwech yn Ysbyty Athrofaol Llandochau yng Nghaerdydd; yn ogystal ag o ddwy theatr i bedair yn Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd. Mae disgwyl rhagor o achosion busnes cyfalaf yn y blynyddoedd nesaf i adnewyddu unedau yn unol â safonau ac i ehangu capasiti theatrau mewn ysbytai. Mae ystyriaeth bellach yn cael ei roi i ddichonoldeb unedau ychwanegol fel rhan o gynlluniau adfer ehangach a'r potensial ar gyfer canolfannau diagnostig newydd.

Un datblygiad nodedig fu integreiddio adroddiadau endosgopi o fwrdd iechyd cyntaf i Borth Clinigol Cymru gyfan. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno ar draws Cymru, gan olygu y bydd unrhyw glinigwr, unrhyw le yng Nghymru, yn gallu cael gafael ar adroddiadau endosgopi er mwyn cefnogi rheoli claf, waeth ble mae'n cael ei drin yng Nghymru. Yn ogystal, mae chwech o'r saith bwrdd iechyd bellach yn llwytho data i'r Gronfa Ddata Endosgopi Genedlaethol, a fydd yn caniatáu meincnodi gwell o ran ansawdd gofal ar draws Cymru. Mae'r bwrdd iechyd terfynol yn y broses o gaffael system adrodd endosgopi sy'n cydymffurfio â'r gronfa ddata.

2. Amlinellwch yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar gyflawni'r cynllun gweithredu endosgopi cenedlaethol ac unrhyw oblygiadau y mae hyn wedi'u cael ar ganlyniadau i gleifion.

Byrddau iechyd fydd yn dal yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau endosgopi. Mae'r cynllun gweithredu cenedlaethol a bwrdd y rhaglen wedi eu rhoi ar waith i gefnogi byrddau iechyd i wella capasiti, safonau a pherfformiad. Effaith fwyaf arwyddocaol y pandemig ar y rhaglen fu lleihau capasiti'r byrddau iechyd i ymateb i'r gefnogaeth sydd ar gael gan y rhaglen genedlaethol. Er enghraifft, mae'r rhaglen genedlaethol wedi cyflwyno cefnogaeth i ymgymryd â'r broses achredu, ond mae byrddau iechyd, yn briodol ddigon, wedi canolbwyntio eu capasiti ar ddelio â'r ôl-groniad o driniaethau a achoswyd gan y pandemig. Mae'r GIG wedi canolbwyntio ar hyn oherwydd dyma'r ffordd bwysicaf o leihau risg ymhlith y rhai sy'n aros am driniaeth, a dyma'r drefn rwyf wedi gofyn iddynt ei dilyn fel rhan o'r cynllun adfer. Rwy'n dal wedi ymrwmo i sicrhau achrediad unedau, ond mae'n rhaid i mi gydnabod y newid mewn amgylchiadau. Arweiniodd y pandemig at saib byr mewn gweithgaredd endosgopi nad yw'n weithgarwch brys, a hynny'n ymateb i gyfarwyddyd gan gyrrff proffesiynol. Mae endosgopi gastroberfeddol uwch yn weithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol ac mae'n hollol deg bod rhagofalon ychwanegol wedi'u rhoi ar waith.

Gwelwyd twf sylweddol yn y rhestr aros, hyd yn oed wedi i wasanaethau ailddechrau, oherwydd absenoldeb staff a llai o gynhyrchiant yn sgil gwell rheolaethau atal heintiau. Yr effaith gyffredinol yw bod rhestrau aros wedi cynyddu'n sylweddol, ac mae ymdrechion taer ar waith i'w gostwng unwaith eto.

Y brif effaith ar gleifion yw eu bod yn gorfod aros yn hirach nag o'r blaen. Mae rhai yn aros yn hirach nag sy'n ofynnol o ran y targedau oherwydd bod cymaint mwy o gleifion yn cael eu hatgyfeirio a bod capasiti wedi'i gyfyngu. Mae hyn yn debygol o arwain at raddau uwch o ofid a phryder ymhlith y rhai sy'n aros. Fodd bynnag, er ei bod yn bosibl, neu hyd yn oed yn debygol, y bydd effaith ar ganlyniadau canser y colon a'r rhefr, mae'n rhy fuan i nodi union natur yr effaith honno. Mae'n cymryd sawl blwyddyn i fesur, cofnodi ac adrodd cyfraddau marwolaethau a goroesi wedi blwyddyn neu bum mlynedd. Mae effaith y pandemig ar y rhaglen gyffredinol yn debygol o arwain at oedi o tua dwy flynedd o ran cyflawni prif nodau'r rhaglen, er enghraifft, wrth greu digon o gapasiti craidd i ddiwallu'r angen ac o ran achredu unedau. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod rheidrydd erbyn hyn i reoli adferiad gwasanaethau endosgopi, a'r risg ynghlwm wrth y llwybrau cleifion hynny, ochr yn ochr â lefelau risg uwch na'r arfer ac oedi gyda bron pob gwasanaeth gofal wedi'i gynllunio arall. Mae hwn yn gyd-destun cwbl wahanol i'r cyd-destun pan gyflwynwyd y Cynllun Gweithredu Endosgopi Cenedlaethol gyntaf.

3. I ba raddau y mae gwasanaethau endosgopi yn cael eu blaenoriaethu yn y cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio? Beth yw'r amserlenni a'r targedau ar gyfer gwella (gan gynnwys cynlluniau i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran amseroedd aros ar gyfer diagnosteg, yn ogystal â chleifion risg uchel sydd angen triniaethau endosgopig gwyliadwriaeth barhaus (cynllunio galw a chapasiti).

Ar dudalen 40 o'r Rhaglen i Drawsnewid a Moderneiddio Gofal a Gynlluniwyd, mae'n disgrifio sut mae dyraniad rheolaidd o £170 miliwn ychwanegol i gefnogi adferiad gofal a gynlluniwyd yn cynnwys gweithredu argymhellion y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol. Cymeradwyais yr argymhellion hyn, a chadarnhawyd hyn yn ysgrifenedig gan fy swyddogion i'r byrddau iechyd ym mis Hydref 2021. Maent yn cynnwys:

- Mabwysiadu mesurau cynhyrchiant ac effeithlonrwydd yn unol ag argymhelliad y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol er mwyn galluogi'r allbwn gorau gyda'r capasiti presennol a gan reoli'r boblogaeth cleifion ar sail risg.
- Dechreuodd y bwrdd iechyd weithgaredd ychwanegol, a'i gyflwyno ar ffurf mentrau rhestr aros, darparu'n fewnol a darparu gan gyflenwyr allanol; gan gynnwys rhentu unedau symudol wedi'u staffio am dymor byr.
- Ystyried achosion busnes wedi'u sbarduno gan fyrddau iechyd ar gyfer theatrau endosgopi ychwanegol, parhaol ar ystâd bresennol y GIG.
- Caffael contractau gwasanaeth wedi'u rheoli er mwyn darparu unrhyw ddiffyg mewn capasiti theatrau endosgopi, a darparu hyn mewn unedau rhanbarthol.

Mae'r Rhaglen i Drawsnewid a Moderneiddio Gofal a Gynlluniwyd yn nodi ein huchelgeisiau ar gyfer adfer gofal wedi'i gynllunio, gan gynnwys diagnosteg, ac mae'n ymrwmo i'r canlynol:

- Cyflymu profi ac adrodd diagnostig i wyth wythnos ac i 14 wythnos ar gyfer ymyriadau therapi erbyn Gwanwyn 2024

Bydd yr effaith gyffredinol ar restrau aros yn cael ei fonitro drwy gyfarfodydd atebolrwydd rheolaidd gyda byrddau iechyd. Bydd adroddiad ar y mesur hwn yn: [StatsCymru](#)

Mae fy ymrwymiad yn parhau i gyflawni nodau gwreiddiol y Cynllun Gweithredu Endosgopi Cenedlaethol ac rwy'n hyderus mai'r rhain yw'r dyheadau cywir o hyd i sicrhau bod pobl yng Nghymru'n cael gafael ar weithdrefnau diagnostig endosgopig amserol ac o ansawdd uchel. Byddant yn bwysig hefyd o ran cadw a denu'r gweithlu clinigol. Mae heriau sylweddol o ran cynnydd yn sgil y pandemig, ac mae hyn yn amlwg wedi arwain at oedi.

Er hynny, wrth inni ddod allan o'r pandemig, bydd cynnydd yn y gwasanaeth clinigol hwn yn digwydd unwaith eto, a byddwn yn chwilio am gyfleoedd pwysig i gyflymu'r gwaith hwn ochr yn ochr â'n dull ehangach o ymdrin â gofal diagnostig.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Health and Social Care
Committee****Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc
ac Addysg****Children, Young People
and Education Committee**

Lynne Neagle AS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

Llywodraeth Cymru

11 Gorffennaf 2022

Annwyl Lynne

Iechyd meddwl a llesiant: Argymhellion y Pwyllgor

Yn ystod y Bumed Senedd, gwnaeth y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg waith eang a sylweddol ar iechyd meddwl a llesiant pobl Cymru. Rydym yn bwriadu, drwy waith ein pwyllgorau yn y Chweched Senedd, adeiladu ar waith ein rhagflaenwyr ar y materion pwysig hyn.

Gan fod cylchoedd gwaith ein Pwyllgorau yn gorgyffwrdd o ran iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc, rydym yn ysgrifennu ar y cyd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am argymhellion ein rhagflaenwyr.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r materion a godir yn yr atodiad erbyn **1 Medi 2022**.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal
Cymdeithasol


Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Atodiad: Cais am Wybodaeth

Er mwyn llywio gwaith ein Pwyllgorau ar iechyd meddwl a llesiant, ar gyfer pob un o'r adroddiadau a restrir isod, byddem yn croesawu:

1. Arwydd o ba argymhellion y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried sy'n dal heb eu gweithredu a ble y mae angen rhagor o weithredu, ac a oes unrhyw rwystrau i roi'r rhain ar waith, ac os felly, beth yw'r rhwystrau hynny.
2. Sut mae gwaith Llywodraeth Cymru i roi'r argymhellion ar waith yn cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl.

Byddem yn ddiolchgar pe gallem gael eich ymateb erbyn **1 Medi 2022**.

Adroddiadau'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Parhaodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd i ganolbwyntio'n benderfynol ar iechyd meddwl. Yn ogystal ag edrych ar faterion yn ymwneud ag iechyd meddwl drwy gydol ei waith craffu ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, ei waith craffu cyffredinol ar Weinidogion Iechyd a gofal cymdeithasol, a'i waith arall ar ymchwiliadau, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliadau ar y canlynol:

- Unigrwydd ac unigedd (Rhagfyr 2017)
Gwnaeth yr adroddiad chwech argymhelliad, gan gynnwys: yr amserlenni ar gyfer datblygu strategaeth unigrwydd ac unigedd; dull trawsadrannol (yn enwedig mewn perthynas â dementia a gofalwyr); asesu effaith unigrwydd ac unigedd ar iechyd meddwl a'r effaith ddilynol ar wasanaethau cyhoeddus; gweithio gyda'r sector gwirfoddol i sicrhau sefydlogrwydd cyllid; gwerthuso effaith cysylltiad rhwng cenedlaethau; ac ymgyrch codi ymwybyddiaeth i newid agweddau a mynd i'r afael â stigma. Yn ei hymateb ym mis Chwefror 2018, derbyniodd Llywodraeth Cymru bedwar o'r argymhellion, a derbyniodd ddau yn rhannol.
- Defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal (Mai 2018)
Gwnaeth yr adroddiad un ar ddeg o argymhellion, gan gynnwys: gwella dulliau casglu a chyhoeddi data; cydymffurfio â chanllawiau NICE; asesiadau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pobl â dementia; materion yn ymwneud ag adolygiadau meddyginiaeth; mynediad at weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd; hyfforddiant gofal dementia; ac adolygiad o lefelau a phriodoldeb y defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig ar gyfer pobl â dementia mewn gofal eilaidd. Yn ei hymateb ym mis Gorffennaf 2018, derbyniodd Llywodraeth Cymru, neu derbyniodd mewn egwyddor, ddeg o'r argymhellion, a gwrthododd un. Darparodd Ysgrifennydd y Cabinet ragor o wybodaeth yn ddiweddarach yr un mis.

- Atal hunanladdiad “Busnes Pawb”** (Rhagfyr 2018)

Gwnaed 31 o argymhellion yn yr adroddiad, gan gynnwys: hyfforddiant atal hunanladdiad a hyrwyddo adnoddau presennol; gwerthuso a chyflwyno mentrau atal hunanladdiad a llwybrau atgyfeirio; cydraddoldeb iechyd meddwl a chorfforol; model brysbennu Cymru gyfan yn lleoli nyrsys seiciatrig cymunedol yn ystafelloedd rheoli'r heddlu; gofal dilynol ar ôl rhyddhau; amseroedd aros ar gyfer therapiau seicolegol; strategaeth a llwybr hunanladdiad ôl-ymyrraeth; ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad personol o syniadau hunanladdiad, goroeswyr ymdrechion hunanladdiad a phobl sydd wedi cael profedigaeth oherwydd hunanladdiad; camau gweithredu wedi'u targedu ar gyfer grwpiau sy'n wynebu risg, gan gynnwys dynion, ffermwyr, myfyrwyr a charcharorion; ystyriaethau ar gyfer awdurdodau cynllunio; adrodd yn y cyfryngau; diogelwch ar-lein; llywodraethu; a chyllid. Roedd yr adroddiad hefyd yn cefnogi argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ei ymchwiliad Cadernid Meddwl. Yn ei **hymateb** ym mis Ionawr 2019 derbyniodd Llywodraeth Cymru 21 o'r argymhellion yn llawn, a derbyniodd wyth arall mewn egwyddor. O'r ddau argymhelliad arall, derbyniwyd rhai elfennau yn llawn, ac eraill mewn egwyddor.
- Iechyd meddwl yng nghyd-destun plismona a dalfa'r heddlu** (Hydref 2019)

Gwnaed un ar ddeg o argymhellion yn yr adroddiad, gan gynnwys: cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl; gweithio mewn partneriaeth rhwng yr heddlu a gwasanaethau iechyd; ymyrraeth gynnar, argyfwng iechyd meddwl a gofal y tu allan i oriau; casglu a chyhoeddi data; cynllunio gofal a thriniaeth; trawsgludiad; a Grŵp Sicrwydd Concordat Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl. Yn ei **hymateb** ym mis Rhagfyr 2019 derbyniodd Llywodraeth Cymru saith o'r argymhellion yn llawn, tri argymhelliad mewn egwyddor, a gwrthododd un argymhelliad.
- Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant** (Rhagfyr 2020)

Gwnaeth yr adroddiad 15 o argymhellion, gan gynnwys: cynllunio ar gyfer yr effaith iechyd meddwl tymor byr a hirdymor ar y boblogaeth a'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol; monitro'r effaith ar hunan-niweidio a hunanladdiad; y datgysylltiad rhwng sicrwydd byrddau iechyd a phrofiadau cleifion; y gyfres ddata graidd ar iechyd meddwl; fframwaith gofal profedigaeth; a gwerthuso ar frys y ddarpariaeth gwasanaeth iechyd meddwl digidol o bell. Roedd yr adroddiad hefyd yn ailadrodd argymhellion a wnaed yn yr adroddiad Busnes Pawb ac adroddiad Cadernid Meddwl y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc. Yn ei **hymateb** ym mis Chwefror 2021 derbyniodd Llywodraeth Cymru ddeuddeg o'r argymhellion yn llawn, a thri argymhelliad mewn egwyddor. Gwnaeth y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ar y pryd **ysgrifennu** at Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Bumed Senedd ym mis Mawrth 2021



i roi diweddariad manwl ar gynnydd yn dilyn yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad Busnes Pawb.

Adroddiadau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Mewn [Datganiad yn y Cyfarfod Llawn](#) ym mis Ionawr 2017, dywedodd Lynne Neagle AS, cadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bumed Senedd, fod aelodau'r Pwyllgor yn "hynod angerddol am ansawdd a darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc". Cyflawnodd y Pwyllgor waith yn ymwneud ag iechyd meddwl plant a phobl ifanc a'u teuluoedd drwy gydol y Bumed Senedd, gan gynnwys fel rhan o'r ymchwiliadau a ganlyn:

- [Iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru](#) (Hydref 2017) a [Iechyd meddwl amenedigol – gwaith dilynol](#)
Roedd yr [adroddiad](#) yn gwneud 27 o argymhellion, gan gynnwys bod Llywodraeth Cymru: yn sefydlu rhwydwaith clinigol a reolir dan arweiniad clinigwyr; yn sicrhau bod data cadarn yn cael ei gasglu a'i fonitro i ddeall lefel barhaus yr angen am gymorth iechyd meddwl amenedigol; yn creu Uned Mamau a Babanod yn ne Cymru; a'i bod yn edrych ar opsiynau gyda GIG Lloegr ar gyfer creu canolfan yng ngogledd ddwyrain Cymru. Yn ei [hymateb](#) gwrthododd Llywodraeth Cymru bedwar o'r argymhellion, derbyniodd bedwar mewn egwyddor, a derbyniodd 19 o'r argymhellion. Cynhaliodd y Pwyllgor waith dilynol i fonitro gweithrediad yr argymhellion hynny gan Lywodraeth Cymru rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Mawrth 2021.
- [Cadernid Meddwl](#) (Hydref 2018) a [Chadernid Meddwl: Ddwy flynedd yn ddiweddarach](#) (Hydref 2020)
Gwnaeth [Adroddiad dylanwadol y Pwyllgor sef, Cadernid Meddwl](#) 28 o argymhellion. Ei "argymhelliad allweddol" oedd bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod lles a gwydnwch emosiynol a lles a gwydnwch meddwl ein plant a'n pobl ifanc yn flaenoriaeth genedlaethol benodedig. Roedd yr argymhellion eraill yn ystyried materion fel cymorth ar gyfer iechyd meddwl mewn ysgolion, gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol, gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), atal hunanladdiad, gofal cleifion mewnol, gwasanaethau eiriolaeth a gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl ac iechyd emosiynol. Yn ei [hymateb](#), gwrthododd Llywodraeth Cymru bedwar argymhelliad, a derbyniodd y gweddill yn llawn neu'n rhannol. Rhoddir sylw i gynnydd Llywodraeth Cymru yn erbyn yr argymhellion hynny ddwy flynedd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad gwreiddiol yn adroddiad dilynol y Pwyllgor. [Cadernid Meddwl: Ddwy flynedd yn ddiweddarach](#).



Ein cyf/Our ref MA/LN/1901/22

Russell George AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 Awst 2022

Annwyl Russell

Rwy'n ysgrifennu i'ch diweddarau ar y cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad 'Busnes Pawb' sydd i'w weld yn Atodiad A.

Ers y diweddariad diwethaf, rydym wedi gwneud yr hyn rwy'n ei gredu sy'n newid sylweddol i'n dull o atal hunanladdiad yng Nghymru. Mae'r dull hwn yn cynnwys sefydlu Grŵp Atal Hunanladdiad Trawslywodraethol Strategol a gyfarfu am y tro cyntaf ar 17 Mawrth ac yn fwy diweddar ar 14 Gorffennaf. Mae'r Grŵp wedi'i sefydlu i gryfhau trefniadau rheoli'r rhaglen ac i yrru ymlaen y gwaith trawslywodraethol ac amlasiantaeth i atal hunanladdiad yng Nghymru. Caiff y grŵp ei gydgadeirio gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed a'r Athro Ann John, ac mae'n cynnwys uwch-swyddogion o adrannau ar draws y Llywodraeth gan gynnwys Iechyd, Trafnidiaeth, Cynllunio a Digidol. Bydd y Grŵp Trawslywodraethol newydd yn cwrdd yn chwarterol ac yn adrodd yn uniongyrchol i mi trwy'r Bwrdd Cyflawni a Goruchwylio Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol i adnewyddu'r cylch gorchwyl yng nghyd-destun y Grŵp Trawslywodraethol a bydd ffocws ar oruchwylio ymchwil, gwerthuso a dadansoddi data.

Ym mis Ebrill, fe wnaethom lansio'r System Gwyliadwriaeth Hunanladdiad Amser Real yng Nghymru a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, holl heddluoedd Cymru, a Chydweithrediad Iechyd GIG Cymru. Mae'r System hon bellach yn casglu data ynghylch marwolaethau sydyn neu ddiesboniad yr amheuir eu bod trwy hunanladdiad. Mae lansiad y system yn dangos blaenoriaeth ar y cyd i atal hunanladdiad, sy'n ein galluogi i ymateb yn llawer cyflymach i unrhyw newidiadau posibl mewn cyfraddau, i roi mesurau ataliol ar waith, ac i sicrhau bod cymorth ar unwaith ar gael i'r unigolion a'r cymunedau yr effeithir arnynt fwyaf.

Mae ein Cydgysylltydd Cenedlaethol ar gyfer Atal Hunan-Niwed a Hunanladdiad hefyd yn gweithio gyda grŵp amlasiantaeth i gwblhau'r canllawiau ar gyfer *Responding to people*


bereaved, exposed or affected by suicide. Mae'r canllawiau wedi'u llywio gan fewnwelediadau i anghenion a phrofiadau'r bobl sy'n byw gyda phrofedigaeth drwy hunanladdiad yng Nghymru, yn dilyn ymarfer gwrando a edrychodd ar y pwyntiau yn eu taith profedigaeth pan maent yn dod i gysylltiad â gwasanaethau statudol a gwirfoddol. Amcan y canllawiau yw sicrhau bod gwasanaethau yn darparu ymateb mwy tosturiol. Mae'r canllawiau yn cynnwys yr angen am wasanaeth cyswllt a chymorth profedigaeth hunanladdiad cenedlaethol. Rwy wedi gofyn i'r swyddogion edrych ar opsiynau i ddatblygu neu gomisiynu'r cymorth hwn i'r dyfodol.

Mae'r System Gwyliadwriaeth Hunanladdiad Amser Real a'r gwasanaeth cyswllt profedigaeth

hunanladdiad cenedlaethol cynlluniedig yn cael eu cefnogi gan gyllid ychwanegol rwy wedi'i ddyrannu i atal hunanladdiad o 2022/23. Bydd y buddsoddiad hwn yn adeiladau ar ein buddsoddiad blaenorol yn y maes hwn a rhaid iddo hefyd gael ei ystyried yng nghyd-destun ein buddsoddiad ehangach a pharhaol mewn gwasanaethau a chymorth iechyd meddwl. Yn benodol, mae ein gwaith o drawsnewid gwasanaethau argyfwng yn ffurfio rhan o'n dull atal hunanladdiad ac rydym ar y trywydd i roi mynediad 24/7 i gymorth iechyd meddwl brys drwy 111 yn ddiweddarach eleni.

Mae trawsnewid y dull rwy wedi amlinellu yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r agenda bwysig hon ac yn darparu'r sylfaen am ddull amlasiantaeth a systematig i atal hunanladdiad yng Nghymru. O ganlyniad, rydym wedi gallu cwblhau a chau nifer o argymhellion yn *Buses Pawb*. Barnwyd bod pedwar o'r argymhellion wedi'u cwblhau yn adolygiad mis Chwefror 2021 ac maent bellach yn ymddangos ar ddiwedd y tabl o dan yr adran 'camau a gwblhawyd'. O'r argymhellion sy'n weddill, rydym yn ystyried y gall un ar ddeg arall bellach gael eu cau ac mae'r rhain wedi'u nodi'n glir yn yr atodiad sydd i'w weld. Bydd gweddill y camau yn parhau i gael eu cyflawni o fewn cyd-destun y gwaith i werthuso a datblygu olynydd i'r strategaeth bresennol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a Siarad â Fi 2. Byddwn yn darparu diweddariad pellach ar y cynnydd tua diwedd y flwyddyn

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei ffocws parhaus ar atal hunanladdiad a hunan-niwed.



Lynne Neagle AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Busnes Pawb
Llywodraeth Cymru – Adroddiad statws ar argymhellion
[Busnes Pawb, adroddiad ar atal hunanladdiad yng Nghymru, Rhagfyr 2018](#)
Awst 2022

Tudalen y pae yn 134

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
1	<p>Rydym yn argymhell y dylid mabwysiadu fframwaith hyfforddiant ar atal hunanladdiad a'i weithredu ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus mewn ffordd debyg i'r fframwaith ar gyfer trais domestig, lle y manylir ar y gofynion o ran hyfforddiant yn dibynnu ar y rôl. Yn benodol, byddai meddygon teulu yn un o'r grwpiau o weithwyr proffesiynol fyddai â gofynion uwch o ran hyfforddiant / sgiliau, ac mae'n bwysig bod ganddynt hwy a staff y practis yr hyder i ofyn y cwestiynau cywir ac ymateb yn dosturiol ac effeithiol wrth ymdrin â chleifion a allai fod mewn perygl o gyflawni hunanladdiad. Credwn y dylai'r Grŵp Cyngori Cenedlaethol fwrw ymlaen â hyn fel un o'r blaenoriaethau pennaf, yn enwedig o gofio bod fframwaith hyfforddiant eisoes wedi'i ddatblygu ac yn cael ei lansio yn Lloegr</p>	<p>Nodwyd gennym yn flaenorol fod yr Athro Ann John (Cadeirydd y Grwpiau Cyngori Cenedlaethol ar Hunanladdiad a Hunan-niwed) wedi cyfrannu at elfen plant a phobl ifanc y fframwaith atal hunan-niwed a hunanladdiad (Health Education England, Coleg Prifysgol Llundain (UCL), y Ganolfan Gydweithredol Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl (NCCMH) (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018), sy'n cynnwys tair rhan:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Plant a phobl ifanc • Oedolion ac oedolion hŷn • Y cyhoedd (iechyd cymunedol ac iechyd y cyhoedd). <p>Mae'r Arweinydd Cenedlaethol (Claire Cotter) yn arwain y broses o ddatblygu 'fframwaith galluogrwydd' ar hyn o bryd. Bydd y fframwaith hwn yn nodi'r galluoedd sydd eu hangen ar lefel gyffredinol ar draws gweithluoedd amlsectoraidd, gan weithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ac arbenigwyr digidol. Caiff grwpiau penodol o weithwyr rheng flaen eu cynnwys wrth ddatblygu'r adnodd hwn drwy drefniadau cydgynhyrchu, er mwyn meithrin galluogrwydd a hyder yn y system e.e. cydgysylltwyr ardal lleol; swyddogion lles ym maes addysg bellach; timau gofal sylfaenol; bwrdd iechyd. Rydym yn disgwyl i'r gwaith hwn ddirwyn i ben erbyn diwedd y cyfnod secondio (Mawrth 2022).</p>	<p>Mae'r gwaith sy'n ymwneud â hyfforddiant cyffredinol ar atal hunanladdiad yn parhau i ddatblygu</p> <p>Mae llwyfan digidol wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a fydd yn darparu 'hwb hyfforddiant hunanladdiad a hunan-niwed i Gymru' er mwyn helpu gweithwyr rheng flaen i ymdrin â marchnad sy'n llawn cynhyrchion a rhaglenni hyfforddi mewn ffordd wybodus. Bydd hefyd yn darparu dolenni cyflym i fideos hyfforddiant ar-lein ac adnoddau e-ddysgu sydd ar gael am ddim ledled y DU</p> <p>Mae fframweithiau hyfforddi ar gael hefyd ar Hwb ACE YMWBODOL, ac mae un arall wrthi'n cael ei ddatblygu drwy Straen Trawmatig Cymru.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd yr hwb hyfforddiant digidol yn amlgu bylchau yn y ddarpariaeth hyfforddiant, wrth i bobl geisio dod o hyd i gynhyrchion sy'n addas ar gyfer eu hanghenion datblygu penodol. Mae'r Cydgysylltydd Cenedlaethol yn cydgysylltu</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
		Mae'r deunydd hyfforddi ar gyfer y DES i feddygon teulu wedi'i gwblhau, ond gohiriwyd y trefniadau angenrheidiol ar gyfer ymgysylltu â meddygon teulu oherwydd y pandemig. Cytunir ar amserlenni newydd maes o law.	ag AGORED ac Addysg Oedolion Cymru er mwyn ystyried datblygu unedau penodol (canlyniadau cwricwlaidd a deilliannau dysgu) ac o bosibl gymhwyster cenedlaethol.
2	Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o hyrwyddo deunyddiau sydd eisoes yn bodoli, megis yr adnodd hyfforddi "See. Say. Signpost." fel rhan o ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a sefydlu'r neges bod hunanladdiad yn fusnes i bawb ac y gall ddigwydd mewn unrhyw gymuned ar unrhyw adeg.	Rydym yn parhau i rannu a hyrwyddo adnoddau a bydd y Cydgysylltwyr Cenedlaethol a Rhanbarthol yn chwarae rhan allweddol wrth nodi cyfleoedd pellach i godi ymwybyddiaeth o ddeunyddiau. Mae Cydweithfa Iechyd GIG Cymru bellach yn cynnwys gwybodaeth benodol am hunanladdiad a hunan-niwed ac yn cyfeirio pobl at wefannau allweddol eraill i gael gwybodaeth. Mae gan wefan Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru dudalen hefyd, ac mae'n datblygu tudalen newydd ar hunanladdiad a hunan-niwed ar y llwyfan diwygiedig (sy'n cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd). Mae'r wefan hon yn cynnwys cyfleuster ar gyfer cymuned o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol.	Yn ogystal â'r diweddariad a roddwyd ym mis Chwefror 2021, gweler y diweddariad i'r argymhelliad blaenorol. Bydd y gwaith hwn yn parhau fel rhan o drefn 'busnes fel arfer' a chaiff gweithgareddau pellach eu cynnwys fel rhan o'r diweddariadau rheolaidd i Gydgyssylltwyr Cenedlaethol sydd ar gael i randdeiliaid. Byddwn hefyd yn parhau i drafod y ffordd orau o godi ymwybyddiaeth drwy waith y Grŵp Trawslywodraethol ar Atal Hunanladdiad a thrwy raglen waith y Cydgysylltydd Cenedlaethol ar Hunanladdiad a Hunan-niwed.
4	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a'r Grŵp Cyngori Cenedlaethol yn gweithio gyda Network Rail a'r Samariaid i werthuso llwyddiant yr ymgyrch Small Talk Saves Lives gyda'r nod o gyflwyno hyn i ystod ehangach o sefydliadau	Mae amrywiaeth eang o fentrau ar waith ledled Cymru. Mae arweinwyr atal hunanladdiad rhanbarthol bellach wedi'u penodi ac maent wrthi'n nodi beth sydd ar gael ym mhob ardal, yn ogystal â'r mesurau canlyniad sydd ar gael i ddangos tystiolaeth o effaith. Caiff penderfyniadau ynghylch cyllid tymor hwy neu ehangu rhaglenni penodol eu hystyried ochr yn ochr â'r broses o bennu'r blaenoriaethau ar gyfer ein rhaglen gyllido ranbarthol gylchol, o dan arweiniad y cydgysylltydd	Rydym wedi atgyfnerthu'r trefniadau er mwyn nodi arferion da neu nodedig drwy'r Cydgysylltwyr Cenedlaethol a Rhanbarthol. Rydym wedi sefydlu Grŵp Trawslywodraethol ar Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed. Bydd y grŵp hwn yn sicrhau bod gwaith ym mhob rhan o'r Llywodraeth, gan gynnwys Cynllunio a Thrafnidiaeth, yn cael ei ystyried fel rhan o'r dull gweithredu

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
		<p>cenedlaethol a fydd yn trafod materion â'r Grŵp Cyngori Cenedlaethol.</p> <p>Yn ogystal, mae cydgysylltwyr rhanbarthol bellach yn mynychu cyfarfod amlasiantaeth Cymru a'r Gororau a gynhelir bob deufis wedi'i drefnu gan Network Rail, a gaiff ei fynychu hefyd gan gwmnïau rheilffordd, gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru, y Samariaid a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Bydd y grŵp hwn yn cysylltu â'r gwaith Gwyladwriaeth Amser Real, ac mae'n parhau i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer atal hunanladdiad.</p> <p>Rydym hefyd wedi atgyfnerthu ein trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'n Tîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, drwy'r Bwrdd Cyflenwi a Goruchwylio a sefydlwyd yn ddiweddar er mwyn sicrhau bod gan bob ymyriad a ddatblygir sail dystiolaeth glir. Mae nifer o ffrydiau gwaith yn adrodd i'r bwrdd hwn, gan gynnwys atal hunanladdiad a hunan-niwed.</p>	<p>ehangach mewn perthynas ag atal hunanladdiad. Bydd y Cydgysylltwyr Atal Hunanladdiad Cenedlaethol a Rhanbarthol yn rhan o'r grŵp trawslywodraethol.</p> <p>Rydym hefyd yn rhoi ffocws newydd i'r Grŵp Cyngori Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod ein dull gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth.</p> <p>Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi fel rhan o'n gwaith i ddatblygu olynydd Beth am Siarad â Fi er mwyn sicrhau dull gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth.</p> <p>Ar y sail ein bod wedi rhoi trefniant newydd a chadarn ar waith i atgyfnerthu'r cymorth dadansoddi a gwerthuso ar gyfer y Rhaglen Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed, rydym o'r farn bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.</p> <p>O ran ymgyrch Small Talk Saves Lives campaign, lansiodd ymgyrch ddiweddaraf Real People Real Stories ledled y DU (gan gynnwys yng Nghymru) yn 2022 a llwyddodd y Samariaid i drefnu proses hysbysebu eang. Yn ogystal, cynhaliwyd ymgyrch pypmiau petrol ym mhob awdurdod lleol gwledig yng Nghymru, ochr yn ochr ag eitemau radio yn ardal Cymoedd</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
			<p>De Cymru. Cafodd yr ymgyrch sylw hefyd ar Newyddion ITV Wales.</p> <p>Mae'r Samariaid yn gweithio mewn partneriaeth â Network Rail ac arweinydd rhanbarthol a gaiff ei gyflogi gan y Samariaid ac sy'n gyfrifol am ardal Cymru a Gorllewin Lloegr.</p>
5	Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau ar fyrder i sicrhau bod pob meddyg teulu yng Nghymru yn ymwybodol o ganllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ynghylch rhannu gwybodaeth a'r datganiad consensws a gytunwyd gan Adran Iechyd y DU, y Colegau Brenhinol a phartneriaid eraill. Rydym yn cefnogi'r ymgyrch gan Papyrus i annog prif weithredwyr cyrff y GIG i roi sicrwydd y byddant yn cefnogi staff sy'n gwneud penderfyniad ar sail budd pennaf i dorri cyfrinachedd claf er mwyn amddiffyn bywyd	Er ein bod wedi tynnu sylw arweinwyr polisi at y mater hwn yn fewnol, nid ydym wedi gallu rhoi blaenoriaeth i waith pellach mewn perthynas â'r cam gweithredu hwn. Byddwn yn ei ystyried fel rhan o'n dull gweithredu fesul cam i ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn a'r amrywiaeth eang o argymhellion o fewn adroddiadau cysylltiedig eraill gan Bwyllgorau.	Mae NICE yn ymgynghori ar hyn o bryd ar ganllawiau newydd ar hunan-niwed. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru ar benderfyniadau am hawliau cyfrinachedd wrth gefnogi cleifion yr ystyrir eu bod yn wynebu risg o hunanladdiad neu hunan-niwed ar ôl cyhoeddi canllawiau NICE yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn.
6	Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau cydraddoldeb rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a chorfforol. Dylai hyn fod yn	Yn y gyllideb ar gyfer 2021/22, dyrannwyd £42 miliwn ychwanegol i iechyd meddwl er mwyn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Cyflenwi Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022. Mae hyn yn cynnig cyllid ychwanegol a chylchol sylweddol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a fydd yn cynyddu'r llinell	Mae sicrhau cydraddoldeb rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn rhan greiddiol o strategaethau iechyd yng Nghymru ac mae'r Rhaglen Lywodraethu yn gwneud ymrwymiad i barhau i flaenoriaethu buddsoddiadau mewn iechyd meddwl. Ar y

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
	<p>gysylltiedig â “Cymru Iachach”, a rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei chynlluniau ar gyfer datblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn rhoi'r un flaenoriaeth i iechyd meddwl a lles meddyliol ag y maent yn ei rhoi i iechyd corfforol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu dyrannu, a bod canlyniadau cleifion, o ran iechyd meddwl gwell, yn cael eu mesur ac yr adroddir arnynt. Os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif ynghylch sicrhau cydraddoldeb rhwng iechyd meddwl ac iechyd corfforol, rhaid iddi ystyried a fyddai cyflwyno targedau ystyrion yn sicrhau bod byrddau iechyd yn rhoi ffocws digonol ar wella gwasanaethau iechyd meddwl a phrofiad cleifion o ofal</p>	<p>sylyfaen i helpu gwasanaethau i ddiwallu anghenion iechyd meddwl newidiol. Mae'r buddsoddiad ychwanegol hwn yn golygu y caiff cyfanswm o £783m ei wario ar iechyd meddwl yn 2021-22. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys £726 miliwn a ddarperir i Fyrddau Iechyd Lleol yn 2021-22 fel rhan o'r dyraniad iechyd meddwl wedi'i glustnodi i gefnogi gwasanaethau a chymorth iechyd meddwl cyfredol.</p> <p>Mae gwaith yn parhau i integreiddio gwasanaethau iechyd meddwl yn well â gwasanaethau iechyd corfforol, er enghraifft, mae cynlluniau wrthi'n cael eu cwblhau i raglen waith argyfyngau iechyd meddwl ddod yn rhan o'r Bwrdd Rhaglen Mynediad Brys ac Argyfwng. Yn yr un modd, fel rhan o'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod iechyd meddwl yn elfen integredig o'r gwaith hwn.</p> <p>Yn ystod y pandemig, cafodd gwasanaethau iechyd meddwl eu blaenoriaethu a'u pennu fel gwasanaethau hanfodol ynghyd â gwasanaethau iechyd 'corfforol' allweddol sy'n dangos lefel y pwysigrwydd a roddir gennym ar ein gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru.</p> <p>O ran amseroedd aros, ceir enghreifftiau da o dargedau iechyd meddwl a thargedau iechyd corfforol sy'n gydnaws â'i gilydd, er enghraifft, ar gyfer gofal brys, lle mae'r meini prawf ar gyfer cynnal asesiad brys o fewn 4 awr ar gyfer iechyd meddwl yn gydnaws â'r targed ar gyfer amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Yn ogystal, mae'r targedau ar gyfer asesiadau cyffredin ac atgyfeiriadau i gael triniaeth</p>	<p>sail hon, mae'r elfen hon o'r argymhelliad wedi'i chwblhau.</p> <p>O ran mesurau canlyniadau ar gyfer iechyd meddwl, dechreuodd hyfforddiant ac adnoddau i gynnwys y defnydd o fesurau canlyniadau a phrofiad wedi'u hadrodd gan gleifion ym mhob tîm iechyd meddwl ym mis Mehefin 2021 a bydd y gwaith hwn yn parhau i gael ei gefnogi tan fis Mawrth 2023.</p> <p>Mae'r gwaith hwn bellach yn cael ei weithredu drwy'r Bwrdd Data a Mesurau Canlyniadau Iechyd Meddwl sy'n adrodd i Fwrdd Goruchwylio Gweinidogol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
		iechyd meddwl yn cynnwys targed o 28 diwrnod o gymharu â'r targed o 26 wythnos ar gyfer atgyfeiriadau i gael triniaeth am gyflyrau iechyd corfforol. Rydym hefyd yn atgyfnerthu'r arweinyddiaeth ar gyfer gwaith ar y Set Ddata Graidd er mwyn sicrhau ffocws ar ganlyniadau ac er mwyn nodi cyfleoedd i gyflymu cynnydd cyn rhoi WCCIS ar waith.	
8	<p>Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu model brysbennu Cymru gyfan a fyddai'n golygu bod nyrsys seiciatrig cymunedol wedi'u lleoli yn ystafelloedd rheoli'r heddlu. Credwn y dylid gwneud y gwaith hwn yn unol â'r amserlen chwe mis a nodir yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cadernid Meddwl (argymhelliad 15 yn yr adroddiad hwnnw):</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Bod Llywodraeth Cymru, o fewn chwe mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, mewn perthynas â gofal argyfwng a gofal y tu allan i oriau: ▪ yn gweithio gyda heddluoedd Cymru i ystyried model brysbennu ar gyfer Cymru gyfan a fyddai'n sicrhau bod ymarferwyr iechyd meddwl ar 	<p>Mae gwella gofal argyfwng i bob oed yn flaenoriaeth yn ein Cynllun Cyflenwi Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-22, gan gynnwys sicrhau darpariaeth 24/7. Mae diweddariadau blaenorol wedi cynnwys gwybodaeth am yr amrywiaeth o brosiectau peilot sydd ar waith i brofi modelau brysbennu dros y ffôn. Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth wella gofal argyfwng wedi'i ategu gan gyllid o £3.4 miliwn yn ystod y 3 blynedd diwethaf (£1m yn 2018-19, £1.4m yn 2019-20 ac £1m yn 20/21) i gefnogi amrywiaeth o ddulliau gweithredu (brysbennu dros y ffôn, cludo a chaffis argyfwng).</p> <p>Mae canfyddiadau adolygiad a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru o fynediad brys i bob oed (adroddiad 'Tu Hwnt i'r Alwad', cyhoeddwyd 21 Rhagfyr 2020) yn dangos yr amrywiaeth o anghenion sydd gan bobl mewn argyfwng. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth eang o faterion cymdeithasol a llesiant ac mae pob partner yn cytuno bod angen llwybr amlasiantaeth er mwyn diwallu anghenion. Er mwyn cefnogi'r gwelliannau sydd eu hangen o safbwynt iechyd fel rhan o'r dull gweithredu amlasiantaeth, rwyf wedi ymrwymo £6m ychwanegol ar gyfer gofal argyfwng yn 2021-22. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i brofi</p>	<p>Fel y nodwyd yn flaenorol, gwnaethom ymrwymo £6miliwn i wella gwasanaethau argyfwng yn 2021/22 ac rydym yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mynediad 24/7 i gymorth iechyd meddwl brys drwy 111. Mae'r pandemig wedi effeithio ar ein bwriad i roi'r camau hyn ar waith erbyn mis Ebrill ac mae byrddau iechyd yn wynebu heriau o hyd wrth recriwtio aelodau allweddol o staff. Mae byrddau iechyd wedi cyrraedd gwahanol gamau gweithredu ac rydym yn anelu at sicrhau darpariaeth 24/7 ledled Cymru erbyn diwedd y flwyddyn – gyda rhai byrddau iechyd ar y trywydd cywir i gynnig y gwasanaeth cyn yr haf. Pan fydd yn gwbl weithredol, bydd y gwasanaeth yn darparu llinell uniongyrchol i swyddogion yr heddlu ei ffonio i ofyn am gyngor. Mae byrddau iechyd yn gweithio'n lleol gyda heddluoedd lle mae modelau brysbennu eisoes ar waith.</p> <p>Mae parhau i drawsnewid gwasanaethau argyfwng yn flaenoriaeth ar gyfer y cyllid iechyd meddwl ychwanegol rydym wedi'i</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
	<p>gael yn ystafelloedd rheoli'r heddlu i roi cyngor pan fydd plant a phobl ifanc (a grwpiau oedran eraill, os yn briodol) yn wynebu argyfwng;</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ yn amlinellu sut y gellid cyfeirio adnoddau at alluogi timau argyfwng ym mhob bwrdd iechyd i ddarparu hyfforddiant a rhaeadru arbenigedd i wasanaethau rheng flaen eraill, yn enwedig cydweithwyr mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, mewn ardaloedd ar y gororau (i wella cysylltiadau trawsffiniol â'r canolfannau hynny a ddefnyddir amlaf gan gleifion sy'n byw yng Nghymru), ac mewn ysgolion (i wneud sgysiau am hunanladdiad a hunan-niwed yn benodol yn fater o drefn); ▪ yn sicrhau bod y byrddau iechyd yn darparu cymorth dilynol ar ôl rhyddhau, yn darparu gwybodaeth am sut mae'r byrddau iechyd yn monitro'r ddarpariaeth hon, ac yn ymrwymo i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd er mwyn bod yn dryloyw ac yn atebol; yn sicrhau bod yr holl fyrddau iechyd yn 	<p>llwybr argyfwng 111 yn ardaloedd tri bwrdd iechyd gyda'r bwriad o ehangu'r gwaith hwn. Rydym hefyd wedi sefydlu cynlluniau cludo iechyd meddwl peilot gyda Sant Ioan Cymru er mwyn darparu gwasanaeth cludo mwy priodol ac amserol i gleifion iechyd meddwl. Bwriedir cyflwyno'r gwaith hwn ymhellach yn ystod 2021-22.</p> <p>Rydym hefyd wedi comisiynu adolygiad o wasanaethau cyswllt argyfwng a seiciatrig gan Uned Gyflenwi'r GIG er mwyn llywio ein hymateb parhaus. Gohiriwyd yr amserlenni ar gyfer yr adolygiad hwn oherwydd y pandemig. Y prif reswm am hyn oedd er mwyn caniatáu i wasanaethau ganolbwyntio ar gynnal gwasanaethau hanfodol yn ystod cyfnod heriol iawn, gan gynnwys yr angen i addasu modelau gwasanaeth o fewn y cyfyngiadau. Fodd bynnag, mae'r adolygiad yn mynd rhagddo a'r nod yw cwblhau'r gwaith maes erbyn diwedd mis Hydref 2021. Ar ôl cwblhau adolygiad pob Bwrdd Iechyd, bydd Uned Gyflenwi'r GIG yn cyflwyno adroddiad lleol llawn i'r Bwrdd perthnasol. Felly, bydd y rhan fwyaf o'r Byrddau Iechyd wedi derbyn eu hadroddiadau lleol yn ystod y gwanwyn a'r haf a chaiff y Bwrdd Iechyd olaf ei adolygu yn ystod yr Hydref. Ar ôl cwblhau'r adolygiadau lleol, caiff adroddiad cenedlaethol ei lunio a'i gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn galendr. Mae'r amserlen hon yn dibynnu ar y cyfyngiadau ac ar allu'r byrddau iechyd i ymgysylltu'n llawn â'r adolygiad.</p>	<p>sicrhau ar gyfer 2022/23. Caiff y cyllid ei ddefnyddio i gefnogi'r gwelliannau a argymhellwyd gan Uned Gyflawni'r GIG yn dilyn ei hadolygiad o ofal argyfwng. Cyflwynodd y byrddau iechyd eu cynlluniau ar gyfer y cyllid hwn ddiwedd mis Mai ac mae swyddogion wrthi'n ystyried y cynigion.</p> <p>Rydym hefyd yn parhau â chynllun peilot ar gyfer gwasanaeth cludo cleifion iechyd meddwl gyda St John Cymru. Mae'r cynllun peilot hwn wedi cael adborth cadarnhaol gan randdeiliaid, yn enwedig gan Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy a'r Heddlu. Mae cynlluniau ar waith i gyflwyno'r gwasanaeth ar ôl y cyfnod peilot llwyddiannus.</p> <p>Comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol (NCCU) i gynnal adolygiad o'r defnydd o welyau dynodedig yn 2021. Mae'r NCCU ac Uned Gyflawni'r GIG wrthi bellach yn diweddarau canllawiau i sicrhau y caiff data eu cofnodi'n fwy rheolaidd er mwyn helpu i wneud gwelliannau.</p> <p>Cyhoeddwyd Canllawiau ar ddarparu gwasanaethau seiciatreg gyswllt yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar swyddogaethau Gwasanaethau Seiciatreg Gyswllt yng Nghymru. Fe'i datblygwyd ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
	<p>cydymffurfio â'r gofyniad i gadw gwelyau dynodedig y gellid eu staffio'n ddigonol ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed mewn argyfwng, sy'n nodi sut y bydd hyn yn cael ei fonitro a sut y bydd adroddiad yn cael ei lunio amdano yn y dyfodol, a pha gamau a gymerir os na fydd gwelyau o'r fath ar gael;</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ yn gweithredu'n gyflym ac mewn ffordd unffurf ar draws y byrddau iechyd i gynnig un pwynt mynediad at wasanaethau arbenigol, er mwyn sicrhau mynediad amserol a phriodol i gymorth, boed yn gymorth brys neu'n gymorth arall; ac ▪ yn myfyrio ar ganlyniadau'r adolygiad o ofal argyfwng, yn amlinellu beth yn fwy sydd angen ei wneud i ddarparu gwasanaeth gofal argyfwng 24/7 diogel a chost-effeithiol ym mhob rhan o Gymru, sut y gwneir hynny, ac erbyn pryd 	<p>Cyhoeddwyd canllawiau i ysgolion mewn perthynas ag ymateb i achosion o hunan-niwed a theimladau hunanladdol ymhlith pobl ifanc yn 2019.</p>	<p>a chafodd pob grŵp proffesiynol ei gynrychioli. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i'r ystod oedran gyfan ac er y bydd angen gwahaniaethu o bosibl, ni ddylai unrhyw ystod oedran dderbyn gwasanaethau o ansawdd is. Gofynnwyd am sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ac adlewyrchir y sylwadau hynny yn y ddogfen hon. Mae'n cynnwys wyth safon er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i Wasanaethau Seiciatreg Gyswllt yng Nghymru a darpariaeth gyfartal ac mae'n adlewyrchu safonau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a safonau cyrff proffesiynol. Bydd casglu gwybodaeth mewn perthynas â'r safonau yn helpu byrddau iechyd i ddatblygu darlun clir o'r galw am wasanaethau, faint o bobl sy'n eu defnyddio a'r trefniadau ar gyfer eu cyflwyno. Disgwylir y bydd gwybodaeth ansoddol a meintiol ar gael wrth i'r gwasanaethau ddatblygu ac aeddfedu. Dylai'r broses o archwilio gwybodaeth am y Gwasanaethau Seiciatreg Gyswllt alluogi byrddau iechyd i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth am ddarparu'r gwasanaethau hynny yn y dyfodol. Mae'r Gwasanaethau Seiciatreg Gyswllt hefyd yn flaenoriaeth o fewn y cyllid gwella gwasanaethau eleni.</p>
9	Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd	Ymateb i 9, 10 ac 11:	

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
	camau ar fyrder i ganfod i ba raddau y mae'r rhai a ryddhawyd o ofal fel cleifion mewnol yn cael gofal dilynol ar hyn o bryd o fewn yr amserlen darged ac yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor o fewn tri mis. Dylai hyn gynnwys camau i sicrhau bod systemau TG yn gallu nodi a yw hyn yn digwydd	Fel rhan o Set Ddata Graidd Iechyd Meddwl, mae cysylltu â chleifion o fewn 2 ddiwrnod i'w rhyddhau yn darged allweddol – mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg Cenedlaethol Cymru (NWIS) a rhanddeiliaid i gynnal gwaith monitro perfformiad cadarn mewn perthynas â'r targed hwn drwy weithdrefnau Bwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru. Yn y cyfamser, mae swyddogion yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i sicrhau y cynhelir gwaith dilynol ar ôl rhyddhau cleifion ac y caiff ei gofnodi'n lleol.	Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo o hyd drwy waith y Bwrdd Data a Mesurau Canlyniadau Iechyd Meddwl. Dosbarthwyd y set ddata graidd iechyd meddwl ddrafft i fyrddau iechyd er mwyn iddynt brofi ei heffaith a deall pa elfennau sydd eisoes yn cael eu cofnodi gan fyrddau iechyd a pha elfennau y byddai angen eu hychwanegu. Mae hyn wedi helpu i nodi unrhyw elfennau a fyddai'n anodd i'w cofnodi. Mae Cydweithrediaeth y GIG bellach wedi derbyn yr adroddiad ar y profion effaith hyn. Cyflwynwyd y data craidd i Fwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru ym mis Gorffennaf fel rhan o'r broses gymeradwyo. Ynghyd â'r hyfforddiant canlyniadau y cyfeiriwyd ato yn argymhelliad 6, mae Prifysgol De Cymru wedi cael ei chomisiynu i weithio gyda byrddau iechyd a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu mesurau canlyniadau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Disgwylir yr adroddiad ar y gwaith mapio cychwynnol erbyn Haf 2022.
Tudalen y 142 ^a rwyng 141 a 143	10 Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno proses chwemisol i fonitro ac adrodd ar y targed yn Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Cynllun Cyflawni sy'n nodi y bydd yr holl gleifion sy'n cael eu rhyddhau o ofal fel cleifion mewnol yn cael gofal dilynol o fewn yr amserlen benodedig		
	11 Rydym yn argymhell, yng ngoleuni'r dystiolaeth bod y perygl o hunanladdiad ar ei uchaf ar y trydydd diwrnod ar ôl rhyddhau pobl o ofal, y dylai'r targed o ran trefnu apwyntiad dilynol cyntaf i gleifion mewnol a ryddhawyd o ofal iechyd meddwl gael ei newid er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gofal dilynol o fewn 48 awr		
	12 Rydym yn argymhell y dylid cyflwyno targed ar gyfer amseroedd aros am therapiau	Ers cyhoeddi'r argymhellion hyn, rydym yn parhau i gefnogi gwaith i wella mynediad i ymyriadau a therapiau seicolegol ac mae'n parhau'n faes blaenoriaeth o fewn	Rydym yn parhau'n ymrwymedig i gyhoeddi data amseroedd aros ar gyfer therapiau seicolegol arbenigol ond bu oedi o ran

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
	<p>seicolegol i sicrhau bod y rhai sydd mewn angen yn cael y cymorth hwn o fewn amserlen briodol. Mae mynediad cynnar at therapi priodol yn gallu darparu'r ymyrraeth y mae ei hangen ac atal yr angen i rywun gael gofal argyfwng yn nes ymlaen</p>	<p><i>Cynllun Cyflenwi Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022.</i> Yn 2018/19, rhoddwyd £4m o gyllid ychwanegol yn uniongyrchol i fyrddau iechyd i'w helpu i wella mynediad i therapiau seicolegol a gwnaed buddsoddiad pellach yn ystod rowndiau cyllid gwella gwasanaethau dilynol (yn 2019/20 a 2020/21), gwerth £3.5m ychwanegol.</p> <p>Dyrannwyd y cyllid hwn ar y sail y dylai adeiladu ar fuddsoddiad blaenorol ac y gallai'r byrddau iechyd ddangos sut y byddai'r cyllid yn helpu i weithredu Matrics Cymru, Canllawiau ar gyfer Darparu Therapi Seicolegol sy'n seiliedig ar Dystiolaeth yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2017. Cynlluniwyd Cynllun Gweithredu ategol y Pwyllgor Rheoli Therapiau Seicolegol Cenedlaethol (NPTMC), a gyhoeddwyd yn 2018, er mwyn helpu byrddau iechyd i werthuso a chynllunio eu gwasanaethau yn erbyn y canllawiau a'r tablau tystiolaeth cysylltiedig.</p> <p>Yn dilyn yr archwiliadau cychwynnol a gynhaliwyd yn 2018 mewn perthynas â Chynllun Gweithredu'r Pwyllgor, byddwn yn gofyn i fyrddau iechyd adolygu'r broses o roi'r cynlluniau hynny ar waith fel rhan o raglen waith eleni. Byddwn yn gofyn am dystiolaeth ganddynt ynghylch sut y maent yn bwriadu canolbwyntio ar y meysydd y mae angen eu datblygu fwyaf. Bydd cyllid gwella gwasanaethau ar gael iddynt lle bo angen.</p> <p>Eleni, gwnaed gwaith hefyd i asesu ac i fapio'r gweithlu seicolegol presennol, gan gynnwys capasiti, trefniadau goruchwyllo ac anghenion hyfforddi. Rhannwyd y dadansoddiad eang hwn ag Addysg a Gwella Iechyd</p>	<p>yngymryd â'r gwaith hwn yn ystod y pandemig.</p> <p>Er nad yw'r data yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi eto, caiff data gweithredol eu cyflwyno gan bob bwrdd iechyd ac fe'u defnyddir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau yn atebol. Comisiynwyd Uned Gyflawni'r GIG i gynnal adolygiad o therapiau seicolegol er mwyn deall y cysondeb a'r amrywiadau rhwng gwasanaethau a threfniadau cyflwyno data rhwng byrddau iechyd.</p> <p>Dim ond un elfen o'r trefniadau mynediad ar gyfer therapiau seicolegol a adlewyrchir gan y data amseroedd aros a gyhoeddir – y gwasanaethau arbenigol. Caiff data eu cyhoeddi eisoes ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol, sy'n cynnwys therapiau seicolegol ac rydym wedi atgyfnerthu cymorth lefel isel, er enghraifft drwy gyflwyno Therapi Gwybyddol Ymddygiadol ar-lein – math arall o therapi seicolegol.</p> <p>Bydd y gwaith i ddatblygu'r set ddata graidd iechyd meddwl yn sicrhau ein bod yn gallu adlewyrchu darlun mwy cyflawn o'r ddarpariaeth ledled Cymru.</p> <p>Rydym yn gweithio gydag AaGIC a Gwelliant Cymru i barhau i ddatblygu'r seilwaith i helpu byrddau iechyd i wella</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
		<p>Cymru (AaGIC) er mwyn llywio'r gwaith y mae'n ei wneud i gynllunio'r gweithlu. Yn dilyn trafodaethau, penderfynwyd yn gyflym y dylid cynnwys lleoedd ychwanegol i hyfforddi seicolegwyr o flwyddyn academaidd 2020-21.</p> <p>Rydym hefyd yn cefnogi seilwaith interim er mwyn helpu i barhau i ddarparu therapïau seicolegol, gan sicrhau y caiff yr amrywiaeth o therapïau sydd ar gael ei hatgyfnerthu, ac y caiff dewisiadau defnyddwyr gwasanaethau eu hystyried fel mater o drefn o fewn gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys adolygiad systematig a chadarn o'r tablau tystiolaeth sy'n sail i Fatics Cymru gan ei bod yn holl bwysig eu bod yn cael eu diweddu'n rheolaidd er mwyn sicrhau y gall y byrddau iechyd ddarparu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.</p> <p>Comisiynwyd gwaith hefyd i lunio adroddiad ar y mecanweithiau mwyaf effeithiol ar gyfer cynllunio diogelwch a rhagwelir y bydd yr egwyddorion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw yn parhau i lywio'r ymyriadau seicolegol mwyaf priodol i'r rheini sy'n cael teimladau hunanladdol a'r rheini sydd wedi hunan-niweidio.</p> <p>Mae'r cydgysylltydd cenedlaethol hefyd yn gweithio gyda'r grŵp llywio cenedlaethol Seiciatreg Gyswllt a bwrdd prosiect y set ddata graidd i sicrhau cysondeb o ran trefniadau asesu lleoliadau seiciatreg gyswllt. Rydym hefyd yn ymrwymedig i sicrhau y caiff unrhyw arferion newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth a nodir yn y maes hwn eu rhannu â'n holl gydweithwyr priodol.</p>	<p>mynediad i therapïau seicolegol. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod proses gadarn gennym ar gyfer ystyried sail tystiolaeth yr ymyriadau sy'n sail i Fatics Cymru a'r Matrics Plant.</p> <p>Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu'r Matrics Plant ym mis Medi 2021. Cynlluniwyd y cynllun hwn er mwyn helpu i roi'r Matrics Plant: Canllawiau ar gyfer Darparu Ymyriadau Seicolegol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru ar waith. Rhagwelir y bydd yn helpu byrddau iechyd a phartneriaid i sicrhau y caiff ysbryd a manylion y Matrics Plant eu rhoi ar waith.</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
13	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn derbyn yr alwad a wnaed yn yr adolygiad canol cyfnod o Siarad â fi 2 i ddatblygu a gweithredu strategaeth ôl-ymyrraeth Cymru gyfan ar gyfer hunanladdiad, ac y dylai'r gwaith hwn gael ei ddatblygu fel un o'r blaenoriaethau pennaf. Dylai hyn gynnwys manylion cymorth dilynol i unigolion sydd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad, ac mewn lleoliadau sefydliadol. Dylai gynnwys yr argymhelliad yn Cadernid Meddwl y dylid rhoi canllawiau i'r holl ysgolion ynghylch siarad am hunanladdiad (ac, fel blaenoriaeth, i ysgolion lle bu achos o hunanladdiad neu amheuaeth o hunanladdiad). Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod digon o adnoddau wedi'u clustnodi i weithredu'r strategaeth ôl-ymyrraeth hon.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid grant (2020/21) i brosiect/gwasanaeth cymorth profedigaeth ym mhob un o'r tri rhanbarth y mae SOBS (Gogledd), MIND (Canolbarth/Gorllewin) a 2WishuponaStar (Gwent) yn ymwneud â nhw, a byddant yn darparu gwybodaeth werthfawr er mwyn llywio dull gweithredu Cymru gyfan.</p> <p>Mae'r Cydgysylltydd Cenedlaethol yn mynychu'r Grŵp Llywio Profedigaeth Cenedlaethol sydd wrthi ar hyn o bryd yn datblygu fframwaith ar gyfer pob math o brofedigaeth. Bydd ymgynghoriad ffurfiol yn dechrau ar y fframwaith hwn ar 22 Mawrth.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae'r grŵp yn ymgysylltu â phobl â phrofiad uniongyrchol o brofedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad, gyda chymorth asiantaethau gwirfoddol, gan roi cyfle iddynt rannu eu teithiau profedigaeth er mwyn i ni allu deall yr heriau a'r cyfleoedd i roi'r cymorth cywir yn y ffordd gywir yn well. Disgwylir i'r grŵp gyflwyno adroddiad ar 31 Mawrth 2021, a bydd yn darparu sail ar gyfer strategaeth ôl-ymyrraeth, a fydd yn nodi'r costau y bydd angen darparu ar eu cyfer a'r adnoddau y bydd eu hangen er mwyn darparu ymateb cenedlaethol yn ystod 2021/22.</p>	<p>Ar sail y ddealltwriaeth a feithriniwyd o'r ymarfer gwranddo a gynhaliwyd yn 2020/21 gyda'r rheini a oedd yn byw mewn profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad, mae grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaethol wedi bod yn cyfarfod i lunio canllawiau ar gyfer ymateb Cymru gyfan i'r rheini sy'n dod i gysylltiad â marwolaeth sydyn a allai fod yn hunanladdiad posibl, y rheini yr effeithir arnynt gan achos o'r fath neu sy'n wynebu profedigaeth o ganlyniad (byddai ymateb cyflym yn golygu cyn cwest). Cynhwyswyd staff corffdai, swyddfeydd crwneriaid, trefnwyr angladdau, gofal sylfaenol, asiantaethau cymorth profedigaeth yn dilyn hunanladdiad, gwasanaethau golau glas a gwasanaethau achub.</p> <p>Bydd y System Gwyliadwriaeth Amser Real yn darparu gwybodaeth er mwyn helpu gwasanaethau i sicrhau y caiff y rheini sy'n wynebu profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad gynnig cymorth amserol a phriodol.</p> <p>Mae canllawiau drafft yn destun adolygiad ehangach ar hyn o bryd. Un o argymhellion allweddol y gwaith hwn yw y dylid darparu Gwasanaeth Cyswllt Cenedlaethol ar gyfer Profedigaethau er mwyn cynnig cymorth rhagweithiol ar ôl hunanladdiad posibl. Mae</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
			<p>swyddogion yn ystyried opsiynau ar gyfer datblygu neu gomisiynu'r cymorth hwn.</p> <p>Cyhoeddwyd canllawiau ar drafod hunanladdiad ym mis Medi 2019 ac fe'u dosbarthwyd i bob ysgol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu cynigion ar gyfer adolygu ymwybyddiaeth mewn ysgolion ac maent yn ystyried pa gymorth pellach sydd ei angen yn y maes.</p>
14	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn mynd ati i hyrwyddo argaeledd yr adnodd Cymorth wrth Law Cymru. Dylai hyn gynnwys ymgysylltu'n rhagweithiol â grwpiau cymorth y trydydd sector a sicrhau bod staff rheng flaen, yn enwedig gwasanaethau brys, sydd â chysylltiad â'r rhai sydd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad, nid yn unig yn llwyr ymwybodol o Cymorth wrth Law Cymru ond, yn hollbwysig, yn gallu cael gfael ar gopiâu o'r adnodd fel y gellir ei ddosbarthu i'r rhai sydd wedi dioddef profedigaeth ar yr adeg y mae ei angen arnynt. Gan fod yr adnodd hwn eisoes ar gael, dylid rhoi hyn ar waith o fewn 3 mis</p>	<p>Lluniwyd fersiwn o 'Cymorth wrth law' i Gymru ac mae ar gael ar-lein (Dewis Cymru) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rhyddhawyd cyllid i helpu gyda chostau argraffu a dosbarthu parhaus. Dosbarthwyd yr adnoddau a argraffwyd yn ddiweddar yn uniongyrchol i'r Byrddau Iechyd Lleol, nifer o sefydliadau trydydd sector, heddluoedd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn iddynt eu dosbarthu i randdeiliaid ehangach.</p> <p>Nodir ei bod bellach yn bryd adolygu 'Cymorth wrth law' ac mae'r Cydgysylltydd Cenedlaethol yn cysylltu â chydweithwyr ym mhym gwlad y DU/Iwerddon y maent oll yn defnyddio'r adnodd 'Cymorth wrth law' er mwyn ystyried pa ddiwygiadau pellach sydd eu hangen. Caiff y gwaith hwn hefyd ei lywio gan yr adolygiad diweddar yn Lloegr. Mae trafodaethau cynnar yn awgrymu o bosibl y gellid datblygu opsiwn digidol ar y cyd â'r gwledydd eraill. Bydd gwaith ar system Gwyliadwriaeth Amser Real hefyd yn cynnig cyfleoedd i sicrhau y caiff yr adnodd hwn ei ddefnyddio'n fwy rheolaidd ac i sicrhau bod y wybodaeth ar gael pan fydd ei hangen.</p>	<p>Bydd y cyflenwr digidol sy'n datblygu'r hwb hyfforddi yn helpu i ddatblygu fersiwn ddigidol o Cymorth wrth Law, a fydd yn cynnig cyfle i adolygu'r cynnwys, diweddarau'r cyfeiriadau at wasanaethau ac adnoddau yng Nghymru, ac ystyried ffyrdd eraill o sicrhau bod y cynnwys ar gael. Bydd hyn ar gael yn ystod hydref 2022.</p> <p>Yn ystod y cyfnod datblygu, caiff 'cerdyn busnes' â Chod QR i'r fersiwn gyfredol ar wefan Dewis Cymru ei argraffu i'w roi i ymatebwyr rheng flaen ledled Cymru.</p> <p>Gall yr un Cod QR dywys pobl i'r fersiwn ddigidol newydd pan fydd ar gael.</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
15	Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o lwybr ôl-ymyrraeth Cymru gyfan, roi ystyriaeth ddwys i ddarparu cyllid ar gyfer grwpiau cymorth i'r rhai sydd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad, fel bod pobl ledled Cymru yn gallu cael cymorth y mae ei ddirfawr angen. Credwn y gall grwpiau o'r fath gyflawni rôl allweddol o ran cefnogi iechyd meddwl a lles meddyliol y rhai sydd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad. Gallai hyn yn ei dro arwain at lai o alw am wasanaethau'r GIG.	Caiff yr ymateb i'r argymhelliad hwn ei ystyried fel rhan o'n gwaith y nodir ei fanylion yn argymhelliad 13.	Gweler y wybodaeth am 'Wasanaeth Cyswllt Cenedlaethol ar gyfer Profedigaethau' yn argymhelliad 13.
16	Rydym yn argymell y dylai'r Grŵp Cyngori Cenedlaethol a fforymau hunanladdiad rhanbarthol ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad personol o syniadau hunanladdol, gan gynnwys y rhai sydd wedi goroesi ymgais i gyflawni hunanladdiad a phobl sydd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad i sicrhau bod yr holl weithgarwch atal hunanladdiad yn seiliedig ar brofiad uniongyrchol	Ar hyn o bryd, ymgysylltir â phobl â phrofiad uniongyrchol drwy'r asiantaethau gwirfoddol hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r rheini yr effeithiwyd arnynt gan hunanladdiad, a chaiff pobl â phrofiad uniongyrchol hefyd eu cynrychioli ar y Grŵp Cyngori Cenedlaethol ac ar y fforymau atal hunanladdiad rhanbarthol a lleol. Mae pob rhanbarth hefyd wedi neilltuo cronfa cyllid gweinyddol ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â chydgyhyrchu, treuliau teithio ac ati fel y bo'n briodol er mwyn hwyluso'r gwaith parhaus hwn. Mae enghreifftiau diweddar o gynnwys pobl â phrofiad uniongyrchol mewn gweithgareddau atal hunanladdiad, yn cynnwys gofyn iddynt fod yn aelodau o baneli cyfweld ar gyfer arweinwyr cenedlaethol/rhanbarthol a'u	Mae pobl â phrofiad uniongyrchol, ac asiantaethau a sefydlwyd gan y rheini â phrofiad uniongyrchol, yn mynychu'r tri fforwm rhanbarthol a'r Grŵp Cyngori Cenedlaethol. Aeth ymarfer gwrando ati i ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl â phrofiad uniongyrchol er mwyn llywio ein ffordd o ymateb i bobl sy'n wynebu profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad neu yr effeithiwyd arnynt gan hunanladdiad. Bydd y gwaith hwn yn parhau fel rhan o drefn 'busnes fel arfer' a chaiff gweithgareddau pellach eu cynnwys fel rhan

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
		cynnwys yn uniongyrchol wrth ddatblygu ymateb cenedlaethol i brofedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad.	o'r diweddariadau rheolaidd i Gydgysylltwyr Cenedlaethol sydd ar gael i randdeiliaid. Felly, ystyrir bod yr argymhelliad hwn bellach wedi'i gwblhau.
17	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyflogwyr y GIG yng Nghymru i sicrhau bod pob cyflogai sydd wedi ymdrin ag achosion o hunanladdiad/ymgais i gyflawni hunanladdiad yn gallu cael gafael ar gymorth priodol	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol o fewn cyflogwyr GIG Cymru ac undebau llafur i sicrhau bod cynnig llesiant amlhaenog ar gael i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys llinell gymorth gyfrinachol gan y Samariaid, wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, sydd ar gael yn benodol i weithwyr iechyd a gofal yng Nghymru.</p> <p>Mae nifer o adnoddau ac apiau iechyd a lles sydd ar gael i'w defnyddio am ddim hefyd, gan gynnwys Mind, CALL, Sleepio a Daylight a SilverCloud.</p> <p>Mae holl gyflogwyr y GIG yn parhau i gynnig Rhaglenni Cymorth i Weithwyr, ac mae gwasanaethau llesiant yn cynnig amrywiaeth o gymorth. Mae nifer o adnoddau defnyddiol hefyd y caiff staff eu cyfeirio atynt drwy dudalen we AaGIC yn benodol ar hunanladdiad, trawma a phrofedigaeth:</p> <p>Darperir cryn dipyn o gymorth drwy Wasanaeth Iechyd i Weithwyr Iechyd Proffesiynol Cymru (HHP). Drwy HHP Cymru, gall pob meddyg sy'n gweithio ym maes Gofal Sylfaenol ac Eilaidd gael gafael ar wasanaethau Cymdeithas Seicotherapiau Ymddygiadol a Gwybyddol Prydain (BABCP) yn ei ardal. Gall meddygon hunangyfeirio a chânt eu hasesu gan gynghorydd</p>	<p>Rydym yn disgwyl i bob bwrdd iechyd roi cymorth priodol i bob aelod o staff yn dilyn digwyddiadau trawmatig.</p> <p>Mae Iechyd i Weithwyr Iechyd Proffesiynol wedi cael ei aileni'n 'Canopi' ac mae'n rhoi cymorth iechyd meddwl i staff iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer straen wedi trawma.</p> <p>Mae'r gwaith hwn yn waith parhaus, ac mae'r Cydgysylltydd Cenedlaethol yn cynnal trafodaethau â Choleg Brenhinol y Seiciatryddion ynghylch rheoli trawma mechnïol, ond hefyd ynghylch sut y gallwn baratoi staff ar gyfer cwestau, er enghraifft.</p> <p>Rydym hefyd yn cyfeirio unigolion at yr adnodd First Hand Hafan – First Hand (first-hand.org.uk) sy'n helpu'r rheini yr effeithiwyd arnynt gan hunanladdiad unigolyn nad oeddent yn ei adnabod.</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
		<p>meddygon, sy'n gymwys ym maes iechyd meddygon, cyn cael eu hatgyfeirio am gwnsela wyneb yn wyneb. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys pedair elfen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Linell gymorth, sy'n esbonio beth y gall gwasanaeth HHP ei ddarparu ac yn rhoi manylion cyswllt cynghorydd meddygon i gleientiaid; • Rhwydwaith o gynghorwyr meddygon sy'n ffonio'r cleient o fewn 24 awr er mwyn trafod ei bryderon; • Mynediad i rwydwaith o gwmselwyr sydd wedi'u hachredu gan Gymdeithas Seicotherapiau Ymddygiadol a Gwybyddol Prydain (BABCP); • Mynediad i gymorth clinigol/barn arbenigol i bob meddyg a chwmselydd mewn achosion mwy cymhleth. <p>Cytunwyd y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyllid a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 11 Mawrth 2020 i roi nifer o fesurau ar waith i helpu'r GIG, gwasanaethau cyhoeddus a busnesau i baratoi ar gyfer COVID-19 ac i ymateb iddo. Gofynnwyd am £1m o gyllid ychwanegol ar gyfer 2020-21 er mwyn gwella'r gwasanaethau a ddarperir ac ehangu'r cymorth seicolegol a'r gwasanaethau allgymorth a gynigir <u>i bob rhan o weithlu'r GIG</u>. Cytunwyd ar gyllid ar gyfer 2021-22 hefyd erbyn hyn.</p> <p>Drwy ehangu HHP Cymru, crëwyd gwasanaeth gan ddarparwr sefydledig ar gyfer gweithlu cyfan GIG Cymru sydd wedi profi'n ddibynadwy, yn ymatebol ac yn wasanaeth y gellir ymddiried ynddo. Cynlluniwyd HHP Cymru i weithio ar y cyd â'r gwasanaethau a gynigir gan adrannau iechyd galwedigaethol a'r cymorth sydd ar gael i unigolion drwy eu meddygon teulu a gwasanaethau eraill y GIG, ac i ategu'r gwasanaethau</p>	

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
		<p>hynny. Drwy barhau i weithio'n agos â Straen Trawmatig Cymru (yr aed ati i'w weithredu'n gyflymach hefyd er mwyn cefnogi'r ymateb i COVID-19), bydd HHP Cymru mewn sefyllfa dda i helpu staff y GIG â phroblemau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'u profiadau yn sgil COVID-19, fel anhwylder straen wedi trawma, anhwylder galar estynedig ac anafiadau moesol. Disgwylir hefyd y bydd staff y GIG yn cysylltu â symptomau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig ag effeithiau economaidd ac effeithiau eraill ar deuluoedd.</p>	
18	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod hunanladdiad ymhlith dynion fel blaenoriaeth genedlaethol ac yn dyrannu cyllid priodol i adnabod a gweithredu dulliau newydd o leihau'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl er mwyn annog dynion i siarad amdano a cheisio cymorth. Dylai hyn gynnwys cyfle i gyflwyno prosiectau presennol yn ehangach</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant (2020-21) i gefnogi nifer o brosiectau yn y rhanbarthau sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddynion, er mwyn datblygu ffyrdd o ymgysylltu â grwpiau penodol o ddynion a'u hannog i ofyn am gymorth. Mae'r Cydgysylltydd Cenedlaethol hefyd yn sefydlu fforwm er mwyn dod â'r holl brosiectau ynghyd i ddysgu o arferion da. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae cydgysylltwyr rhanbarthol yn mapio mentrau ym mhob rhan o Gymru i roi adborth ar yr hyn sydd ar gael ac i ystyried unrhyw fylchau canfyddedig yn y maes hwn.</p> <p>Caiff Cymru hefyd ei chynrychioli gan yr Athro Ann John ar Grŵp Cyngori'r Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Hunanladdiad a Diogelwch ym maes Iechyd Meddwl. O dan y trefniadau hyn, mae astudiaeth yn mynd rhagddi ar hyn o bryd i ystyried nodweddion dynion canol oed sy'n marw o ganlyniad i hunanladdiad ac i wneud argymhellion i atgyfnerthu camau gweithredu ataliol. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi yn 2021 a bydd yn llywio ein camau nesaf.</p>	<p>Mae atal hunanladdiad yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a sefydlwyd Grŵp Trawslywodraethol newydd i atgyfnerthu'r dull gweithredu. Rydym hefyd wedi ymrwymo cyllid ychwanegol er mwyn atal hunanladdiad yn 2022-23.</p> <p>Yn ddiweddar, sefydlwyd y system Goruchwyliaeth Amser Real gennym yng Nghymru. Bydd y system hon yn darparu mynediad mwy amserol i wybodaeth am bob achos tebygol o hunanladdiad (gan gynnwys hunanladdiadau ymhlith dynion) er mwyn nodi cyfleoedd atal a sicrhau y caiff cymorth priodol ei roi.</p> <p>Fel rhan o'n rhaglen i adolygu a datblygu strategaeth olynol i Beth am Siarad â Fi, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac yn adolygu'r dystiolaeth er mwyn sicrhau bod camau gweithredu newydd yn seiliedig ar dystiolaeth. O</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
		<p>Mae Grŵp Cyngori Annibynnol yn darparu goruchwyliaeth allanol annibynnol ar gyfer gwaith yr Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Hunanladdiad a Diogelwch ym maes Iechyd Meddwl. Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau rhanddeiliaid allweddol, ac aelod lleyg.</p>	<p>ystyried cyffredinrwydd achosion o hunanladdiad ymhlith dynion canol oed, byddem yn disgwyl i hynny fod yn faes ffocws allweddol.</p> <p>Rydym hefyd yn gweithio gyda'n Cydgysylltydd Hunanladdiad Cenedlaethol i gytuno ar raglen waith er mwyn adolygu tystiolaeth rhaglenni ac ymyriadau atal hunanladdiad sy'n canolbwyntio ar ddynion canol oed.</p> <p>Bydd y gwaith hwn yn parhau fel rhan o drefn 'busnes fel arfer'.</p>
19	<p>Rydym yn cymeradwyo argymhelliad yr adolygiad canol cyfnod o Siarad â fi 2 y dylai gweithredu canllawiau NICE ar hunan-niweidio fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Dylid gweithredu hyn o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn</p>	<p>Mae'r Cydgysylltydd Cenedlaethol yn gweithio ar hyn o bryd gyda Gwelliant Cymru a'r timau Seiciatreg Gyswllt i nodi heriau a chyfleoedd i wella gwasanaethau ym maes gofal eilaidd lle nad yw canllawiau NICE yn cael eu bodloni.</p> <p>Byddwn hefyd yn cydgysylltu â Hwylusydd Gwella NICE i Gymru er mwyn ystyried meysydd eraill y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt er mwyn sicrhau y caiff canllawiau NICE eu rhoi ar waith, er enghraifft gofal sylfaenol.</p>	<p>Cynhaliwyd gweithdy ym mis Chwefror 2022 i godi proffil canllawiau newydd NICE ar gyfer asesu a rheoli achosion o hunan-niwed a oedd yn destun ymgynghoriad ar y pryd.</p> <p>Disgwylir i'r canllawiau gael eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni a chynhelir gweithdy arall bryd hynny i'r rheini a gaiff eu nodi fel asiantaethau allweddol ar gyfer rhoi'r canllawiau ar waith, er mwyn ystyried cyfleoedd a rhwystrau ac er mwyn llywio sut y byddwn yn helpu gweithwyr rheng flaen i weithio yn unol â'r canllawiau.</p>
21	<p>Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith presennol gyda CCAUC ac y dylai ddisgwyl i ddarparwyr</p>	<p>Mae'r Gweinidog Addysg wedi cyflwyno cylch gwaith i CCAUC weithio gyda phartneriaid yn y sector AU i ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr. Roedd hyn yn cynnwys dyrannu £3.5m i CCAUC yn 2019 i</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid, yn parhau i flaenoriaethu'r maes gwaith hwn ac mae wedi neilltuo £2m arall ar gyfer iechyd meddwl a lles fel rhan</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
	<p>addysg bellach ac uwch yng Nghymru gyflwyno Siarter Iechyd Meddwl Myfyrwyr. Dylid gwneud y gwaith hwn mewn pryd ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd 2019-20 i sicrhau bod myfyrwyr yng Nghymru yn cael budd o'r gwaith cyn gynted â phosibl.</p>	<p>gefnogi llesiant ac iechyd yn y sector addysg uwch, gan gynnwys iechyd meddwl myfyrwyr.</p> <p>Gweithiodd CCAUC gyda phrifysgolion yng Nghymru a myfyrwyr i ddatblygu dull strategol o ymdrin â llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, ledled Cymru. Ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddodd CCAUC ei Ddatganiad Polisi Llesiant ac Iechyd, lle mae'n ymrwymo i sicrhau bod darparwyr ledled Cymru yn ymrwymedig i lesiant ac iechyd, gan gynnwys drwy gefnogi Siarteri Myfyrwyr, #stepchange ['Step Change: mentally healthy universities' bellach] a 'Suicide-safer Universities'.</p> <p>Yn 2019, cyhoeddodd CCAUC hefyd ganllawiau diwygiedig ar Siarteri Myfyrwyr. Roedd hyn yn cynnwys ychwanegu gofyniad i gynnwys datganiad o ymrwymiad i gefnogi llesiant myfyrwyr, gan gynnwys iechyd meddwl, a chyfeiriadau at adnoddau llesiant ac iechyd cysylltiedig, gan gynnwys iechyd meddwl.</p> <p>Yn 2020, gofynnodd CCAUC i brifysgolion gyflwyno strategaethau llesiant ac iechyd. Bydd CCAUC yn monitro'r broses o roi'r strategaethau ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n addas at y diben.</p> <p>Mae'r Cydgysylltydd Cenedlaethol ar gyfer Hunanladdiad a Hunan-niwed hefyd yn gweithio gyda'r rhwydwaith cenedlaethol o Swyddogion Lles ar gyfer colegau Addysg Bellach, i drafod eu profiadau o reoli syniadaeth ynghylch hunanladdiad a hunan-niweidio ac mae'n gweithio gyda nhw i ddatblygu polisiau. Crëwyd cysylltiadau tebyg â SAUau a'r rhwydwaith cenedlaethol</p>	<p>o gymorth grant CCAUC ar gyfer 2022-23, gan gynnal lefel cyllid blynyddoedd blaenorol.</p> <p>Bydd y gwaith hwn yn parhau fel rhan o drefn 'busnes fel arfer'.</p> <p>Felly, ystyriir bod yr argymhelliad hwn bellach wedi'i gwblhau.</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
		o Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Myfyrwyr. Ystyrir bod yr argymhelliad hwn bellach wedi'i gwblhau.	
22	<p>Rydym yn argymhell bod staff perthnasol yn Llywodraeth Cymru ac mewn asiantaethau eraill yn cael hyfforddiant priodol, megis pecyn cymorth "Gweithio gyda thosturi" y Samariaid, i ddangos mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r risgiau uwch o hunanladdiad sy'n gysylltiedig â chymunedau gwledig, yn enwedig ymhlith ffermwyr a'u teuluoedd. Byddai hyn yn eu galluogi i ymateb yn dosturiol wrth ymdrin â theuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth, ac yn hybu gwell dealltwriaeth o'r anawsterau y gall teuluoedd yn y sefyllfa hon eu hwynebu nid dim ond o ran cynnal eu busnes ffermio o ddydd i ddydd, ond hefyd o ran cyrraedd terfynau amser sy'n gysylltiedig â phrosesau ffermio Llywodraeth Cymru. Byddem yn annog staff perthnasol yn y Llywodraeth i ddefnyddio'u disgrisiwn i liniaru straen ar deuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth, er enghraifft drwy ohirio arolygiadau fferm dan amgylchiadau priodol</p>	<p>Rydym yn rhoi amrywiaeth o ddulliau gweithredu ar waith, gan gynnwys negeseuon i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd a gwella'r wybodaeth sydd ar gael ar wefannau byrddau iechyd. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r trydydd sector i sicrhau y caiff gwybodaeth am iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl ei rhannu'n eang.</p> <p>Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn amrywiaeth o gymorth y mae'n hawdd cael gafael arno – ar-lein a thros y ffôn. Mae rhywfaint o'r cymorth hwn hefyd ar gael 24/7 er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael ar unrhyw adeg. Roedd y trefniadau ar gyfer cyflwyno Therapi Gwybyddol Ymddygiadol ar-lein yng Nghymru yn seiliedig ar gynllun peilot llwyddiannus gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys sy'n cynnwys rhai o'n cymunedau mwyaf gwledig yng Nghymru. Mae Powys hefyd yn gweithio i ddatblygu gwasanaethau wedi'u harwain gan wybodaeth er mwyn atal hunanladdiad a hunan-niwed, gan gynnwys llwybrau cymorth i'r rheini sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad. Mae gwaith coladu a dadansoddi data yn mynd rhagddo i ddeall a oes unrhyw dueddiadau o fewn demograffeg/cymunedau penodol ym Mhowys; i fapio a chau'r bylchau o ran y gwasanaethau a ddarperir ac, yn y pen draw, i dargedu anghenion a nodir a gwneud yn siŵr bod llwybrau clir ar waith fel ffordd o sicrhau ymyriadau a champau atal cynnar. Mae'r gwaith hwn hefyd yn gysylltiedig â ffocws ar Gamddefnyddio Sylweddau "Lleihau Niwed", yn enwedig mewn perthynas â Marwolaethau sy'n gysylltiedig â Chyffuriau</p>	<p>Mae'r gwaith hwn yn waith parhaus a bydd yn parhau fel rhan o drefn 'busnes fel arfer'.</p> <p>Felly, ystyrir bod yr argymhelliad hwn bellach wedi'i gwblhau.</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
		<p>a bydd yn helpu i roi ymatebion priodol ar waith mewn perthynas ag argyfyngau personol, ymyriadau cynnar a rheoli achosion o hunan-niwed.</p> <p>Rydym hefyd yn ymwybodol o ffynonellau cymorth eraill, er enghraifft, FarmWell Cymru; hwb gwybodaeth ar-lein a gaiff ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Bontio'r UE Llywodraeth Cymru sydd ar gael i ffermwyr ledled Cymru ac sy'n anelu at roi'r wybodaeth a'r manylion diweddaraf i ffermwyr am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael. Caiff yr adnoddau hyn eu hyrwyddo'n weithredol gan randdeiliaid sydd wedi rhoi adborth cadarnhaol ar y fenter.</p> <p>Rydym hefyd wedi sicrhau y ceir cyfeiriadau effeithiol at gymorth iechyd meddwl a llesiant i deuluoedd sy'n ffermio ar wefan Llywodraeth Cymru, er mwyn i bobl wybod ble i gael gafael ar gymorth.</p> <p>Mae Staff Cyswllt Fferm Llywodraeth Cymru a staff rheng flaen Cyswllt Ffermio wedi cwblhau hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a ddarparwyd gan Sefydliad DPJ ac a oedd wedi'i deilwra at y diwydiant ffermio. Yn ogystal, mae swyddogion ymweld Taliadau Gwledig Cymru wedi cael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ac mae rheolwyr hefyd wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol ar-lein mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o iechyd meddwl gyda Sefydliad DPJ.</p>	
23	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyddrafod â'r Swyddfa Gartref mewn	Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yng Nghymru wedi bod yn gweithio gyda byrddau iechyd i	Mae'r canllawiau diwygiedig wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Byrddau Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
	perthynas ag adolygu'r broses ar gyfer asesu a rheoli'r risg o gyflawni hunanladdiad a hunan-niwed ymhlith carcharorion er mwyn sicrhau ei bod yn ddigon cadarn i adnabod y rhai sydd mewn perygl a'i bod yn rhoi'r cymorth cywir i'r rhai sy'n cael eu rheoli drwy'r broses	ddiwygio'r broses Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT) ar gyfer rheoli achosion pobl y mae risg y byddant yn cyflawni hunanladdiad ac yn hunan-niwedio mewn carchardai. Cynhaliodd HMPPS gynllun peilot o fersiwn ddiwygiedig o ACCT, gan gynnwys HMP Abertawe, rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2019. Mae'r canllawiau diwygiedig bellach wedi'u cwblhau a chânt eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Fyrddau Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai cyn iddynt gael eu rhoi ar waith yng Nghymru.	Carchardai. Felly ystyrir bod yr argymhelliad hwn wedi'i gwblhau.
24	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr argymhellion yn Cadernid Meddwl gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cael eu rhoi ar waith er mwyn gwella a diogelu iechyd a lles meddyliol plant a phobl ifanc yng Nghymru. O ran hunanladdiad yn benodol, rydym yn argymhell y dylai'r argymhelliad yn Cadernid Meddwl ynghylch canllawiau i ysgolion (argymhelliad 16 yn yr adroddiad) gael ei roi ar waith fel un o'r blaenoriaethau pennaf: Bod Llywodraeth Cymru, mewn perthynas â hunanladdiad yn benodol, yn gweithio gyda sefydliadau arbenigol: <ul style="list-style-type: none"> ▪ i ddarparu, o fewn tri mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, ganllawiau i ysgolion ynghylch siarad am 	Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad llawn ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas ag argymhellion Cadernid Meddwl ym mis Chwefror 2020 , gan gynnwys cadarnhad bod Canllawiau: <u>ymateb i faterion hunan-niwedio a theimladau hunanladdol ymhlith pobl ifanc</u> wedi'u cyhoeddi ym mis Medi 2019 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant (2020-21) yn rhanbarth y Canolbarth/Gorllewin i gyflwyno hyfforddiant ar hunan-anafu nad yw'n hunanladdol (NSSI) i bobl sy'n gweithio gyda phobl ifanc, sy'n cynnwys hyrwyddo'r canllawiau cyhoeddedig. Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei adroddiad Cadernid Meddwl: ddwy flynedd yn ddiweddarach. Tynnodd sylw at y cynnydd a wnaed, yn enwedig ym maes addysg, wrth ymdrin â'r materion a'r argymhellion a gynhwyswyd yn yr adroddiad Cadernid Meddwl gwreiddiol. Nododd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad dilynol (2 Rhagfyr 2020), o ystyried y cynnydd a wnaed hyd yn hyn ar lawer o argymhellion Cadernid Meddwl, ein bod	Cyflwynir adroddiadau ar weithgareddau pellach mewn ymateb i'r cam gweithredu hwn fel rhan o ddiweddariadau yn erbyn argymhellion Cadernid Meddwl.

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
	<p>hunanladdiad a hunan-niweidio, i chwalu'r syniad y bydd unrhyw drafodaeth yn arwain at ymateb 'heintus';</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ i roi blaenoriaeth i ddarparu canllawiau i ysgolion lle bu hunanladdiad neu amheuaeth o hunanladdiad; ac ▪ yn sicrhau bod hyfforddiant iechyd meddwl sylfaenol, gan gynnwys sut i siarad am hunanladdiad, yn rhan o hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus, fel bod yr holl athrawon yn gallu siarad am hynny 	<p>eisoes wedi cytuno i adolygu aelodaeth ac ehangu cwrpas y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-Weinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol er mwyn creu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol 'System Gyfan' i lywio cynnydd yn ystod gweddill tymor y Senedd hon. Er y bydd y ffocws ar blant oedran ysgol o hyd, mae'r dull system gyfan yn adlewyrchu gwaith cyfredol y grŵp yn well ac yn ei alluogi i ddarparu arweinyddiaeth ac i ehangu ar draws y meysydd perthnasol ychwanegol. Yn arbennig, camau gweithredu o dan arweiniad iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r grŵp wedi bod yn cyfarfod bob mis ers dechrau'r flwyddyn, a chynhelir y cyfarfod olaf ar 22 Mawrth cyn etholiadau'r Senedd.</p> <p>Mewn perthynas â chanllawiau i ysgolion ar hunanladdiad a hunan-niweidio, gall pobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc bellach gyfeirio at y canllawiau 'Ymateb i Faterion Hunan-niweidio a Theimladau Hunanladdol ymhlith Pobl Ifanc' a gyhoeddwyd ar 10 Medi 2019. Mae'r ddogfen ar gael ar-lein ac mae copïau caled ar gael i ysgolion a gwasanaethau ieuenctid. Nod y canllawiau yw helpu pobl sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â phlant a phobl ifanc, gan roi cyngor ymarferol iddynt o ran beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon neu os byddant yn wynebu achos o hunan-niwed neu hunanladdiad. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gweithgarwch pellach, a ddatblygwyd gan Brifysgol Abertawe ac a gydgyhyrchwyd â phobl ifanc. Mae'r gweithgarwch hwn yn anelu at ymdrin â'r cysylltiad rhwng bwlio ar-lein ac ymddygiad hunanladdol a hunananafol a bydd</p>	

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
		<p>yn meithrin gwell dealltwriaeth o'r hyn y dylid ei wneud pan fyddant yn dod ar draws achosion o'r fath.</p> <p>Fel rhan o'n dull ysgol gyfan, rydym hefyd wedi datblygu canllawiau fframwaith newydd i ysgolion. Cynlluniwyd y canllawiau er mwyn helpu ysgolion i ddatblygu a chreu dulliau ysgol gyfan cyson a theg er mwyn diwallu anghenion llesiant eu dysgwyr. Rydym wedi neilltuo £9m yn ein cyllideb ar gyfer 2021-22 i gefnogi'r gwaith hwn.</p>	
26	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r asiantaeth fwyaf priodol i adnabod lleoliadau hunanladdiad hysbys ac yn gosod arwyddion yn yr ardaloedd hynny i annog pobl i ofyn am help</p>	<p>Ers cyhoeddi'r ymchwiliad hwn, rydym wedi buddsoddi yn y seilwaith cenedlaethol a'r seilwaith rhanbarthol. Rydym bellach yn sefydlu fforymau ar lefel ranbarthol ac mae grwpiau amlasiantaeth lleol yn ymateb i themâu a nodir. Mae'r gwaith hwn wedi dangos na fyddai bob amser yn briodol i un asiantaeth ymateb gan fod angen i ni sicrhau y gallwn ymateb mewn ffordd hyblyg.</p>	<p>Mae gwaith yn mynd rhagddo drwy'r cydgysylltwyr rhanbarthol a'r Grŵp Trawslywodraethol ar Atal Hunanladdiad i nodi safleoedd allweddol, ac maent yn gweithio gyda chydweithwyr perthnasol y maes trafnidiaeth, y Samariaid, Network Rail, yr Awdurdod Camlesi, yr heddlu ac ymatebwyr cyntaf eraill fel y bo angen ar sail safleoedd unigol.</p> <p>Bydd y System Goruchwyliaeth Amser Real newydd hefyd yn darparu mynediad mwy amserol i wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth leol am y digwyddiad er mwyn llywio gweithgareddau ataliol yn y dyfodol.</p> <p>Bydd y gwaith hwn yn parhau fel rhan o drefn 'busnes fel arfer' a chaiff gweithgareddau pellach eu cynnwys fel rhan o'r diweddariadau rheolaidd i Gydgyssylltwyr Cenedlaethol sydd ar gael i randdeiliaid.</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
			Felly, ystyrir bod yr argymhelliad hwn bellach wedi'i gwblhau.
27	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio pa drefniadau ffurfiol y gellid eu rhoi ar waith i hyrwyddo a monitro dilyn y canllawiau, o ystyried yr effaith negyddol y mae adroddiadau anghyfrifol am hunanladdiad yn gallu ei chael. Dylai hyn gynnwys ystyried trefniadau sydd ar waith mewn mannau eraill, gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon	Mae'r Samariaid a Sefydliad Annibynnol Safonau'r Wasg (IPSO) yn parhau i ddatblygu a chyhoeddi canllawiau i'r cyfryngau, ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r ddau fel rhanddeiliaid allweddol.	<p>Mae Cydgysylltwyr Rhanbarthol yn anfon adroddiadau am bryderon at swyddog y wasg y Samariaid yng Nghymru ac at yr Athro Ann John, er mwyn sicrhau y gellir ymateb mewn ffordd gydgysylltiedig a phriodol.</p> <p>Bydd y gwaith hwn yn parhau fel rhan o drefn 'busnes fel arfer' a chaiff gweithgareddau pellach eu cynnwys fel rhan o'r diweddariadau rheolaidd i Gydgyssylltwyr Cenedlaethol sydd ar gael i randdeiliaid.</p> <p>Felly, ystyrir bod yr argymhelliad hwn bellach wedi'i gwblhau.</p>
28	Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â phrifysgolion, y Samariaid a phartion perthnasol eraill megis Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr a chyhoeddwy i archwilio sut y gallai hyfforddiant i newyddiadurwyr yn y brifysgol, drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus neu hyfforddiant yn y swydd gynnwys pwysigrwydd dilyn y canllawiau		<p>Mae'r canllawiau profedigaeth cenedlaethol newydd yn cynnwys gwybodaeth benodol ar gyfer asiantaethau 'mannau cyswllt' a all effeithio ar daith brofedigaeth unigolyn. Mae hyn yn cynnwys sylw yn y cyfryngau ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ymgysylltu â phrifysgolion fel rhan o'r broses o roi'r canllawiau ar waith.</p> <p>Felly, ystyrir bod yr argymhelliad hwn wedi'i gwblhau.</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
	ar adrodd am hunanladdiad a hybu dealltwriaeth o effaith negyddol adroddiadau anghyfrifol		
29	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ei Phapur Gwyrdd ar Strategaeth Diogelwch y Rhyngwlad i sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cymryd i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein. Hefyd, rydym yn awyddus i weld y potensial i'r cyfryngau cymdeithasol gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles meddyliol pobl yn cael ei gynyddu i'r eithaf. Credwn y dylid ymchwilio i'r holl gyfleoedd i hybu iechyd meddwl da drwy safleoedd y cyfryngau cymdeithasol/gwefannau, er enghraifft drwy fynd ati'n fwy gweithredol i hyrwyddo ffynonellau cymorth	<p>Cydgysylltodd Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chyhoeddi'r Papur Gwyrdd.</p> <p>Rydym yn parhau i edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau digidol i godi ymwybyddiaeth o gymorth a rhoddwyd sylw penodol i hyn yn ystod COVID-19, ac rydym yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar yr ymgyrch <i>Sut wyt ti?</i> i hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol ac i gyfeirio at gymorth.</p>	<p>Bydd y Grŵp Trawslywodraethol ar Atal Hunanladdiad yn cynnwys diogelwch digidol ac ar-lein fel elfen o'r rhaglen waith ehangach gan gynnwys nodi cyfleoedd sy'n deillio o'r Bil Diogelwch Ar-lein. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystyried effaith lawn y Bil yng Nghymru ac ym mhob maes polisi y gall y Bil ddylanwadu arno ar hyn o bryd.</p> <p>Bydd y gwaith hwn yn parhau fel rhan o drefn 'busnes fel arfer' a chaiff gweithgareddau pellach eu cynnwys fel rhan o'r diweddariadau rheolaidd i Gydgysylltwyr Cenedlaethol sydd ar gael i randdeiliaid.</p> <p>Felly, ystyrir bod yr argymhelliad hwn bellach wedi'i gwblhau.</p>
30	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru / y Grŵp Cynghori Cenedlaethol yn rhoi arweiniad clir i'r fforymau rhanbarthol i sicrhau dull cyson o ran eu haelodaeth, eu strwythur a'u trefniadau adrodd. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro	Nawr bod y Cydgysylltwyr Cenedlaethol a Rhanbarthol wedi'u penodi, byddwn yn adolygu'r fforymau rhanbarthol, gan gynnwys aelodaeth a strwythurau llywodraethu. Gwneir y gwaith hwn yng nghyd-destun y Bwrdd Cyflawni a Goruchwyllo Gweinidogol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl i Gymru yr wyf newydd ei sefydlu. Un o swyddogaethau allweddol y bwrdd yw sicrhau bod y ffrydiau gwaith allweddol sy'n rhan o'r	Cafodd y tri fforwm rhanbarthol eu cefnogi a'u hatgyfnerthu drwy benodi'r cydgysylltwyr rhanbarthol. Mae gan ddau o'r tri fforwm Gadeirydd newydd, a threfnwyd gweithdai datblygedig yn ystod Ch4 (2021/22) er mwyn helpu'r fforymau i adolygu eu strategaethau a'u cynlluniau gweithredu presennol.

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
	<p>effeithiolrwydd y fforymau rhanbarthol i sicrhau eu bod yn cyflawni canlyniadau cynaliadwy a chyson ledled Cymru, a darparu diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor</p>	<p>rhaglen waith iechyd meddwl yn atebol a rhoi sicrwydd y byddant yn cyflawni. Mae'r rhaglen hunanladdiad a hunan-niweidio yn un o'r ffrydiau gwaith a fydd yn adrodd i'r bwrdd. Cyfarfu'r bwrdd am y tro cyntaf ym mis Chwefror a bydd yn cyfarfod eto ar 24 Mawrth.</p>	<p>Mae'r fforymau hyn bellach yn rhannu templed cyffredin ar gyfer eu cylchoedd gorchwyl a byddant yn derbyn lefelau priodol o ddata o'r system goruchwyliaeth amser real ar gyfer eu cyfarfodydd chwarterol.</p> <p>Bydd y gwaith hwn yn parhau fel rhan o drefn 'busnes fel arfer' a chaiff gweithgareddau pellach eu cynnwys fel rhan o'r diweddariadau rheolaidd i Gydgyssylltwyr Cenedlaethol sydd ar gael i randdeiliaid. Bydd y Grŵp Trawslywodraethol ar Atal Hunanladdiad hefyd yn cael gwybodaeth reolaidd am y gwaith hwn.</p> <p>Felly, ystyrir bod yr argymhelliad hwn bellach wedi'i gwblhau.</p>
31	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru / cyrff cyhoeddus eraill (BILlau / ALLau) yn trefnu bod cyllid penodol ar gael ar gyfer atal hunanladdiad i sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Grŵp Cyngori Cenedlaethol i ganfod faint o gyllid sydd ei angen i sicrhau'r cynaliadwyedd hwn, a chlustnodi'r swm priodol</p>	<p>Mae'r Cydgysylltydd Cenedlaethol a'r tîm cydgysylltwyr yn ystyried sut y gellir integreiddio dulliau atal hunanladdiad yn well a'u cynnwys wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar draws adrannau'r bwrdd/llywodraeth; sut y gellir nodi hyn yn fwy amlwg mewn polisiau/strategaethau.</p> <p>Yn y cyfamser, rydym wedi darparu cyllid sbarduno i fforymau rhanbarthol er mwyn rhoi dulliau gweithredu lleol ar waith yn eu hardaloedd, ond ni ddylid ystyried y cyllid hwn ar ei ben ei hun, fel y nodwyd yn y llythyr esboniadol.</p>	<p>Sefydlwyd Grŵp Strategol Trawslywodraethol newydd ar Atal Hunanladdiad er mwyn atgyfnerthu trefniadau rheoli rhaglen y rhaglen waith atal hunanladdiad. Bydd hyn yn cynnwys annog gwaith ym mhob rhan o'r Llywodraeth a blaenoriaethu buddsoddiadau er mwyn cefnogi'r dull gweithredu hwn.</p> <p>Dyrannwyd cyllid cylchol ychwanegol i'r rhaglen waith atal hunanladdiad yn 2022/23. Yn arbennig, bydd y cyllid newydd yn cefnogi'r System Goruchwyliaeth Hunanladdiad Amser Real newydd yng Nghymru a lanswyd ym mis Ebrill 2022 ac</p>

	Argymhelliad	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Chwefror 2021	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Awst 2022
			<p>yn gwella cymorth profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad.</p> <p>Yn ogystal, mae'r broses ehangach o drawsnewid gwasanaethau yn canolbwyntio ar atal hunanladdiad – er enghraifft, y gwaith i wella gofal argyfwng a'r trefniadau ar gyfer sefydlu pwyntiau cyswllt unigol ar gyfer iechyd meddwl fel rhan o'r gwasanaeth 111.</p> <p>Mae gwerthusiad allanol yn cael ei gynnal o Beth am Siarad â Fi ar hyn o bryd a bydd canfyddiadau'r gwerthusiad hwnnw yn llywio unrhyw gamau nesaf priodol.</p>

Argymhellion yr ystyrir eu bod wedi'u cwblhau

3	Rydym yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnig hyfforddiant ar atal hunanladdiad i Aelodau'r Cynulliad, Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad, staff y Comisiwn a chontractwyr.	<p>Bydd angen i Gomisiwn y Cynulliad roi diweddariad ar wahân ar weithredu'r argymhelliad.</p> <p>Mae Cyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol (Adran y Gweithlu) Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r darpariaethau sydd ar gael i staff mewn perthynas â</p>	Argymhelliad wedi'i gwblhau.
---	--	---	------------------------------

	<p>Yn ogystal â pharatoi Aelodau a staff y Cynulliad i ymateb yn briodol, rydym yn gobeithio y bydd hyn yn dangos esiampl i gyflogwyr eraill, a byddem yn erfyn ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo hyfforddiant ar atal hunanladdiad ymhlith ei holl staff</p>	<p>chymorth ac wedi atgyfnerthu'r hyn a gynigir. Yn ehangach, mae gan Lywodraeth Cymru Strategaeth Iechyd a Lles weithredol sy'n cynnwys iechyd meddwl a lles. Mae ar gael ar fewnwyd y staff. Mae'r Strategaeth Iechyd a Lles, y Pecyn Cymorth, y Polisi Addasiadau Rhesymol a'r hyfforddiant yn ymdrin ag iechyd meddwl. Ymdrinnir ag iechyd meddwl hefyd yn yr hyfforddiant Hyderus o ran Anabledd i'r Uwch Wasanaeth Sifil a rheolwyr llinell. Mae proses rheoli perfformiad 'Dewch i Draffod' yn cynnwys sgysiau am iechyd meddwl a lles. Atgyfnerthwyd deunyddiau cymorth ac adnoddau drwy gydol 2020-21, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyfforddiant a ddarperir gan Able Futures sy'n ymdrin â galluogrwydd rheolwyr canol i gynnal sgysiau sensitif ac i roi cymorth i staff sy'n dioddef salwch meddwl; cymorth gan gymheiriaid; a sut y gallwn ofalu am ein hiechyd meddwl ein hunain; • Rhestr chwarae o adnoddau helaeth ar gael ar Lab Dysgu Llywodraeth Cymru; • Disgwylir i'r broses o recriwtio carfanau o Gynghreiriaid Iechyd Meddwl a Mentoriaid Parch ddechrau diwedd mis Mawrth 2021; • Caiff cymorth iechyd meddwl wedi'i deilwra'n arbennig ei roi i feysydd busnes penodol gan ddarparwr y Rhaglen Cymorth i Weithwyr a'r adran Adnoddau Dynol. <p>Ystyrir bod y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau.</p>	
7	<p>Rydym yn argymhell y dylid gwerthuso effeithiolrwydd y llwybr atgyfeirio brys ar gyfer</p>	<p>Fel y nodwyd yn ein hymateb gwreiddiol, mae safonau eisoes ar waith sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gyflawni amseroedd targed o'r adeg atgyfeirio i'r</p>	<p>Argymhelliad wedi'i gwblhau.</p>

	<p>Meddygon Teulu a roddwyd ar waith gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda gyda'r bwriad o gyflwyno'r dull hwn ar draws yr holl fyrddau iechyd yng Nghymru</p>	<p>adeg asesu. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru 'The Role of Community Mental Health Teams in Delivering Community Mental Health Services: Interim Policy Implementation Guidance and Standards (2010)' yn cynnwys y disgwyliad y caiff pobl a gaiff eu hatgyfeirio fel argyfwng eu hasesu o fewn 2-4 awr, atgyfeiriadau brys o fewn 48 awr, ac atgyfeiriadau cyffredin o fewn 28 diwrnod yn unol â Mesur Iechyd Meddwl Cymru (2010). Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi cadarnhau nad oes ganddo brotocol sy'n wahanol i'r disgwyliadau sy'n bodoli eisoes ynghylch atgyfeiriadau gan feddygon teulu i Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol ledled Cymru ac felly, ystyrir bod yr argymhelliad hwn wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, dylid nodi bod trefniadau i ddiweddarau'r canllawiau hyn wedi'u cynnwys yn rhaglen waith y Rhwydwaith Iechyd Meddwl yn 2021/22.</p> <p>Ystyrir bod y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gau.</p>	
20	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei strategaeth unigrwydd arfaethedig yn atgyfnerthu'r neges y dylai unigrwydd ac unigedd fod yn ystyriaethau canolog pan wneir penderfyniadau ynghylch cyllidebau a pholisïau</p>	<p>Cyhoeddwyd y strategaeth ym mis Chwefror 2020. Ceir adran yn y ddogfen sy'n ymdrin yn benodol ag iechyd meddwl ac atal hunanladdiad a cheir nifer o gyfeiriadau drwy gydol y ddogfen at sicrhau yr ystyrir unigrwydd mewn penderfyniadau ar bolisi a chyllid. Ystyrir bod yr argymhelliad hwn wedi'i gwblhau.</p>	<p>Argymhelliad wedi'i gwblhau.</p>
25	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at bob awdurdod cynllunio yng Nghymru i bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod yr holl strwythurau newydd yn cynnwys mesurau i'w hatal</p>	<p>Llythyr a gyhoeddwyd ar LLYW.CYMRU mesurau atal hunanladdiad wrth ddylunio a chynllunio adeiladau (Ebrill 2019).</p> <p>Felly ystyrir bod yr argymhelliad hwn wedi'i gwblhau.</p>	<p>Argymhelliad wedi'i gwblhau</p>

	rhag cael eu defnyddio i gyflawni hunanladdiad		
--	--	--	--

—
**Health and Social Care
Committee**

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Seneddlechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

08 Gorffennaf 2022


Annwyl Eluned

Gwaith dilynol ar argymhellion Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd:
Hepatitis C: Cynnydd tuag at ei ddileu yng Nghymru

Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd yr adroddiad a ganlyn: [Hepatitis C: Cynnydd tuag at ei ddileu yng Nghymru](#). Yn ein cyfarfod ar 4 Mai, gwnaethom gytuno i ysgrifennu atoch i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor a'n rhagflaenodd.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r materion a godir yn yr atodiad erbyn **1 Medi 2022**.

Yn gywir,



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Atodiad: argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd yn yr adroddiad a ganlyn: Hepatitis C: Cynnydd tuag at ei ddileu yng Nghymru

Cefndir

Roedd Hepatitis C yn destun ymchwiliad byr, penodol a gynhaliwyd gan Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd ym mis Mehefin 2019. Un o'r prif gymhellion a sbardunodd yr ymchwiliad hwn oedd ceisio deall yn well pa mor debygol yw hi y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni targedau Sefydliad Iechyd y Byd yn y maes hwn, sef sicrhau gostyngiad o 90 y cant yn nifer yr achosion o hepatitis feirysol, a gostyngiad o 65 y cant mewn marwolaethau oherwydd hepatitis B a C erbyn 2030.

Yn ei adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor bedwar argymhelliad a oedd yn ymwneud â materion amrywiol, gan gynnwys: strategaeth ddileu genedlaethol, gynhwysfawr ar gyfer Hepatitis C; cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth wedi'i thargedu a darparu hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol; ysgrifennu at Gyfarwyddwyr Cyllid a Phrif Weithredwyr y byrddau iechyd mewn perthynas â thargedau; a darparu buddsoddiad ychwanegol er mwyn gwella'r profion am Hepatitis C mewn carchardai yng Nghymru.

Ym mis Awst 2019, derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad 3, a derbyniodd argymhellion 1, 2 a 4 mewn egwyddor.

Ymatebodd yr Ymddiriedolaeth Hepatitis C i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gennym ar ein blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd (a ddaeth i ben ym mis Medi 2021). Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym mai ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud ar argymhellion y Pwyllgor blaenorol, gan nodi bod effeithiau COVID-19 wedi atal ymhellach y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at ddileu'r feirws. Dywedodd hefyd fod gwasanaethau hepatitis C yng Nghymru wedi cael eu heffeithio'n fwy na'r gwasanaethau a ddarperir yng ngwledydd eraill y DU yn ystod y pandemig:

"While treatment rates fell markedly in all nations in the immediate wake of the first wave, by July 2020 treatment initiations in England were 42% lower than the previous year. By contrast, by August 2020 treatment initiations in Wales were still 71% lower than the year before".

Cyfeiriodd yr Ymddiriedolaeth at y Strategaeth Adfer ar gyfer Feirysau a Gludir yn y Gwaed sy'n cael ei datblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nododd hefyd mai Cymru bellach yw'r unig wlad yn y DU nad oes ganddi darged i ddileu hepatitis C cyn targed Sefydliad Iechyd y Byd yn 2030. Mae Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi gosod uchelgais i ddileu'r feirws erbyn 2025, ac mae'r Alban wedi pennu targed mwy uchelgeisiol fyth, sef dileu'r feirws erbyn 2024.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r materion a godir isod erbyn **1 Medi 2022**.



1. A wnewch chi ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o weithredu pob argymhelliad, gan gynnwys y camau a gymerwyd, unrhyw gamau arfaethedig, a, lle bo'n briodol, manylion ynghylch yr adnoddau cysylltiedig a'r amserlenni arfaethedig, a manylion ynghylch sut y mae effaith a chanlyniadau'r camau gweithredu a'r gwariant yn cael eu gwerthuso a'u mesur (neu sut y bydd hynny'n digwydd)?

Materion eraill

2. A wnewch chi ddarparu gwybodaeth a data ynghylch y triniaethau a ddechreuwyd ers 2020?
3. A wnewch chi ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Adfer ar gyfer Feirysau a Gludir yn y Gwaed ac unrhyw gymorth ehangach a ddarperir gan Lywodraeth Cymru?
4. A wnewch chi gadarnhau targed Llywodraeth Cymru ar gyfer dileu'r feirws (ac a oes ganddi unrhyw gynlluniau i bennu targed mwy uchelgeisiol, yn unol â'r gwledydd eraill)? Hefyd, a wnewch chi gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn hyderus y bydd yn cyflawni ei tharged?



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru

30 Awst 2022

Annwyl Russell,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Gorffennaf 2022 ynglŷn â chynnydd tuag at ddileu hepatitis C yng Nghymru.

Mae'r ddogfen sydd wedi'i hatodi yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag argymhellion adroddiad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd ar gynnydd tuag at ddileu hepatitis C, yn ogystal ag ymatebion i'r materion penodol eraill a godwyd gennych.

Diolch i chi a gweddill y Pwyllgor am eich diddordeb parhaus yn y mater pwysig hwn.

Yn gywir,

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i gais y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am ddiweddariad ar y cynnydd tuag at ddileu hepatitis C yng Nghymru

- 1. A wnewch chi ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o weithredu pob argymhelliad, gan gynnwys y camau a gymerwyd, unrhyw gamau arfaethedig, a, lle bo'n briodol, manylion ynghylch yr adnoddau cysylltiedig a'r amserlenni arfaethedig, a manylion ynghylch sut y mae effaith a chanlyniadau'r camau gweithredu a'r gwariant yn cael eu gwerthuso a'u mesur (neu sut y bydd hynny'n digwydd)?**

***Argymhelliad 1.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn creu strategaeth ddileu genedlaethol, gynhwysfawr ar gyfer Hepatitis C. Dylai'r strategaeth honno gynnwys targedau uchelgeisiol clir, a dylai hefyd gynllunio ar gyfer y gweithlu. Dylid darparu cyllid cynaliadwy hyd nes y caiff yr haint ei ddileu. Rhaid gwneud hyn yn ddiymdroi, o gofio y bydd y cynllun presennol yn dod i ben eleni, ac mai dim ond tan 2021 y mae cyllid wedi'i gadarnhau ar gyfer swyddi penodol.*

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynhyrchu Cylchlythyrau Iechyd Cymru cyfnodol ar gyfer GIG Cymru yn amlinellu cynnydd ac yn amlygu camau gweithredu penodol y mae eu hangen i ddileu hepatitis C erbyn 2030 fan bellaf. Gwnaethom ddatgan y byddai perfformiad yn erbyn y gofynion hyn (gan gynnwys targedau) yn cael ei archwilio a'i fonitro gan drefniadau rheoli perfformiad presennol y GIG. Mae'r ymateb i'r pandemig wedi bod yn brif flaenoriaeth inni ac yn naturiol, roedd rhaid ailgyfeirio adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru ac o fewn ein GIG. Rwy'n cydnabod yr angen i ailfywiogi'r ymgyrch i ddileu hepatitis C wrth i'n gwasanaethau adfer ac addasu i ymateb i'r heriau a wynebir wedi dwy flynedd o'r pandemig.

Ein bwriad yw nodi ein disgwyliadau gan gynnwys targedau a champau gweithredu sy'n flaenoriaeth i'r GIG a'r Byrddau Cynllunio Ardal mewn cyfathrebiadau yr hydref hwn. Bydd y cyllid canolog sydd ar gael i gefnogi'r ymgyrch i ddileu hepatitis C yn cael ei nodi'n glir.

***Argymhelliad 2.** Rhaid i'r strategaeth gynnwys ymgyrch codi ymwybyddiaeth wedi'i thargedu er mwyn cyrraedd cymunedau sy'n wynebu risg, ynghyd â darparu ar gyfer rhoi addysg a hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol.*

Rydym yn llwyr dderbyn bod buddsoddi mewn gwasanaethau allgymorth sefydlog ac effeithiol er mwyn ymgysylltu ag unigolion nad ydynt ar hyn o bryd mewn cysylltiad â gwasanaethau traddodiadol yn hanfodol i sicrhau cynnydd. Roedd ein hymdrechion helaeth i ddiogelu pobl ddigartref a'r rhai sy'n cysgu allan yn ystod pandemig y coronafeirws yn cynnwys gwaith wedi'i dargedu i godi ymwybyddiaeth a chyllid ar gyfer cyflwyno rhaglen gymorth yr Hepatitis C Trust 'Follow Me' sy'n dechrau cryfhau'r rhwydwaith cefnogaeth gan gymheiriaid yng Nghymru. Bydd cryfhau gwaith

sydd wedi'i dargedu i ddod o hyd i achosion yn y gymuned yn ogystal â rôl hanfodol cefnogaeth gan gymheiriaid yn rhan allweddol o'n cyfathrebiadau â gwasanaethau yn yr hydref.

Mae addysg a hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol eisoes ar gael yn gyffredinol. Caiff y rhain eu cefnogi ymhellach wrth ddatblygu datganiad ansawdd ar gyfer clefyd yr afu a fydd yn cynnwys ffocws parhaus ar gyflawni ein targedau i ddileu hepatitis C. Bydd y datganiad ansawdd yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau clinigol gan ddisgrifio'r canlyniadau a'r safonau y disgwyliwn eu gweld mewn gwasanaethau o safon uchel sy'n canolbwyntio ar y claf.

Argymhelliad 3. *Os am gyrraedd targed dileu 2030 yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth Cymru ysgrifennu at Gyfarwyddwyr Cyllid a Phrif Weithredwyr y Byrddau Iechyd Lleol i bwysleisio bod yn rhaid ystyried y targedau triniaeth cenedlaethol ar gyfer Hepatitis C fel y targedau mwyaf sylfaenol, gyda'r nod o ragori arnynt lle bynnag y bo modd.*

Bydd Cylchlythyr Iechyd Cymru y bwriedir ei rannu â Phrif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid y GIG yr hydref hwn yn pwysleisio bod yn rhaid ystyried unrhyw dargedau penodol fel y targedau mwyaf sylfaenol, ac i ragori arnynt lle bynnag y bo modd.


Argymhelliad 4. *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud buddsoddiad ychwanegol er mwyn gwella'r profion am Hepatitis C mewn carchardai yng Nghymru.*

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ychwanegol er mwyn gwella'r profion am hepatitis C mewn carchardai. Dyrannwyd £231,000 o gyllid refeniw yn 2020/2021 er mwyn cefnogi deunyddiau traul profion, ynghyd â £57,000 o gyllid cyfalaf yn 2021/2022 ar gyfer peiriannau profi ychwanegol.

Mae profion optio allan wedi'u rhoi ar waith ar draws carchardai yng Nghymru ers 2016 a chânt eu monitro'n barhaus. Cyn y pandemig, roedd y ffigurau ar gyfer profion optio allan yn cynyddu mewn modd cyson. Er gwaethaf effaith y pandemig ar y gwaith o brofi yng ngharchardai Cymru, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y profion a wneir ers 2020. Yn ystod 2021, cyflawnwyd cyfradd brofi o 50.1% o gymharu â 30.9% yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae nifer y profion a wneir bron wedi'i adfer i lefelau cyn y pandemig, pan gafwyd cyfradd brofi o 56.6% yn 2019.

2. A wnewch chi ddarparu gwybodaeth a data ynghylch y triniaethau a ddechreuwyd ers 2020?

Gweler o'r graff isod fod y triniaethau a ddechreuwyd wedi gostwng yn naturiol yn 2020/21 ond gwelwyd adferiad cryf yn 2021/22 er gwaethaf yr heriau a wynebwyd gennym.



3. A wnewch chi ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Adfer ar gyfer Feirysau a Gludir yn y Gwaed ac unrhyw gymorth ehangach a ddarperir gan Lywodraeth Cymru?

Cynhaliwyd gweithdai cenedlaethol ym mis Hydref y llynedd ac eto ym mis Mai eleni i gefnogi byrddau iechyd i ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau adfer ac i ystyried:

- a oedd y gwaith o ddileu'r feirysau ar y trywydd iawn ym mhob ardal
- a oedd gwasanaethau wedi'u mapio'n llawn ym mhob ardal a dadansoddiad o'r bylchau wedi'i gynnal ar gyfer ymyraethau wedi'u targedu
- a oedd pob gwasanaeth perthnasol yn cymryd rhan yn y gwaith o ddileu'r feirysau
- a oedd gan bob gwasanaeth yr adnoddau digonol ar gyfer dileu'r feirysau
- y camau hanfodol eraill sydd eu hangen nesaf.

Yn genedlaethol, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gyllido ystod o swyddi cydgysylltu drwy waith y Grŵp Gweithredu ar Glefyd yr Afu a chyda'r cyllid hwn, mae'r cynnydd a ganlyn wedi'i gyflawni:

- Mae profion am Feirysau a Gludir yn y Gwaed mewn carchardai wedi'u cefnogi, gyda'r nod o'u dileu yn ein carchardai
- Treialu'r modd o gael gafael ar brofion cyflym mewn fferyllfeydd cymunedol
- Treialu gweithwyr cymorth cymheiriaid yn y gymuned er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n cael eu profi a gwella'r cyswllt â thriniaeth
- Mae Cam 2 o'r rhaglen ailgysylltu â chleifion â Hepatitis C wedi dechrau er mwyn ailgysylltu â'r rhieni a brofodd yn bositif yn hanesyddol ond nad yw'n ymddangos eu bod wedi cael triniaeth.

- 4. A wnewch chi gadarnhau targed Llywodraeth Cymru ar gyfer dileu'r feirws (ac a oes ganddi unrhyw gynlluniau i bennu targed mwy uchelgeisiol, yn unol â'r gwledydd eraill)? Hefyd, a wnewch chi gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn hyderus y bydd yn cyflawni ei tharged?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i ddileu hepatitis C erbyn 2030 fan bellaf. Er nad ydym yn diystyru symud y dyddiad targed ymlaen yn y dyfodol, yn realistig, mae'r targed presennol o'i ddileu erbyn 2030 eisoes yn un heriol iawn.

**Health and Social Care
Committee**

Eluned Morgan

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Julie Morgan

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Lynne Neagle

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

8 Gorffennaf 2022


Annwyl Eluned, Julie a Lynne

**Gwaith dilynol ar argymhellion Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd:
Darparu iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion**

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd adroddiad ei ymchwiliad i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion. Yn ein cyfarfod ar 4 Mai 2022, cytunodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol presennol i wneud gwaith dilynol ar argymhellion allweddol a wnaed gan ein Pwyllgor blaenorol.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r materion sy'n codi yn yr atodiad erbyn **1 Medi 2022**.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

Seneddlechyd@senedd.cymru

senedd.cymru/Seneddlechyd

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddHealth@senedd.wales

senedd.wales/SeneddHealth

0300 200 6565



Atodiad: Argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd fel rhan o'i ymchwiliad i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion

Cefndir

Cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ei adroddiad 'Darparu iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion yng Nghymru' ym mis Mawrth 2021. Gwnaeth y Pwyllgor 27 o argymhellion, a chafodd pob un ohonynt eu derbyn gan Lywodraeth Cymru, gydag 19 ohonynt yn cael eu derbyn yn llawn, ac 8 ohonynt yn cael eu derbyn mewn egwyddor.

Byddem yn croesawu diweddariad ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu argymhellion y Pwyllgor, fel y nodir isod. Byddem yn ddiolchgar pe gallem gael ymateb erbyn **1 Medi 2022**.

Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai

Yn ei hymateb i lawer o argymhellion y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn sefydlu Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai i oruchwylio gwaith a gwella tryloywder mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol mewn carchardai yng Nghymru. Mewn ymateb i **argymhelliad 2**, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi agendâu a chofnodion y Grŵp yn barhaus, gan nodi y byddai'r manylion ar gael ar ei gwefan erbyn diwedd mis Hydref 2021. Hyd yn hyn, nid ydym wedi gallu dod o hyd i'r wybodaeth hon ar wefan Llywodraeth Cymru.

1. A fydddech cystal â darparu linc i'r dudalen berthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru lle mae modd dod o hyd i fanylion gwaith Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai, gan gynnwys agendâu a chofnodion ei gyfarfodydd, a gwybodaeth am ei ffrydiau gwaith.
2. Os nad yw'r wybodaeth hon eisoes ar gael ar y wefan, a fydddech cystal â rhoi'r diweddraf am sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio drwy'r Grŵp a chydag ef i roi **argymhelliad 6, 7, 9, 17, 18, 19, 22, 25, a 27** adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar waith.

CEM Parc

Roedd adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon hefyd yn codi pryderon penodol ynghylch trefniadau yn y carchar preifat, CEM Parc. Mae'r contract 25 mlynedd ar gyfer CEM Parc i fod i ddod i ben ym mis Rhagfyr 2022, ac mae **argymhelliad 3 ac 16** adroddiad y Pwyllgor yn ymwneud â Charchar Parc, gan gynnwys cysondeb y trefniadau arolygu â'r rhai sydd ar waith ar gyfer carchardai'r sector cyhoeddus, a chynnwys sgrinio a diagnosis cynnar ar gyfer dementia yn y fanyleb gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a threfniadau i sicrhau bod pobl sy'n cael diagnosis o ddementia yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Derbyniwyd y ddau argymhelliad gan Lywodraeth Cymru.

3. Rhowch ddiweddariad ar weithredu **argymhellion 3 ac 16**. Dylai'r diweddariad gynnwys gwybodaeth am y camau sydd wedi'u cymryd, unrhyw gamau gweithredu arfaethedig, a, lle bo'n briodol, manylion adnoddau cysylltiedig, amserlenni cynlluniedig, a sut mae effaith a chanlyniadau camau gweithredu a gwariant wedi cael eu gwerthuso a'u mesur (neu sut bydd hyn yn digwydd).
4. Rhowch ddiweddariad hefyd ar waith Bwrdd Terfynu Contract Parc, gan gynnwys a oes gennych unrhyw bryderon ynghylch a fydd trefniadau addas yn eu lle erbyn i'r contract presennol ddod i ben ym mis Rhagfyr 2022.

Yr Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf

Mae **argymhellion 4 a 5**, a dderbyniwyd mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru, yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- Defnyddio'r cyfrwng deddfwriaethol addas cyntaf i gyflwyno gwelliannau i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 i gynnwys yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth yn y rhestr o gyrff y gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gydweithredu â nhw mewn ymchwiliad.
- Cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i ymestyn rôl yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth i'w alluogi i gwestiynu barn broffesiynol a chlinigol wrth arfer ei swyddogaeth o ymchwilio i gwynion am wasanaethau iechyd mewn carchardai preifat yng Nghymru.

Fe wnaethoch chi ymrwmo i drafod y materion hyn ymhellach gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth.

5. Rhowch ddiweddariad ar eich trafodaethau mewn perthynas ag **argymhellion 4 a 5**.

Defnyddio systemau TGCh i helpu i rannu gwybodaeth

Roedd **argymhelliad 7**, a dderbyniwyd mewn egwyddor, yn gofyn am fwy o fanylion am sut y bydd yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo gwell cyfathrebu rhwng gwasanaethau cyfiawnder a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar ddyddiadau rhyddhau a chynlluniau rhyddhau carcharorion, gan gynnwys pa rolau y gallai'r PHSCOG ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ei chwarae yn y gwaith hwn. Yn yr ymateb, fe wnaethoch chi ddweud y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i "archwilio dewisiadau ar gyfer defnyddio systemau TG i wella'r broses o rannu gwybodaeth yn y cyswllt hwn".

6. Rhowch ddiweddariad ynghylch gweithredu **argymhelliad 7**, gan gynnwys pa waith a wnaed i archwilio opsiynau ar gyfer defnyddio systemau TGCh i wella'r broses o rannu gwybodaeth.



Safonau iechyd meddwl

Mae **argymhelliad 10**, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn galw am eglurder ynghylch sut y bydd cynnydd yn erbyn y flaenoriaeth yn y cytundeb Partneriaeth mewn perthynas ag iechyd meddwl yn cael ei fonitro, gan gynnwys sut y bydd cyfraniad y safonau cenedlaethol newydd yn cael ei asesu ac a yw'r dull 'safon genedlaethol' yn cynnig unrhyw ddysgu ar gyfer mynd ati i ddarparu gofal iechyd neu gymdeithasol arall yn yr ystad ddiogeledd yng Nghymru. Yn eich ymateb, fe wnaethoch chi nodi mai'r bwriad oedd gweithredu'r safonau newydd dros gyfnod o 12 mis, gan ddechrau yn 2022. Fe ddywedoch chi, lle y bo'n briodol, y byddai'r un dangosyddion yn cael eu defnyddio i fonitro mynediad at wasanaethau a chanlyniadau iechyd meddwl mewn carchardai â'r rhai sy'n cael eu datblygu i'w defnyddio yn y set ddata graidd iechyd meddwl.

7. Rhowch ddiweddariad ar **argymhelliad 10**, gan gynnwys unrhyw oblygiadau sy'n deillio o'r oedi wrth ddatblygu a gweithredu'r set ddata graidd iechyd meddwl.

Darpariaeth ddiogel i gleifion mewnol

Mae **argymhelliad 11**, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn gofyn am wybodaeth am y strategaeth cleifion mewnol diogel a ddatblygwyd o dan y Cynllun Cyflawni diwygiedig Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, gan gynnwys unrhyw welyau diogel ychwanegol a fyddai'n cael eu darparu o ganlyniad i hynny a sut y byddai'r effaith ar amseroedd aros yn cael ei monitro.

Yn eich ymateb i'r argymhelliad, fe wnaethoch chi nodi y byddai archwiliad o'r ddarpariaeth ddiogel bresennol ar gyfer cleifion mewnol yn cael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2021, gan gynnwys argymhellion ynghylch gwasanaethau diogel iechyd meddwl cleifion mewnol i oedolion, plant a phobl ifanc. Hefyd, fe wnaethoch chi ymrwymo i ddatblygu strategaeth cleifion mewnol ddiogel i Gymru.

8. Pa gynlluniau sydd gennych i gyhoeddi'r archwiliad o'r ddarpariaeth ddiogel bresennol i gleifion mewnol? Os nad fydd yr archwiliad yn cael ei gyhoeddi, a wnewch chi rannu copi yn gyfrinachol gyda ni?
9. Rhowch y diweddaraf am y strategaeth ddiogel i gleifion mewnol Cymru, gan gynnwys pryd y caiff ei chyhoeddi.

Camddefnyddio sylweddau

Mae **argymhellion 12 a 13** ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Mae **argymhelliad 12** yn gofyn am eglurder ynghylch yr amserlenni a ragwelir ar gyfer datblygu'r llwybr clinigol safonol ar gyfer rheoli camddefnyddio sylweddau mewn carchardai a'r dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn. Yn eich ymateb, fe wnaethoch chi esbonio mai'r nod oedd cyflwyno drafft terfynol o'r Fframwaith Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau "Trin Troseddwyr" i'w gyflwyno i'r Gweinidog erbyn mis Rhagfyr 2021.

Mae **argymhelliad 13** gofyn am y diweddaraf am flaenoriaethau a chynllun gwaith grŵp yr Ymchwiliad at Wraidd Camddefnyddio Sylweddau/Iechyd Meddwl. Cafodd yr argymhelliad hwn ei dderbyn mewn egwyddor. Roedd eich ymateb yn egluro fod asoch fod y grŵp yr Ymchwiliad at Wraidd

Camddefnyddio Sylweddau/Iechyd Meddwl yn diweddarau ei gynllun gwaith, a'i fod wedi ymrwymo i roi diweddariad erbyn mis Mawrth 2022, gan gynnwys trefniadau monitro arfaethedig.

10. Rhowch ddiweddariad am y Fframwaith Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau "Trin Troseddwy", gan gynnwys a yw Gweinidogion wedi'i gymeradwyo a phryd y caiff ei gyhoeddi.
11. Rhowch ddiweddariad am waith grŵp yr Ymchwiliad at Wraidd Camddefnyddio Sylweddau/Iechyd Meddwl, gan gynnwys ei flaenoriaethau a'i gynllun gwaith, a sut yr eir ati i fonitro cynnydd o ran dileu rhwystrau sy'n wynebu carcharorion a chyn-droseddwy'r sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a materion iechyd meddwl sy'n cyddigwydd, sy'n ceisio cael gafael ar gymorth yn y carchar neu ar ôl cael eu rhyddhau.

Cyllid ar gyfer darparu gofal iechyd

Mae **argymhelliad 22** yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio drwy'r Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai i goladu, adolygu a chyhoeddi gwybodaeth am gostau darparu gofal iechyd ar draws carchardai yng Nghymru. Derbyniwyd yr argymhelliad. Yn yr ymateb, fe wnaethoch chi esbonio y gofynnwyd yn wreiddiol am wybodaeth gan fyrddau iechyd yn gynnar yn 2020, ond bod y pandemig wedi gohirio'r gwaith hwn. Fe wnaethoch chi ychwanegu y byddech yn gofyn am ddiweddariad gan y byrddau iechyd perthnasol erbyn diwedd mis Tachwedd 2021.

12. A fydddech cystal â rhoi diweddariad ynghylch pryd yr ydych yn disgwyl bod mewn sefyllfa i gyhoeddi gwybodaeth am gostau darparu gofal iechyd ar draws carchardai yng Nghymru, a sut y caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i hwyluso meincnodi a rhannu arfer gorau.

Dangosyddion perfformiad cenedlaethol

Mae **argymhelliad 24** yn galw am eglurder ynghylch yr amserlenni ar gyfer ailddechrau'r gwaith ar ddatblygu set o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol, nodi erbyn pryd y mae'n disgwyl i'r dangosyddion fod ar waith, a sut a phryd y bydd perfformiad yn erbyn y dangosyddion yn cael ei adrodd a'i gyhoeddi. Derbyniwyd yr argymhelliad, ac mae eich ymateb yn nodi y byddai set ddrafft o ddangosyddion yn cael ei datblygu dros y deuddeg mis nesaf, gan adrodd ar berfformiad a chyhoeddi hynny bob 12 mis wedi hynny.

13. A allwch chi ddweud wrthym a yw'r dangosyddion drafft bellach wedi'u datblygu, pryd y caiff y dangosyddion eu cyhoeddi, a phryd y mae disgwyl i'r adroddiad blynyddol cyntaf gael ei gyhoeddi.



Argymhellion eraill

Wrth ymateb i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, cytunodd Llywodraeth Cymru i ysgrifennu at y Pwyllgor presennol gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch **argymhellion 11, 14, 20, 23 a 24**.

14. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi diweddariadau ar yr argymhellion hynny, gan gynnwys gwybodaeth am y camau sydd wedi'u cymryd, unrhyw gamau sydd ar y gweill, a, lle bo'n briodol, manylion adnoddau cysylltiedig, amserlenni cynlluniedig, a sut mae effaith a chanlyniadau camau gweithredu a gwariant wedi cael eu gwerthuso a'u mesur (neu sut bydd hyn yn digwydd).
15. Hefyd, rhowch ddiweddariad ar gynnydd o ran gweithredu unrhyw argymhellion yn yr adroddiad nad yw'n cael ei drafod mewn rhan arall o'r cais hwn (**argymhellion 8, 15, 21 a 26**).

Eitem 6.24

Ein cyf/Our ref MA/EM/2628/22

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

2 Medi 2022

Annwyl Russell,

Gwaith dilynol ar argymhellion Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd: Darparu iechyd a gofal cymdeithasol yn yr ystad carchardai i oedolion

Gweler ein hymateb i'ch llythyr dyddiedig 8 Gorffennaf a oedd yn gofyn am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran gweithredu argymhellion y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn yr adroddiad uchod.


Mae'r ddogfen amgaeedig yn nodi ein hymatebion i'ch cwestiynau.

Yn gywir



Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau
Cymdeithasol
Minister for Health and
Social Services

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog
Gwasanaethau
Cymdeithasol
Deputy Minister for Social
Services



Lynne Neagle AS/MS
Y Dirprwy Weinidog
Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for
Mental Health and
Wellbeing

Atodiad A

Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai

Yn ei hymateb i lawer o argymhellion y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn sefydlu Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai i oruchwylio gwaith a gwella tryloywder mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol mewn carchardai yng Nghymru. Mewn ymateb i argymhelliad 2, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi agendâu a chofnodion y Grŵp yn barhaus, gan nodi y byddai'r manylion ar gael ar ei gwefan erbyn diwedd mis Hydref 2021. Hyd yn hyn, nid ydym wedi gallu dod o hyd i'r wybodaeth hon ar wefan Llywodraeth Cymru.

1. A fydddech cystal â darparu linc i'r dudalen berthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru lle mae modd dod o hyd i fanylion gwaith Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai, gan gynnwys agendâu a chofnodion ei gyfarfodydd, a gwybodaeth am ei ffrydiau gwaith.
2. Os nad yw'r wybodaeth hon eisoes ar gael ar y wefan, a fydddech cystal â rhoi'r diweddaraf am sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio drwy'r Grŵp a chydag ef i roi argymhellion 6, 7, 9, 17, 18, 19, 22, 25, a 27 adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar waith.

Ymatebion Llywodraeth Cymru:

Gweler isod ddolen at y dudalen ar wefan Llywodraeth Cymru lle cyhoeddir y cofnodion a'r camau gweithredu ynglŷn â'r Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn Carchardai - [Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn Carchardai - Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol | LLYW.CYMRU](#)

<p>CEM Parc</p> <p>Roedd adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon hefyd yn codi pryderon penodol ynghylch trefniadau yn y carchar preifat, CEM Parc. Mae'r contract 25 mlynedd ar gyfer CEM Parc i fod i ddod i ben ym mis Rhagfyr 2022, ac mae argymhellion 3 ac 16 adroddiad y Pwyllgor yn ymwneud â Charchar Parc, gan gynnwys cysondeb y trefniadau arolygu â'r rhai sydd ar waith ar gyfer carchardai'r sector cyhoeddus, a chynnwys sgrinio a diagnosis cynnar ar gyfer dementia yn y fanyleb gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a threfniadau i sicrhau bod pobl sy'n cael diagnosis o ddementia yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Derbyniwyd y ddau argymhelliad gan Lywodraeth Cymru.</p> <ol style="list-style-type: none"> 3. Rhowch ddiweddariad ar weithredu argymhellion 3 ac 16. Dylai'r diweddariad gynnwys gwybodaeth am y camau sydd wedi'u cymryd, unrhyw gamau gweithredu arfaethedig, a, lle bo'n briodol, manylion adnoddau cysylltiedig, amserlenni cynlluniedig, a sut mae effaith a chanlyniadau camau gweithredu a gwariant wedi cael eu gwerthuso a'u mesur (neu sut bydd hyn yn digwydd). 4. Rhowch ddiweddariad hefyd ar waith Bwrdd Terfynu Contract Parc, gan gynnwys a oes gennych unrhyw bryderon ynghylch a fydd trefniadau addas yn eu lle erbyn i'r contract presennol ddod i ben ym mis Rhagfyr 2022. 	<p>Mae Bwrdd wedi'i sefydlu i reoli'r gwaith o ailendro'r contract i reoli Carchar Ei Mawrthydi y Parc. Bydd y trefniadau arolygu ar gyfer y gweithredwr newydd yn gyson â'r rhai sydd ar waith ar gyfer carchardai'r sector cyhoeddus yng Nghymru.</p> <p>O ran argymhelliad 3, bydd y gofal iechyd yng ngharchar a sefydliad troseddwr ifanc y Parc yn cael ei ddarparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg o 15 Rhagfyr 2022. Bydd memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar waith rhwng y Bwrdd Iechyd, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrthydi (HMPPS) a Llywodraeth Cymru, ac fel rhan o'r trefniadau hyn bydd y trefniadau arolygu yn cyd-fynd â'r rhai mewn carchardai eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.</p> <p>O ran argymhelliad 16, mae Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Iechyd a HMPPS yng Nghymru wedi cytuno ar fanyleb gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yng ngharchar a sefydliad troseddwr ifanc y Parc. Mae hyn yn cynnwys sgrinio a chefnogaeth dementia i'r rhai sydd â dementia.</p>
<p>Yr Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf</p>	

<p>Mae argymhellion 4 a 5, a dderbyniwyd mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru, yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio'r cyfrwng deddfwriaethol addas cyntaf i gyflwyno gwelliannau i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 i gynnwys yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth yn y rhestr o gyrrff y gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gydweithredu â nhw mewn ymchwiliad. • Cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i ymestyn rôl yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth i'w alluogi i gwestiynu barn broffesiynol a chlinigol wrth arfer ei swyddogaeth o ymchwilio i gwynion am wasanaethau iechyd mewn carchardai preifat yng Nghymru. <p>Fe wnaethoch chi ymrwmo i drafod y materion hyn ymhellach gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth.</p> <p>5. Rhowch ddiweddariad ar eich trafodaethau mewn perthynas ag argymhellion 4 a 5.</p>	<p>Mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda swyddfa'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth i ystyried argymhellion y Pwyllgor. Y bwriad yw sefydlu gweithgor i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn 2022/3.</p>
<p>Defnyddio systemau TGCh i helpu i rannu gwybodaeth</p> <p>Roedd argymhelliad 7, a dderbyniwyd mewn egwyddor, yn gofyn am fwy o fanylion am sut y bydd yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo gwell cyfathrebu rhwng gwasanaethau</p>	<p>Mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda chydweithwyr yn Lloegr yn y GIG, Public Health England a HMPPS sydd wedi cynnal prosiect tebyg, a gynghorodd y bydd</p>

<p>cyfiawnder a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar ddyddiadau rhyddhau a chynlluniau rhyddhau carcharorion, gan gynnwys pa rolau y gallai'r PHSCOG ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ei chwarae yn y gwaith hwn. Yn yr ymateb, fe wnaethoch chi ddweud y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i “archwilio dewisiadau ar gyfer defnyddio systemau TG i wella'r broses o rannu gwybodaeth yn y cyswllt hwn”.</p> <p>6. Rhowch ddiweddariad ynghylch gweithredu argymhelliad 7, gan gynnwys pa waith a wnaed i archwilio opsiynau ar gyfer defnyddio systemau TGCh i wella'r broses o rannu gwybodaeth.</p>	<p>adolygiad llawn a newid systemau yn cymryd tua dwy flynedd. Casglwyd adborth oddi wrth bartneriaid iechyd yng Nghymru ar gyfyngiadau'r seilwaith TG a ddefnyddir ym maes gofal iechyd mewn carchardai ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n asesu'r adborth hwn yn ogystal â'r adnoddau fydd eu hangen i frwr ymlaen â'r gwaith hwn ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill.</p>
<p>Safonau iechyd meddwl</p> <p>Mae argymhelliad 10, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn galw am eglurder ynghylch sut y bydd cynnydd yn erbyn y flaenoriaeth yn y cytundeb Partneriaeth mewn perthynas ag iechyd meddwl yn cael ei fonitro, gan gynnwys sut y bydd cyfraniad y safonau cenedlaethol newydd yn cael ei asesu ac a yw'r dull 'safon genedlaethol' yn cynnig unrhyw ddysgu ar gyfer mynd ati i ddarparu gofal iechyd neu gymdeithasol arall yn yr ystad ddiogeledd yng Nghymru. Yn eich ymateb, fe wnaethoch chi nodi mai'r bwriad oedd gweithredu'r safonau newydd dros gyfnod o 12 mis, gan ddechrau yn 2022. Fe ddywedoch chi, lle y bo'n briodol, y byddai'r un dangosyddion yn cael eu defnyddio i fonitro mynediad at wasanaethau a chanlyniadau iechyd meddwl mewn carchardai â'r rhai sy'n cael eu datblygu i'w defnyddio yn y set ddata graidd iechyd meddwl</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar y Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau (SMTF) drafft a safonau drafft ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i garchardai yng Nghymru. Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 14 Hydref 2022. Byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yna'n gweithio gyda byrddau iechyd a'r carchardai i ddechrau gweithredu'r safonau newydd. Fel rhan o'r broses weithredu, gofynnir i fyrddau iechyd ddarparu diweddariadau rheolaidd ar weithredu i'r Byrddau Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn Carchardai, cyn i'r set ddata graidd gael ei rhoi ar waith yn ehangach.</p> <p>Mae'r set ddata iechyd meddwl graidd ddrafft wedi'i dosbarthu i fyrddau iechyd er mwyn profi ei heffaith ac er mwyn deall pa elfennau sydd eisoes yn cael eu cofnodi gan fyrddau iechyd a pha elfennau y byddai angen eu hychwanegu. Mae hyn wedi</p>

<p>7. Rhowch ddiweddariad ar argymhelliad 10, gan gynnwys unrhyw oblygiadau sy'n deillio o'r oedi wrth ddatblygu a gweithredu'r set ddata graidd iechyd meddwl.</p>	<p>helpu i nodi unrhyw elfennau a fyddai'n anodd eu cofnodi. Mae'r adroddiad ar yr ymarfer profi effaith wedi dod i law Cydweithrediad y GIG ac rydym wrthi'n bwrw ymlaen â hyn drwy'r byrddau llywodraethu perthnasol.</p> <p>Mae hyfforddiant i fyrddau iechyd er mwyn cryfhau'r broses o gofnodi a defnyddio data canlyniadau cleifion unigol yn parhau, er bod oedi wedi digwydd yn hyn o beth hefyd. Bydd y gwaith hwn yn helpu byrddau iechyd i addasu gwasanaethau er mwyn gwella canlyniadau cleifion.</p> <p>Ochr yn ochr â hyn, comisiynwyd Prifysgol De Cymru i weithio gyda byrddau iechyd a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu mesurau canlyniadau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael yr adroddiad yn fuan.</p>
<p>Darpariaeth ddiogel i gleifion mewnol</p> <p>Mae argymhelliad 11, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn gofyn am wybodaeth am y strategaeth cleifion mewnol diogel a ddatblygwyd o dan y Cynllun Cyflawni diwygiedig Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, gan gynnwys unrhyw welyau diogel ychwanegol a fyddai'n cael eu darparu o ganlyniad i hynny a sut y byddai'r effaith ar amseroedd aros yn cael ei monitro.</p> <p>Yn eich ymateb i'r argymhelliad, fe wnaethoch chi nodi y byddai archwiliad o'r ddarpariaeth ddiogel bresennol ar gyfer cleifion mewnol yn cael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2021, gan gynnwys argymhellion ynghylch gwasanaethau diogel iechyd meddwl cleifion mewnol i oedolion, plant a phobl ifanc. Hefyd, fe wnaethoch chi ymrwymo i ddatblygu strategaeth cleifion mewnol ddiogel i Gymru.</p>	<p>Cyhoeddwyd yr Adolygiad Cenedlaethol o Gleifion sy'n derbyn gofal mewn Ysbytai Iechyd Meddwl Diogel Gwneud i'r Dyddiau Gyfrif gan yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol ym mis Ebrill 2022. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried argymhellion yr adolygiad a gweithredu anynt.</p> <p>Bu Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru yn ymgynghori'n ddiweddar ar ei strategaeth bum mlynedd ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol. Cafodd y strategaeth ei hysbysu gan Gwneud i'r Dyddiau Gyfrif ac mae'n cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl diogel.</p>

Camddefnyddio sylweddau

Mae argymhellion 12 a 13 ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Mae argymhelliad 12 yn gofyn am eglurder ynghylch yr amserlenni a ragwelir ar gyfer datblygu'r llwybr clinigol safonol ar gyfer rheoli camddefnyddio sylweddau mewn carchardai a'r dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn. Yn eich ymateb, fe wnaethoch chi esbonio mai'r nod oedd cyflwyno drafft terfynol o'r Fframwaith Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau "Trin Troseddwy" i'w gyflwyno i'r Gweinidog erbyn mis Rhagfyr 2021.

Mae argymhelliad 13 gofyn am y diweddaraaf am flaenoriaethau a chynllun gwaith grŵp yr Ymchwiliad at Wraidd Camddefnyddio Sylweddau/lechydd Meddwl. Cafodd yr argymhelliad hwn ei dderbyn mewn egwyddor. Roedd eich ymateb yn egluro fod asoch fod y grŵp yr Ymchwiliad at Wraidd Camddefnyddio Sylweddau/lechydd Meddwl yn diweddaru ei gynllun gwaith, a'i fod wedi ymrwymo i roi diweddariad erbyn mis Mawrth 2022, gan gynnwys trefniadau monitro arfaethedig.

10. Rhowch ddiweddariad am y Fframwaith Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau "Trin Troseddwy", gan gynnwys a yw Gweinidogion wedi'i gymeradwyo a phryd y caiff ei gyhoeddi.

11. Rhowch ddiweddariad am waith grŵp yr Ymchwiliad at Wraidd Camddefnyddio Sylweddau/lechydd Meddwl, gan gynnwys ei flaenoriaethau a'i gynllun gwaith, a sut yr eir ati i fonitro cynnydd o ran dileu rhwystrau sy'n wynebu carcharorion a chyn-droseddwy sydd â phroblemau

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar y Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau drafft (SMTF) a safonau drafft ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i garchardai yng Nghymru. Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 14 Hydref 2022.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y cyd hwn ar y ddwy ddogfen, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r carchardai a byrddau iechyd yng Nghymru i lunio'r camau nesaf a'r amserlen, yn seiliedig ar adborth yr ymgynghoriad. Rydym yn dal i ragweld y bydd angen i'r byrddau iechyd a'r carchardai yng Nghymru gynnal dadansoddiad o'r bylchau wedi'r ymgynghoriad er mwyn nodi camau allweddol i gefnogi'r gwaith cyflawni. Bydd rhagor o gefnogaeth ar gyfer cyflawni hefyd a gael i'r carchardai drwy ddatblygiadau eraill, fel menter Straen Trawmatig Cymru a'i ffocws ar helpu carcharorion sydd wedi profi trawma i gael y gefnogaeth a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt.

Diweddarwyd y cynllun gwaith Mynd at Wraidd Camddefnyddio Sylweddau/lechydd Meddwl sy'n Cyd-ddigwydd ym mis Ionawr 2022 er mwyn darparu set glir o gamau gweithredu ar sut y gellir chwalu rhwystrau gweithredol rhwng gwasanaethau.

Dros y 9 mis diwethaf mae'r grŵp Mynd at Wraidd wedi parhau i gyfarfod bob chwarter, gyda'r nod o wella canlyniadau i unigolion sydd ag anghenion cymhleth. Ers mis Medi 2021, mae ei aelodaeth wedi tyfu i gynnwys mwy o gynrychiolaeth o

<p>camddefnyddio sylweddau a materion iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd, sy'n ceisio cael gafael ar gymorth yn y carchar neu ar ôl cael eu rhyddhau.</p>	<p>blith cydweithwyr iechyd meddwl y byrddau iechyd a'r sefydliadau trydydd sector perthnasol.</p> <p>Mae'r cynllun gwaith wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn erbyn nifer o feysydd, sy'n amrywio o weithio gydag ymarferwyr i gynyddu ymwybyddiaeth o bwerau cyfreithiol i ddiogelu yfwyr dibynnol, er mwyn cael dealltwriaeth well o effaith ariannu ar gyfer anghenion cymhleth mewn Byrddau Cynllunio Ardal. Mae'r cyfarfodydd hefyd wedi rhoi cyfle i gydweithwyr gryfhau cysylltiadau â sefydliadau sy'n derbyn cyllid Llywodraeth Cymru, fel yr Hyb Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Straen Trawmatig Cymru, sy'n gweithio gyda'r grŵp ar faterion sy'n cyd-ddigwydd.</p>
<p>Cyllid ar gyfer darparu gofal iechyd</p> <p>Mae argymhelliad 22 yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio drwy'r Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai i goladu, adolygu a chyhoeddi gwybodaeth am gostau darparu gofal iechyd ar draws carchardai yng Nghymru. Derbyniwyd yr argymhelliad. Yn yr ymateb, fe wnaethoch chi esbonio y gofynnwyd yn wreiddiol am wybodaeth gan fyrddau iechyd yn gynnar yn 2020, ond bod y pandemig wedi gohirio'r gwaith hwn. Fe wnaethoch chi ychwanegu y byddech yn gofyn am ddiweddariad gan y byrddau iechyd perthnasol erbyn diwedd mis Tachwedd 2021.</p> <p>12. A fyddech cystal â rhoi diweddariad ynghylch pryd yr ydych yn disgwyl bod mewn sefyllfa i gyhoeddi gwybodaeth am gostau darparu gofal iechyd ar draws</p>	<p>Bydd swyddogion yn ystyried y ffordd orau o fwrw ymlaen â hyn ac yn ysgrifennu eto at y Byrddau Iechyd Lleol gan nad oeddem am ychwanegu at y pwysau arnynt yn ystod ton Omicron yn 2021/22.</p>

<p>carchardai yng Nghymru, a sut y caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i hwyluso meincnodi a rhannu arfer gorau.</p>	
<p>Dangosyddion perfformiad cenedlaethol</p> <p>Mae argymhelliad 24 yn galw am eglurder ynghylch yr amserlenni ar gyfer ailddechrau'r gwaith ar ddatblygu set o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol, nodi erbyn pryd y mae'n disgwyl i'r dangosyddion fod ar waith, a sut a phryd y bydd perfformiad yn erbyn y dangosyddion yn cael ei adrodd a'i gyhoeddi. Derbyniwyd yr argymhelliad, ac mae eich ymateb yn nodi y byddai set drafft o ddangosyddion yn cael ei datblygu dros y deuddeg mis nesaf, gan adrodd ar berfformiad a chyhoeddi hynny bob 12 mis wedi hynny.</p> <p>13. A allwch chi ddweud wrthym a yw'r dangosyddion drafft bellach wedi'u datblygu, pryd y caiff y dangosyddion eu cyhoeddi, a phryd y mae disgwyl i'r adroddiad blynyddol cyntaf gael ei gyhoeddi.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i'r argymhelliad hwn ond yn cydnabod bod oedi wedi bod yn y gwaith o ddatblygu'r dangosyddion oherwydd Covid a chyfyngiadau ar adnoddau. Fodd bynnag, bydd swyddogion yn ystyried y ffordd orau o ddechrau bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn 2022-23.</p>
<p>Argymhellion eraill</p> <p>Wrth ymateb i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, cytunodd Llywodraeth Cymru i ysgrifennu at y Pwyllgor presennol gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch argymhellion 11, 14, 20, 23 a 24.</p> <p>14. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi diweddariadau ar yr argymhellion hynny, gan gynnwys gwybodaeth am y camau sydd wedi'u cymryd, unrhyw gamau sydd ar y gweill, a, lle bo'n briodol, manylion adnoddau</p>	<p>Bydd argymhelliad 8 yn dibynnu ar waith i wella seilwaith TG a bydd felly yn cael ei ddatblygu fel rhan o hyn.</p> <p>O ran argymhelliad 14, mae'r adolygiad o wasanaethau fferylliaeth mewn carchardai yng Nghymru gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, bellach wedi dod i ben. Mae argymhellion yr adolygiad yn cael eu hystyried gan swyddogion, gan gynnwys manteision sefydlu grŵp cynghori arbenigol ar gyfer meddyginiaethau a rôl Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan. Bydd swyddogion</p>

<p>cysylltiedig, amserlenni cynlluniedig, a sut mae effaith a chanlyniadau camau gweithredu a gwariant wedi cael eu gwerthuso a'u mesur (neu sut bydd hyn yn digwydd).</p> <p>15. Hefyd, rhowch ddiweddariad ar gynnydd o ran gweithredu unrhyw argymhellion yn yr adroddiad nad yw'n cael ei drafod mewn rhan arall o'r cais hwn (argymhellion 8, 15, 21 a 26).</p>	<p>yn ysgrifennu at bwyllgor y Chweched Senedd sy'n gyfrifol am ofal iechyd mewn carchardai ar ôl adolygu canfyddiadau'r adroddiad.</p> <p>O ran argymhelliad 15, mae Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan wedi'i gyhoeddi. Mae'r gwaith hwn wedi'i arwain gan Gwelliant Cymru fel rhan o'r Rhaglen Gofal Dementia, mae wedi'i lywio gan ofynion Cynllun Gweithredu Dementia Cymru, ac wedi'i oruchwylio gan Grŵp Gweithredu ac Effaith Goruchwylio Dementia Llywodraeth Cymru (DOIIG). Mae pob un o'r safonau newydd yn berthnasol i'r bobl hynny sy'n cael eu hasesu, yn cael diagnosis ac yn byw gyda dementia. Mae un o'r safonau'n ymwneud â Mapio Gofal Dementia (DCM): Bydd sefydliadau a lleoliadau gofal sy'n darparu gofal dementia dwys yn darparu'r fframwaith a'r strwythur i alluogi Mapio Gofal Dementia i ddod yn arfer rheolaidd, gan gefnogi'r broses resymu a gwneud penderfyniadau clinigol. Bydd gwasanaethau DCM iechyd meddwl yn cynnig cymorth DCM i leoliadau gofal aciwt, carchardai a chartrefi gofal.</p> <p>O ran Argymhelliad 20 rydym yn parhau i weithio i greu mynediad cynaliadwy i ofal cymdeithasol yng Nghymru, beth bynnag yw'r lleoliad. Mae hyn yn cynnwys ymgyrch recriwtio genedlaethol Gofalwn.Cymru a hyrwyddo gofal cymdeithasol fel gyrfa werthfawr ar draws sawl llwyfan yn y cyfryngau.</p> <p>Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu darparu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol, sy'n un o ymrwymadau allweddol ein Rhaglen Lywodraethu. Mae creu gweithlu cryfach sy'n talu'n well yn allweddol er mwyn darparu gwasanaethau gwell, ac mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn cynnig man cychwyn pwysig</p>
--	---

	<p>i delerau ac amodau gwell i weithwyr gofal cymdeithasol. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio drwy'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol i nodi a darparu atebion ymarferol yn y tymor canolig a'r tymor hwy.</p> <p>Bydd angen ystyriaeth bellach ar argymhelliad 21 ac nid yw wedi cael datblygu oherwydd blaenoriaethau eraill. Ystyrir cynnal asesiad o anghenion gofal iechyd mewn carchardai i edrych ar yr anghenion gofal iechyd o ran y mater hwn. Ar ôl ei gynnal, ystyrir y ffordd orau o gyflwyno hyn yn ôl i Lywodraeth y DU (y Weinyddiaeth Gyfiawnder).</p> <p>Mae'r camau ar argymhelliad 23 yn cyd-fynd â chamau cyfochrog o dan argymhelliad 6.</p> <p>O ran argymhelliad 26, mae oedi wedi bod yn sgil Covid a chyfyngiadau adnoddau, ond mae swyddogion bellach mewn cysylltiad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ynglŷn ag ef.</p>
--	--

—
**Health and Social Care
Committee**

Alexandra Howells
Prif Weithredwr
Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Sue Evans
Prif Weithredwr
Gofal Cymdeithasol Cymru

14 Gorffennaf 2022


Annwyl Alexandra a Sue

Cynllun gweithlu iechyd meddwl: diweddariad

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad ar hyn o bryd i anghydraddoldebau iechyd meddwl. Yn ystod ein hymchwiliad, mae nifer o faterion wedi dod i'r amlwg o ran y gweithlu iechyd meddwl a'r gweithlu ehangach.

Er mwyn llywio ein gwaith, byddem yn croesawu cael diweddariad ar ddatblygu'r cynllun gweithlu iechyd meddwl ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r materion a godir yn yr atodiad erbyn **1 Medi 2022**.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad: cais am dystiolaeth ysgrifenedig

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad ar hyn o bryd i anghydraddoldebau iechyd meddwl. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn ystod ein gwaith ar gael ar we dudalen yr ymchwiliad.

Mae nifer o faterion yn dod i'r amlwg o ran y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys pryderon am ddiffyg capasiti, llesiant y gweithlu iechyd meddwl a'r gweithlu ehangach, a diffyg ymwybyddiaeth a hyfforddiant o ran materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Yn dilyn eich ymgyngoriad diweddar ar gynllun gweithlu iechyd meddwl ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y cynllun, gan gynnwys:

1. Sut y bydd y cynllun yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl, gan gynnwys y materion a amlinellir uchod.
2. Sut y bydd y cynllun hwn, a'r Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Hydref 2020) ehangach, yn sicrhau bod y gweithlu iechyd meddwl (a'r gweithlu ehangach) yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau amrywiol y mae'n eu gwasanaethu.
3. Pryd y caiff y cynllun ei gyhoeddi, ac a ydych yn fodlon rhoi copi ymlaen llaw i ni yn gyfrinachol.
4. Pa agweddau ar y cynllun yr ydych yn rhagweld y byddant yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer eu gweithredu.
5. Pa asesiad sydd wedi'i wneud o'r staff a'r adnoddau ariannol sydd eu hangen i ddarparu'r cynllun, ac a oes digon o adnoddau ar gael.
6. Sut y caiff cynnydd o ran darparu'r cynllun ei fesur a'i nodi.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn anfon eich ymateb erbyn **1 Medi 2022**.



Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)
Tŷ Dysgu, Cefn Coed,
Nantgarw, CF15 7QQ

Ffôn | Tel: 03300 585 005
Ebost | Email: heiw@wales.nhs.uk
Gwefan | Web: aagic.gig.cymru / heiw.nhs.wales

Ein Cyfeirnod: AH/SE/cw

Dyddiad: 18 Awst 2022

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Anfonwyd drwy e-bost: SeneddHealth@senedd.cymru

Annwyl Mr George

CYNLLUN GWEITHLU IECHYD MEDDWL: DIWEDDARIAD

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Gorffennaf 2022. Rydym yn falch o gael darparu ymateb i'r cwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor a rhoi diweddariad ar y cynnydd o ran datblygu Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol i Gymru.

Hwyrach y byddai'n ddefnyddiol i ni rannu peth cyd-destun ynghylch datblygu'r Cynllun Gweithlu. Bu i strategaeth *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* wneud ymrwymiad i ddatblygu Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol. Yn ddiweddarach bu i ni ei flaenoriaethu fel cam gweithredu o fewn Strategaeth ehangach y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020. Yn ein barn ni roedd yr achos dros newid eisoes yn glir, ac roeddem yn awyddus i gyfrannu at ddatblygu gweithlu cynaliadwy â'r gallu i ymateb yn effeithiol i anghenion iechyd meddwl pobl ar draws y continwrm gofal.

Dechreusom ddatblygu'r cynllun yn Hydref 2020 trwy gynnal ymarferiad ymgysylltu a gwrando rhithiol gydag amrywiaeth o randdeiliaid. Roeddynt yn cynnwys unigolion â phrofiad o fyw gyda materion iechyd meddwl, ein gweithlu, awdurdodau lleol, cyrff proffesiynol, Byrddau Iechyd, partneriaid yn y trydydd sector a darparwyr gofal.

Cytunwyd ar ddull dau gam gyda Llywodraeth Cymru:

- **Cam 1:** cynllun gwaith i ymateb i flaenoriaethau brys y gweithlu.
- **Cam 2:** cynllun mwy hirdymor ar gyfer y gweithlu Iechyd Meddwl, gan ganolbwyntio ar gyfoethogi rôl y gweithlu ehangach, recriwtio a chadw staff mewn rolau allweddol a datblygu gweithlu ystwyth i ymateb i anghenion iechyd meddwl newidiol.

Rydym yn falch o fod wedi derbyn bron i 300 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad a chwmpasu nifer sylweddol o bobl trwy ddiwyddiadau ymgynghori a thrwy gyfryngau cymdeithasol. Gwnaed cyfraniad sylweddol i'r ymgynghoriad gan bobl â phrofiad o fyw gyda materion iechyd meddwl (boed fel unigolion, gofaluwr, neu aelodau o'r teulu). Roedd cefnogaeth gref o blaid y camau sydd wedi'u llywio gan dystiolaeth, arfer gorau a'r broses ymgysylltu.

1. Sut bydd y cynllun yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl, gan gynnwys y materion a amlygwyd yn ystod yr ymchwiliad

Mae datblygu'r cynllun wedi bod yn dasg gymhleth, gan ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried yr ystod eang o weithwyr proffesiynol, gwasanaethau a lleoliadau sy'n rhyngweithio â phobl sydd ag anghenion iechyd meddwl.

O'r cychwyn cyntaf, roeddem yn cydnabod bod cysylltiad clir rhwng y gweithlu a'r modd o gyrchu cymorth— gan nodi fod bylchau yn y gweithlu yn gallu peri rhwystr i bobl o ran gyrchu gofal.

Mae'r galw am wasanaethau iechyd meddwl yn cynyddu a bydd y pandemig yn ffactor cyfrannol. Rydym wedi cyfeirio at ystod o ffactorau galw o fewn ein cynllun sydd, ar y cyfan, wedi'u symbylu gan benderfyniadau iechyd ehangach gan gynnwys ffactorau cymdeithasol ac economaidd yn ogystal â phoblogaeth sy'n heneiddio. Mae mynd i'r afael â'r ffactorau ehangach hyn y tu hwnt i derfynau cynllun gweithlu. Fodd bynnag, rydym wedi canolbwyntio ar ffactorau cyflenwi allweddol y gweithlu, y gallwn ddylanwadu arnynt naill ai'n uniongyrchol drwy ein swyddogaethau statudol, neu'n gydgyfrannog â chyflogwyr ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r camau gweithredu ar sail cyflenwi yn cynnwys ehangu llwybrau addysg a hyfforddiant, gan ganolbwyntio ar atynnu a recriwtio; strategaethau cadw ac ail-lunio rolau i ddatblygu sgiliau a chymwyseddau a chyfleoedd i ddatblygu drwy ystod llwybr gyrfa. Ni fydd modd inni reoli'r holl elfennau hyn yn uniongyrchol; er enghraifft, cyflogwyr fydd yn ymorol am gadw'r gweithlu i raddau helaeth. Serch hyn, fel sefydliadau gweithlu strategol yng Nghymru gallwn gynorthwyo cyflogwyr i gyflawni eu dyletswyddau.

Mae edau aur wedi'i bwytho drwy'r cynllun ynghylch pwysigrwydd lles, cynhwysiant a'r Gymraeg. Yn hytrach na bod y rhain yn bwyntiau gweithredu ar wahân, maent bellach wedi'u cydblethu drwy'r holl gamau a nodir o fewn y cynllun.

Nod y cynllun yw ysgogi newid a gwelliannau o ran sut rydym yn datblygu, gwerthfawrogi a chyfnerthu ein gweithlu iechyd meddwl arbenigol a'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Mae creu diwylliant o gynhwysiant, tegwch ac ecwiti ar draws ein gweithlu yn ganolog i'r Cynllun. Er ei fod yn canolbwyntio'n benodol ar y gweithlu yn hytrach na datblygu gwasanaethau, y mae wedi'i gynllunio i ategu gweithrediad strategaeth *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl*.

Mae ein huchelgais o ran strategaeth y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn trosi'n uniongyrchol i'r cynllun strategol hwn ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl. Bydd y camau gweithredu sydd yn y cynllun hwn yn gwau ynghyd i ffurfio gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol iechyd meddwl sy'n llawn cymhelliant, sy'n ymgysylltiedig ac sy'n cael eu gwerthfawrogi, â'r capasiti, yr hyfedredd a'r hyder i fodloni anghenion pobl Cymru.

Yn benodol,

- Gweithlu sydd â'r gwerthoedd cywir, yr ymarweddiad, gwybodaeth, sgiliau a'r hyder priodol i ddarparu gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n ategu lles pobl mor agos at eu cartrefi â phosibl.
- Gweithlu gyda'r niferoedd digonol i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl ymatebol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol ac sy'n diwallu anghenion pobl Cymru.
- Gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth, yr iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol.
- Gweithlu sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac sy'n cael eu gwerthfawrogi.

Mewn ymateb i'r materion penodol a godwyd, mae'r adran ganlynol yn darparu crynodeb o'r camau allweddol:

Capasiti

Mae nifer o gamau i wella capasiti o fewn gwasanaethau iechyd meddwl. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys:

- **Cam 1** – Cynyddu'r niferoedd a gomisiynir yn flynyddol i ymgymryd ag addysg a hyfforddiant mewn perthynas â'r gweithlu iechyd meddwl arbenigol dros y tair blynedd nesaf.
- **Cam 5** – Datblygu a gweithredu cynlluniau i sicrhau bod cyflenwad priodol o weithwyr proffesiynol hyfforddedig i ymgymryd â rolau statudol newydd a phresennol.
- **Cam 13** – Datblygu rhaglen ymgyrch atynnu wedi'i thargedu ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl, gydag anogaeth [Hyfforddi, Gweithio, Byw](#) a [Gofalwn Cymru](#).

- **Cam 26** – Adolygu hyfforddiant cymhwyso ac ôl-gymhwyso ar gyfer gweithwyr cymdeithasol i annog a meithrin mwy o arbenigeddau a chyfranogiad ym maes iechyd meddwl.

Llesiant y gweithlu iechyd meddwl a'r gweithlu ehangach

Mae'r cynllun yn cynnwys camau i wella llesiant y gweithlu iechyd meddwl a'r gweithlu ehangach. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys:

- **Cam 9** – Sefydlu gwasanaeth cymorth cenedlaethol ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl
- **Cam 10** – Dynodi, hyfforddi a chynorthwyo rhwydwaith o fentoriaid a fydd yn cael ei letya ar 'Gwella' i ddarparu safonau cyson a chytûn ar gyfer mentora staff iechyd meddwl.
- **Cam 17** – Datblygu a thraddodi hyfforddiant llythrennedd iechyd meddwl ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal, er mwyn gallu darparu cymorth mwy di-dor ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

Ymwybyddiaeth a hyfforddiant mewn perthynas â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth

Nodwyd tair egwyddor sylfaenol yn sgil Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol: lles, cynhwysiant a'r Gymraeg. Yn hytrach na ffurfio themâu ar wahân mae'r egwyddorion sylfaenol hyn yn tanategu bob un o'r saith thema gan eu bod yn elfen hanfodol sy'n cyfrannu at weithredu pob cam o fewn y Strategaeth. Rydym wedi mabwysiadu dull tebyg wrth ddatblygu'r Cynllun hwn gyda'r disgwyliad y bydd yr egwyddorion sylfaenol yn cael eu cydblethu drwy'r holl gynlluniau gweithredu. Bydd hyn yn sicrhau fod yr holl gamau'n cael eu gweithredu gyda lles, cynhwysiant a'r iaith Gymraeg yn ganolog iddynt.

Mae'n bwysig cydnabod bod gan gyflogwyr (Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol a darparwyr gofal cymdeithasol trydydd sector/preifat) rôl allweddol i sicrhau bod ganddynt fecanweithiau lleol ar waith i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant statudol a gorfodol a chmau eraill sy'n eu galluogi i gyflawni cyfrifoldebau statudol. Wrth gyflawni ein rôl o ddatblygu arweinyddiaeth, byddwn yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu cynnwys fel elfennau craidd a meysydd ffocws i'n holl arweinwyr. Byddwn hefyd yn parhau i hyrwyddo arweinyddiaeth dosturiol a chyfunol. Ochr yn ochr â chyflogwyr ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, byddwn yn adolygu ffyrdd o wneud y defnydd gorau o'r Cynllun Ardystio Cymhwysedd Diwylliannol a ddatblygwyd gan *Diverse Cymru*.

2. Sut bydd y cynllun hwn, a Strategaeth y Gweithlu ehangach ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Hydref 2020) yn sicrhau bod y gweithlu iechyd meddwl (ac ehangach) yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau amrywiol y mae'n eu gwasanaethu.

Fel yr amlinellwyd uchod, mae Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chynllun y Gweithlu Iechyd Meddwl yn cynnwys camau gweithredu a ategir gan dair egwyddor sylfaenol sy'n cynnwys y Gymraeg a chynhwysiant. Drwy gadw at yr egwyddorion hyn yn ystod y cyfnod gweithredu, bydd y Strategaeth a'r Cynllun yn helpu i sicrhau bod y gweithlu iechyd meddwl (ac ehangach) yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau amrywiol y mae'n eu gwasanaethu. Drwy ein trefniadau llywodraethu byddwn yn sicrhau bod yr egwyddorion sylfaenol yn sail i unrhyw gamau gweithredu sy'n cael eu rhoi mewn grym o fewn y Strategaeth ehangach a'r Cynllun Gweithlu.

O fewn AaGIC, rydym yn ymdrin yn rhagweithiol â chynhwysiant drwy gyfrwng ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n ysgogiadau comisiynu i ddylanwadu ar newid. Mae gennym raglen waith i adolygu'r holl gontractau addysgol. Yng nghanam 1 (a oedd yn canolbwyntio ar ddarpariaeth israddedig), bu inni ail-gomisiynu pob contract gyda Sefydliadau Addysg Uwch ac ymgorffori deunydd a chymalau sy'n canolbwyntio'n benodol ar gynhwysiant. Enghraifft o hyn yw mynd i'r afael â phryder penodol o ran darpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Fe'n cyflyrodd i ddyfarnu contractau newydd sydd wedi ehangu'r gallu i fyfyrwyr gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, a thrwy hynny sicrhau llif o nyrsys Cymraeg eu hiaith i'r dyfodol. Mae Cam 2 y rhaglen yn canolbwyntio ar ddull tebyg gyda'n darpariaeth ôl-raddedig.

Mae gan AaGIC fwrdd Rhaglen Cyrhaeddiad Gwahaniaethol at ddiben gweithredu diwylliant hyfforddi teg drwy ddylunio a chyflwyno gweithdai sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gweithlu amrywiol ar gyfer grwpiau cleifion amrywiol. Mae cyrhaeddiad gwahaniaethol yn cael ei ddiffinio gan y GMC fel bwllch rhwng lefel cyrhaeddiad addysg a hyfforddiant gwahanol grwpiau o feddygon. Rydym wedi traddodi cyfres o weminarau i tua 450 o hyfforddeion a hyfforddwyr ar draws Cymru.

Fel rhan o weithrediad ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP), mae AaGIC yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid allanol i ddarparu adolygiad diduedd o'n polisiâu a'n harferion i sicrhau aliniad â'r safonau cenedlaethol mewn perthynas â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym yn bwrw ymlaen ag amrywiaeth o gamau gweithredu mewn perthynas ag Amrywiaeth y Gweithlu. Er enghraifft, mae ein Huned Cymorth Proffesiynol yn recriwtio Hyrwyddwyr Cynhwysiant ymhlith hyfforddeion rhaglenni arbenigol meddygol a deintyddol. Bydd yr hyrwyddwyr hyn yn arwain y gad wrth hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau tosturiol ac yn hyrwyddo diwylliant o gynwysoldeb ar gyfer hyfforddeion newydd a phresennol.

O ran Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd Meddwl, un o'n prif weithredoedd yw cyflwyno model cefnogaeth cymheiriaid i Gymru. Ystyrir cymorth cymheiriaid yn gyffredinol fel perthynas o gyd-gefnogaeth lle mae pobl â phrofiadau bywyd tebyg yn cynnig cefnogaeth i'w gilydd, yn enwedig wrth iddynt wynebu profiadau anodd neu heriol. Dylai cyflwyno'r model hwn i Gymru helpu i wella ymwybyddiaeth o anghenion unigolion sy'n helpu i hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Gofal Cymdeithasol Cymru wedi'i sylfaenu ar ymgysylltiad cryf â phartneriaid allweddol, rhanddeiliaid a grwpiau cynrychioliadol cymunedol ehangach. Mae hyn i sicrhau bod ein hamcanion yn adlewyrchu safbwyntiau'r cyhoedd yr ydym yn ymlafnio i'w warchod. Fel sefydliad rydym yn asesu effaith ein holl waith yn ôl safonau iaith a chydaddoldeb ac yn ddiweddar cawsom ein cydnabod fel sefydliad Hyderus o ran Anabledd.

Mae amcanion clir ynghylch darpariaeth iaith yn ffurfio sylfeini ein llwybr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol a chânt eu monitro trwy'r broses sicrwydd ansawdd flynyddol. Mae llywodraethiad rhaglenni cymhwyso ac ôl-gymhwyso yn mynnu cynrychiolaeth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofawyr di-dâl i sicrhau bod llais y rhai sydd â phrofiad byw yn greiddiol i'r gwaith o ddatblygu a thraddodi rhaglenni. Mae hyn hefyd yn ymestyn i addysgu er mwyn lledaenu'r effaith y gall y rhai sydd â phrofiad byw ei chael ar ddatblygiad ein gweithlu i'r dyfodol.

Fel rhan o gynllun gweithredu Mwy na Geiriau, rydym wedi ymrwmo i wella data a phroffilio ein holl raglenni addysg sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol er mwyn i ni allu cyfarparu a thargedu meysydd sydd angen eu gwella. Rydym eisoes wedi canolbwyntio ar yr angen am ragor o siaradwyr Cymraeg yn ein hymgyrch atynnu Gofalwn Cymru yn ogystal â chanolbwyntio ar yr angen am fwy o ddynion yn y gweithlu.

I grynhoi, fel arweinwyr system ein rôl yw gwella ymwybyddiaeth a helpu i ymwreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y system iechyd a gofal ehangach. Gallwn gynorthwyo cyflogwyr drwy ein swyddogaeth datblygu arweinyddiaeth, ond yn y pen draw mae cyfrifoldeb arnynt hwy i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei ystyried fel elfen hanfodol o gynlluniau lleol.

3. Pa bryd y bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi, a ph'un a ydych chi'n fodlon rhannu copi ymlaen llaw yn gyfrinachol

Fe wnaethom gwblhau'r cynllun ym mis Mehefin 2022, ac fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru a'i rannu gyda'r Bwrdd Cyflawni a Goruchwylio Gweinidogol a gadeiriwyd gan y Dirprwy Weinidog.

Mae'r Cynllun ar gael ar ein gwefan [Iechyd Meddwl - AaGIC \(gig.cymru\)](https://www.aagic.gov.wales) ac rydyn ni'n cynllunio lansiad mwy ffurfiol yn yr Hydref.

4. Pa agweddau o'r cynllun ydych chi'n rhagdisgwyl iddynt gael eu blaenoriaethu i'w gweithredu

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried yr opsiynau gweithredu, blaenoriaethau a chyllid ac mae'r trafodaethau hyn yn parhau.

Mae'r cynllun terfynol a luniwyd drwy'r cyfnodau ymgysylltu ac ymgynghori yn cynnwys 33 o gamau allweddol ar draws pob un o saith thema ein Strategaeth Gweithlu.

Mae rhai camau o fewn y cynllun y gellir eu dwyn ymlaen heb yr angen am adnoddau ychwanegol neu lle gellir defnyddio arian sefydlu / arian iro i ffurfio braenarwyr i ddatblygu neu brofi modelau newydd.

Mae elfen hanfodol o'r cynllun yn ymwneud â'r angen i fuddsoddi'n y gwaith o ehangu llwybrau addysg a hyfforddiant gweithwyr proffesiynol (Nyrsio, Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Seicoleg a Chymdeithion Meddygol) fel eu bod yn adlewyrchu'n well y galw sy'n dod i'r amlwg yn sgil Cynlluniau Tymor Canolig Integredig y Byrddau Iechyd. Rydym yn cynnig cynnydd o 20% o ran lleoedd hyfforddi nyrsys fel y byddwn, erbyn diwedd y cylch addysg a hyfforddiant presennol (2025/26), wedi cynyddu nifer y nyrsys sy'n cael eu hyfforddi i 75% uwchlaw gwaelodlin 2019. Rydym yn cynnig cynnydd o 10% o ran Therapyddion Galwedigaethol (sef y Proffesiwn Perthynol i Iechyd mwyaf o fewn gwasanaethau Iechyd Meddwl); cynnydd parhaus yn nifer y Seicolegwyr gan gynnwys profi model newydd Cymdeithion Clinigol mewn Seicoleg Gymhwysol (CAAP) yn ogystal â chynyddu nifer y Cymdeithion Meddygol.

Dyma'r elfen o'r Cynllun sydd â'r pwys mwyaf ar adnoddau ac rydym wedi nodi hyn yng Nghynllun Addysg a Hyfforddiant blynyddol AaGIC a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Gorffennaf. Cynigir y cynyddiadau hyn i fynd i'r afael â bylchau gweithlu critigol o fewn y gwasanaeth, ac i sicrhau bod gennym y niferoedd cywir yng ngwedd y gweithlu i ymateb i gynnydd yn y galw am wasanaethau i'r dyfodol.

Thema allweddol a ymddangosodd yn sgil yr ymgynghoriad oedd yr angen i fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu arweinyddiaeth ar draws y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Hefyd, yr angen i ategu a chyfnerthu gweithgareddau addysgol parhaus sy'n datblygu ac yn gwella sgiliau a modelau'r gweithlu (megis mentora, goruchwyliaeth, rhaglenni datblygu a CPD parhaus). Yn hyn o beth, rydym yn awyddus i weld cyllid yn cael ei neilltuo'n arbennig i sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion penodol y gweithlu iechyd meddwl. Bydd y buddsoddiad hwn yn talu ar ei ganfed os caiff ei ddefnyddio fel rhan o becyn ehangach sy'n dangos ymrwymiad gwirioneddol i'n gweithlu a fydd yn cynorthwyo recriwtio a chadw staff.

Yn olaf, mae elfennau o'r cynllun sy'n ymwneud â chyflwyno newidiadau i bolisi cenedlaethol neu ddeddfwriaethau (megis paratoi ar gyfer cyflwyno newidiadau i'r Ddeddf Iechyd Meddwl a Mesurau Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid).

5. Pa asesiadau sydd wedi'u cynnal o'r staff a'r adnoddau ariannol sy'n angenrheidiol i gyflawni'r cynllun a ph'un a oes digon o adnoddau ar gael

Mae pob cam wedi cael ei asesu o ran y gofyniad am adnoddau. Rydym wedi nodi y gellir symud ymlaen â rhai camau heb unrhyw adnodd ychwanegol neu lle gellir darparu cyllid fel arian sefydlu / arian iro i hybu'r camau. Mae AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i flaenoriaethu iechyd meddwl o fewn ein dyraniadau o adnoddau craidd lle bo hynny'n bosibl.

Fodd bynnag, bydd angen sicrhau adnoddau ychwanegol yn achos llawer o'r camau ac rydym wedi rhannu asesiad o'r rhain gyda Llywodraeth Cymru i'w hystyried. Mae'r rhan fwyaf o'r camau yn cyd-fynd yn llawn â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru neu flaenoriaethau a ddynodir fel rhai sy'n mynnu buddsoddiad mewn addysg a hyfforddiant, sy'n gynwysedig yn y Cynllun Addysg a Hyfforddiant. Ein gobaith yw y gellir sicrhau cyllid i weithredu'r Cynllun Gweithlu, ymhlith yr adnoddau polisi sydd angen eu blaenoriaethu er budd Iechyd Meddwl. Fodd bynnag, rydym yn llawn ddeall bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried y cynllun yng nghyd-destun blaenoriaethau gweithlu eraill.

6. Sut y caiff cynnydd o ran cyflawniad y cynllun ei fesur a'i fynegi?


Rydym wrthi'n adolygu trefniadau llywodraethu gan gydnabod y gallai fod angen addasu'r rhain wrth i ni symud o gynllunio i weithredu. Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd, fel Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn datblygu trefniannau gweithio agos gyda chyflogwyr ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ogystal â sicrhau dull rheoli rhaglenni cadarn o weithredu'r camau bwriadwn ddatblygu cynllun gwireddu buddion. Bydd y cynllun hwn yn nodi cyfres o fesurau fel y gallwn olrhain manteision unrhyw fuddsoddiad ychwanegol.

Byddwn yn sicrhau drwy ein Byrddau priodol bod mecanwaith sicrwydd effeithiol ar waith fel rhan o'n trefniadau cyflawni. Byddwn yn sicrhau, fan lleiaf, bod adroddiad blynyddol ar gynnydd yn cael ei archwilio gan ein Byrddau ac ar gael i'r cyhoedd.

Mae ein tudalennau gwe'n cael eu datblygu ar hyn o bryd a byddant yn lletya deunydd i'r cyhoedd i amlygu ein cynnydd.

Gobeithiaf y bydd yr ymateb hwn yn cynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i Ymchwiliad. Byddem yn barod iawn i ddarparu rhagor o wybodaeth pe bai angen.

Yr eiddoch yn gywir



ALEXANDRA HOWELLS
PRIF WEITHREDWR
AaGIC

SUE EVANS
PRIF WEITHREDWR
GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon